Y DRYSORFA.

Rhif. 717.] GORPHENAF, 1890. [Llyfr LX.

ARAETH

A draddodwyd wrth roddi i fyny y Gadair Lywyddol yn y Gymanfa Gyffredinol, yn Liverpool, Mai 20fed, 1890.

GAN Y PARCH. G. PARRY, D.D., CARNO.

Anwyl Dadau a Brodyr:—

Yn unol â'r arferiad yn ein plith, yr ydwyf yn cyfodi i'ch cyfarch âg ychydig sylwadau wrth roddi i fyny Gadair Lywyddol y Gymanfa Gyffredinol am y flwyddyn. Bum mewn cryn betrusder pa beth i'w gymeryd yn destyn y sylwadau hyn. Nis gallwn lai na theimlo fod priodoldeb mawr ar yr achlysur hwn—yr unig gynnulliad pan y mae yr holl Gyfundeb yn bresennol yn ei gynnrychiolwyr—mewn bod yr araeth, fel rheol, yn bwrw golwg ar y Cyfundeb yr ydym yn perthyn iddo, yr hwn y mae ei lwyddiant mor agos at ein calon, yn gymaint ag mai o fewn y cylch hwn y mae ein gweithgarwch Cristionogol ni yn benaf, a bron yn gwbl, yn cael lle i weithredu—bwrw golwg arno yn ei hanes a'i lwyddiant blaenorol, yn ei sefyllfa bresennol, yn ei beryglon a'i anghenion—yn arbenig yn yr hyn sydd yn anghenrheidiol tuag at ei gyfaddasu fwyfwyi gyfarfod â'r cyfnewidiadau prysur a phwysig ag y mae yr amser hwn mor lawn o honynt, o ran agweddau meddwl a chrefydd—a thaflu trem ar ei ragolygon am y dyfodol—y dyfodol agos a'r dyfodol pell.

Ar yr un pryd, nis gallwn lai na theimlo hefyd mai buddiol fyddai i ni, yn awr ac eilwaith, ddefnyddio yr achlysur neillduol hwn i geisio ymgyfodi i dir uwch—i awyr eangach, a chodi ein golwg oddiwrth ein Cyfundeb at y *Grefydd* hono yn yr hon y cafodd ei fôd, ac er mwyn yr hon y mae yn bod. Y mae Cristionogaeth yn fwy na Methodistiaeth,—yn fwy na phob trefniant enwadol. Yr ydym yn Gristionogion yn gyntaf, ac yn Fethodistiaid yn ail. Pa bethau bynag sydd hawddgar, pa bethau bynag sydd ganmoladwy yn ein Cyfundeb, od oes dim rhinwedd, ac od oes dim clod yn perthyn iddo, y mae hyny i gyd am ei fod, ac i'r graddau y mae, yn allu i gynnyrchu ac i feithrin meddwl Crist yn eneidiau dynion, ac yn foddion i ledaenu egwyddorion ac ysbryd Cristionogaeth yn ein gwlad, ac yn y byd. Ei wasanaeth i Gristionogaeth yw "rheswm ei fod." Ac y mae neillduolrwydd yr amseroedd yn rheswm ychwanegol dros hyn—"amseroedd enbyd y dyddiau diweddaf" fel y barna llawer, pan y mae yr ysbryd gwrth-Gristionogol a gwrth-grefyddol wedi dyfod allan gydag eofndra newydd, ac yn ymgorffoli mewn ffurfiau newyddion—ffurfiau coethedig, hollol wahanol i rai garw canrif neu ddwy yn ol, ffurfiau yn uno eu hunain â gwyddoniaeth yr oes, ac â chynnydd y byd mewn dealltwriaeth—ffurfiau deniadol a dirgelaidd, ac o gymaint a hyny yn fwy peryglus. Gwir nad yw Cymru eto yn teimlo llawer oddiwrth y dylanwadau niweidiol hyn, ac y mae hyny yn destyn llawenydd a diolchgarwch. Ond ni ddylai hyn ein

gwneyd yn hunan-hyderus, na pheri i ni gau ein llygaid ar ein peryglon. Y mae lledaeniad gwybodaeth a chynnydd y celfyddydau wedi gwasgu y byd at ei gilydd yn rhyfedd iawn—yn nesâu gwledydd ac yn nesâu oesoedd, nes lleihâu pellder mewn amser a lle, a rhwng gwahanol ddosbarthiadau mewn cymdeithas—y dysgedig a'r annysgedig. Dylem gofio hefyd fod Ammheuaeth yn yr awyr. Ac nid oes dim yn effeithio yn fwy dwfn, ac ar yr un pryd yn fwy graddol a dirgelaidd, ar y cyfansoddiad—pa un bynag ai y corff ai y meddwl—na'r awyr y mae dyn yn ei hanadlu. Gall dderbyn y niwed mwyaf o'r awyr sydd o'i amgylch, a hyny yn gwbl heb yn wybod iddo ei hun, hyd nes y bydd y niwed wedi ei wneuthur. Nid fy amcan I yn bresennol yw rhoddi eglurhâd manwl ar wahanol agweddau Ammheuaeth yr oes, na myned i mewn i fanylion y gwahanol ddulliau o ymresymu sydd yn eu cyfarfod ac yn dynoethi eu geudeb. Byddai cynnyg at y fath beth ar yr achlysur hwn allan o le ac amser, heblaw fod cyflawnder o ddefnyddiau yn y cyfeiriad hwn at wasanaeth pawb sydd yn caru darllen a meddwl; a da iawn fyddai i'n pobl ieuainc ddefnyddio y cyfleusderau hyn sydd yn eu cyrhaedd, trwy ddarllen dyfal a dwys-fyfyrdod, i eangu eu gwybodaeth a dyfnhâu eu hargyhoeddiadau am wirioneddau tragywyddol ein crefydd, "fel na byddont mwyach yn blantos, yn bwhwman, gan eu cylch-arwain â phob awel dysgeidiaeth, trwy hoced dynion, trwy gyfrwysdra i gynllwyn i dwyllo." Mwy priodol a buddiol a fyddai i ni, ar yr achlysur hwn, wneuthur ychydig o sylwadau cyffredinol ar

GRISTIONOGAETH YN WYNEB AMMHEUAETH YR OES.

Mewn ffordd o edrych ymha le yr ydym yn sefyll, beth yw agwedd pethau yn bresennol, beth yw hi ar y gloch—"Y gwyliedydd, beth am y nos?"—ac o geisio taflu ychydig awgrymiadau am natur gyffredinol y ddadl, cadernid profion Cristionogaeth—mewn ychydig engreifftiau, yr agweddau meddyliol priodol i gyfarfod â'r anhawsderau, a'r elfenau hyny o nerth ysbrydol a gadarnhant y cyfansoddiad rhag derbyn niwed oddiwrthynt, ac a'n galluogant i'w gorchfygu.

1. Nid yw Ammheuaeth yn beth newydd yn y byd. Y mae braidd yn hen. Y cwestiwn cyntaf yn y Bibl, y geiriau cyntaf ag y mae y gofyn-nod ar eu hol, yw cwestiwn o ammheuaeth: "Ai diau ddywedyd o Dduw?" 'A ydych yn sicr ei fod wedi dyweyd? Ac os dywedodd, a ydych yn sicr fod yr hyn a ddywedodd yn wir?' Felly nid all Ammheuaeth ddim ymffrostio yn ei *phedigree*. Sylfaenydd y teulu oedd tad y celwydd. Ac y mae y ffaith yna yn arwyddocäol, ac yn egluro Hanes Naturiol Ammheuaeth. Caniataer—Cristionogaeth a natur ddynol lygredig yn yr un byd—y canlyniad yw, gwrthwynebiad anochel-adwy, anghymmodadwy. "Pa gymundeb sydd rhwng goleuni a thywyllwch?" Nis gall na ddêl ammeu a gwadu.

2. Ond nid yw yn canlyn nas gall ammheuon gonest fod. Y maent yn bod. Ac am anhawsderau meddwl didwyll yn ceisio gweithio ei ffordd trwy dywyllwch i oleuni,—y mae y rhai hyn i'w trin gyda'r parch a'r tynerwch mwyaf. Ac y mae dwy ffordd o edrych ar ammheuaeth yr oes hon. Un yw, ffordd y dyn sydd yn cymeryd yr olwg waethaf ar bethau—y *pessimist*: sef fod yma lanw o anffyddiaeth yn dyfod i mewn, ac yn bygwth ysgubo ymaith hen dir-nodau ein ffydd, os nad yn bygwth bod yn ddiluw i orchuddio yr hyn a arferem ni edrych arnynt fel mynyddoedd aruchel a thragywyddol gwirionedd Duw. Un arall yw ffordd y dyn sydd

yn cymeryd yr olwg oreu ar bethau—yr *optimist:* sef fod ammheuaeth yr oes hon, ar y cyfan, yn un o natur iachus a chywir. Addefir, bid siwr, fod engreifftiau llïosog, ysywaeth, i'r gwrthwyneb; ond, ar y cyfan, mai dyna yw nodwedd ammheuaeth yr oes, yr ammheuaeth sydd yn dymuno *credu*, ac nid yn dymuno *anghredu*. Mewn gair, fod hon yn oes o *ddifrifwch* meddyliol (*intellectual earnestness*) anghyffredin; mai nid gwrthwynebrwydd i gredu sydd wrth wraidd yr ammheuaeth, ond gochelgarwch mwy nag erioed rhag credu yr hyn nad yw *wir;* ysbryd beirniadol, ymchwilgar, —cynnyrch buddugoliaethau dysglaer gwyddoriaeth ddiweddar, mewn rhan, a'r arferion meddyliol a ffurfir yn anymwybodol gan efrydiau gwyddorol; yr ysbryd sydd am noethi pob peth i'w sylfeini, am beidio cymeryd dim yn ganiataol oddiar awdurdod na thraddodiad, ond am ail-agor pob cwestiwn, a chwilio i seiliau pob crediniaeth; ac ysbryd sydd yn fwy gwrthwynebol nag erioed i bob rhith a geudeb,—i bob peth *unreal.* Y mae bardd mwyaf ysbrydol a dwfn-ddifrifol yr oes wedi taflu gair i'r un perwyl:—

> "There lives more faith in honest doubt,
> Believe me, than in half the creeds."

Ac y mae yn ddiau y gall fod llawer mwy o wir *ysbryd* ffydd yn yr ammheuwr gonest, difrifol, sydd yn teithio yn araf a llafurus yn ei ymchwil am y gwirionedd, nag yn y dyn nad yw yn gofalu am ddim ond am fod yn ddyogel a chysurus yn y ddau fyd, ac wedi taflu ei hun i mewn i gredo neilldual megys i gerbyd, tra nad yw mewn gwirionedd yn credu mewn dim ond yn ei union-gredodd ei hunan, ac yn ei ystyried ei hunan fel sypyn gwerthfawr wedi ei *labellio* yn ddyogel i fywyd tragywyddol. Dyma ddwy olwg ar ammheuaeth yr oes. Gallai fod y darluniad a roddasom yn awr yn ddarluniad o'r wedd eithafol ar y ddwy ochr. Pa un sydd nesaf at y gwirionedd, bydd pob un yn barnu drosto ei hun. Ond y mae yn dra thebyg, ar y cyfan, fod mwy o wirionedd yn yr olwg oreu nag yn y waethaf.

3. Y mae ACHOSION ammheuaeth yn amrywiol — hanesyddol, gwyddorol, athronyddol, beirniadol, eglwysyddol, gwladwriaethol, cymdeithasol a moesol. Diau fod athroniaeth Kant wedi effeithio i roddi math o ffurf a sêl wyddorol i'r ysbryd oedd yn gweithio yn y ddeunawfed ganrif. Ymdrechai Kant yn onest ddal i fyny ffydd yn y drindod o wirioneddau—Duw, rhyddid, ac anfarwoldeb,—fel gofynion yr hyn a eilw efe "y rheswm ymarferol" (neu natur foesol dyn). Gwadai allu a hawl "y rheswm pur" i benderfynu dim am bethau dwyfol. Ond wrth ddal a cheisio profi nas gellid gweithio allan y drychfeddyliau hyn yn unol â deddfau rhesymeg, ac nas gellid profi y Bôd o Dduw trwy unrhyw ymresymiad (o natur ddeallol yn unig), darfu i'w gyfundraeth roddi symbyliad i ysbryd ammheuaeth yr oes hono, er mai cam dybryd â hi oedd hyny. Darfu i Feirniadaeth Hanesyddol yn yr Almaen hefyd weithio yr un ffordd, yn cael ei harwain gan Strauss a Baur. Cychwynai y cyntaf o safle Bantheistaidd; gwadai y posiblrwydd o wyrthiau, ac yn ei lyfr ar fywyd yr Iesu ceisiai wneyd allan nad oedd yr hanes Efengylaidd ond cadwen o chwedlau, cynnyrch dychymyg y dysgyblion cyntaf a'r Eglwys Foreuol. Cymerai Baur gyfeiriad arall, er ei fod yntau yn cychwyn o gyffelyb syniadau Hegelaidd am ddadblygiad hanesyddol. Ei amcan ef oedd esbonio ymaith y goruwch-naturiol o Gristionogaeth, trwy geisio ei gwneyd allan yn ddim ond cynnyrch naturiol a chyfuniad o syniadau, crediniaethau, a dysgwyliadau oedd yn bod mewn gwahanol ffurfiau, ac yn yr awyr megys, cyn Cristionogaeth. Crybwyllwn y pethau hyn, er mwyn nodi allan rai o achosion ac

achlysuron Ammheuaeth ddiweddar, er fod rhai o honynt yn effeithiau yn gystal ag yn achosion. Ond gallwn grybwyll hefyd wrth fyned heibio na bu dim a gynnygiwyd erioed yn fethiant mwy hollol na'r ceisiadau hyn. Gwnaed yr ymchwiliad mwyaf llym a thrwyadl iddynt, dynoethwyd eu geudeb ar dir gwyddoriaeth a beirniadaeth hanesyddol yn y modd mwyaf trwyadl, gan Neander, Tholuck, Ullmann, Ebrard, ac eraill. Yr hyn a geisiodd Strauss a Baur a'r *Tübingen School* ei wneyd, ond yn aflwyddiannus, â'r Testament Newydd, y mae beirniaid Hebreig dysgedig yn ceisio ei gyflawni yn awr, yn yr Almaen eto, â'r Hen Destament. Y mae y beirniaid hyn, yn cael eu blaenori gan Wellhaussen, yn ceisio profi trwy dystiolaethau tumewnol yn benaf, fod y syniadau sydd wedi bod yn ffynu am awduriaeth ac amseriad y Pum' Llyfr a rhanau eraill, yn gyfeiliornus, a bod yn rhaid gwneyd ad-drefniad hollol, os nad dwyn i mewn chwyldroad i'r syniadau a gredid hyd yma am yr Hen Destament. Croesaw i'r goleuni o bob cyfeiriad, ond iddo fod yn *wir* oleuni, ac nid yn hud-lewyrch twyllodrus! Ond am i'r ymchwiliadau hyn gyffwrdd yn y gradd lleiaf â sylfeini ein ffydd yn y Datguddiad dwyfol, nid oes ynom y petrusder lleiaf. Beth os rhaid i ni newid ein barn am amseriad ac awduriaeth llyfr neu ddau yn yr Hen Destament, ni bydd hyny yn sicr yn diffodd yr haul nac yn dinystrio seiliau y mynyddoedd tragywyddol. Y mae y gŵr mwyaf cyhoeddus yn y deyrnas hon wedi dyweyd yn ddiweddar ar y mater hwn y dylem gofio dau beth: nad yw y cyfnewidiadau dan sylw yn ymwneyd â dim ond â *ffurf lenyddol* y cyfansoddiadau; ac hefyd fod casgliadau o'r natur yma yn fynych o fyrbarhad, ac yn cael eu troi yn ol gan ymchwiliadau llwyrach. Nid yw athrawiaethau mawrion yr Ymgnawdoliad a'r Iawn yn hongian ar amseriad ac awduriaeth Deuteronomium neu y rhan olaf o brophwydoliaeth Esaiah. Ac nis gallwn lai na chofio fod rhai o feirniaid yr Almaen wedi gwneyd camgymeriadau echrys o'r blaen trwy bwyso ar ffon gorsen y profion tufewnol a'r *higher criticism*. Credwn y bydd yr ymgais hwn gyda'r Hen Destament mor bell o wneyd gwir niwed i'n ffydd ag y bu y lleill gyda'r Testament Newydd. Ail adroddir yr hen chwedl; troir eto yn grwn trwy yr hen gylch; cyfarfyddir y ddysgeidiaeth â dysgeidiaeth ddyfnach, atebir y rhesymau â rhesymau cadarnach i ddynoethi eu geudeb a'u nodwedd ddisail, megys y gwnaeth y diweddar Esgob Lightfoot â'r llyfr a elwir "*Supernatural Religion*," a'r *Professor* Wace â'r *Professor* Huxley. Ac yn wir y mae hyn wedi dechreu eisoes gyda beirniadaeth yr Hen Destament. Y mae y *gauntlet* wedi ei thaflu—rhyfel wedi ei gyhoeddi, a hyny gan un o ysgolheigion Hebreig mwyaf yr oes, os nad y mwyaf oll. Ymladder y frwydr yn deg, a Duw a ddiffyno'r gwir! Ond nid oes genym yr ammheuaeth lleiaf nad erys y Bibl yn dawel ar ei orsedd. Chwyth yr ystorm fechan drosodd, megys ag y chwythodd ystorm o'r blaen pan lanwyd yr awyr â ffigyrau Esgob Colenso—cawod fawr oedd yn bygwth myned yn ddiluw. Ond treiodd y dyfroedd yn ebrwydd. Ni ddaeth ail ddiluw i foddi cofrestr y diluw cyntaf. Y mae y ddaear yn troi, a'r haul yn y ffurfafen fel o'r blaen.

Rhaid nodi hefyd *Gwyddoriaeth* Ddiweddar dan yr un pen. Nid oes un ddadl nad yw Ammheuaeth yr oes hon wedi derbyn symbyliad grymus oddiwrth ganlyniadau dysglaer y cynnydd a wnaeth Gwyddoriaeth Ddiweddar. Darganfyddiadau rhyfeddol Gwyddoriaeth yw un o brif hynodion ein hoes. Ac y mae yn rhy amlwg i'w wadu, fod ymroddiad i ymchwiliadau gwyddorol a meithriniad yr

ysbryd gwyddorol yn tueddu i greu gwrthnawsedd, a bron anallu, i ymwneyd â phrofion o natur foesol, ac â gwirioneddau yr ymherodraeth ysbryddol hono sydd gymaint uwchlaw yr eiddo gwyddoriaeth ag ydyw y nefoedd yn uwch na'r ddaear. Ni ddylai fod felly; ac nid yw felly mewn meddyliau o nerth a lled digonol—meddyliau gwir athronyddol, ac wedi eu hiawn fantoli. Y mae gan deyrnas Gwyddoriaeth ei hun ei gwahanol daleithiau, a phob un dan ei deddfau priodol ei hun. Nid yw deddfau y naill yn gymhwysadwy at y llall. Y rheol yw—"Pob un yn ei drefn ei hun" ac o fewn ei gylch ei hun. Ond byddai yn fwy rhesymol ceisio llunio ymresymiad yn yr hwn y buasai deddfau fferylliaeth yn cael eu cymhwyso at faterion sydd o dan lywodraeth deddfau ysgogiad, er mor afresymol fuasai hyny, na chymhwyso deddfau gwyddoriaeth i geisio cau allan a gwadu y byd o wirioneddau a gwrthddrychau ysbrydol sydd yn gorwedd o dan yr oll a welir, yn amgylchynu yr oll, yr hwn y mae ei nerthoedd yn treiddio trwy yr oll ac yn rhwymo yr oll wrth orsedd Duw. Y mae y gwahaniaeth rhwng y ddwy diriogaeth o fôd yn annhraethol fwy na'r gwahaniaeth rhwng taleithiau yr un diriogaeth â'u gilydd.

Rhaid cymeryd hefyd achosion *gwladwriaethol a chymdeithasol* i'r cyfrif. Tyfiant rhyddfrydiaeth, lliosogiad sefydliadau rhydd, lledaeniad gwybodaeth, a'r canlyniad o gynnydd yr ysbryd beirniadol, a meddwl a barn annibynol—pethau rhagorol ynddynt eu hunain, ond fel pobpeth da yn agored i'w camddefnyddio, a thrwy hyny i achlysuro drwg; pethau o'u hiawn ddefnyddio sydd yn ffafriol i Gristionogaeth, yr hon sydd yn grefydd ar ei phen ei hun ymhlith crefyddau y byd mewn gwahodd ymchwiliad, byw yn y goleuni—yr hon y mae ei llyfr uwchlaw pob llyfr yn galw ar ddynion i feddwl yn gystal ag yn deffro meddylgarwch—ond pethau o'u camarfer ydynt yn arwain i falchder deallol, colli y syniad o gymdeithas yn y person, hunanhoniad diderfyn y meddwl unigol—llygriad egwyddor y Diwygiad Protestanaidd—"hawl a dyledswydd pob dyn i farnu drosto ei hun;" cofir yr hawl i farnu, ond anghofir fod eisieu gronyn o gymhwysder i farnu, cyn y bydd y farn o ddim gwerth i'r dyn ei hunan nac i neb arall. Arweiniodd y llygriad hwn o bethau da, yn ei eithafion, i'r dymher hono yn yr hon y dywedodd y Gwyddel "fod pob dyn cystal a phob dyn arall, *ac yn llawer gwell.*" Arweiniodd i'r waedd am gydraddoldeb, yr hyn o'i ddehongli yw—cael pobpeth sydd i fyny i lawr er mwyn cael pobpeth sydd i lawr i fyny. Arweiniodd i wadiad o bob awdurdod yn y nef a'r ddaear.

Os gofynir, paham yr ydym yn aros cyhyd gydag achosion Ammheuaeth, ein hateb yw—am fod deall yr achosion yn anghenrheidiol fel yr ammod cyntaf i wynebu anhawsderau crefyddol ein hamser ac i ymwneyd yn effeithiol â hwynt. Gair doeth oedd hwnw a ddywedodd Spinoza, er mai yr enwocaf o'r Pantheistiaid ydoedd: "Nid yw pethau dynol i chwerthin am eu pen, nac i wylo uwch eu pen; ein dyledswydd yw eu *deall.*" Ceisiwn ninnau ddeall gelynion ein crefydd; dyma y cam cyntaf tuag at ymarfogi yn briodol i'w cyfarfod a'u gorchfygu. Na fydded i ni is-brisio na gor-brisio y galluoedd sydd yn ein herbyn. Nid ydym i golli ein penau nac i dori ein calonau yn yr olwg arnynt, ond i'w cyfarfod yn wrol wedi ein gwisgo yn yr holl arfogaeth, ac i'w gorchfygu yn nerth tragywyddol gwirionedd Duw.

Ond wedi y cwbl, y mae yr achos pwysicaf heb ei nodi. Y mae achos gwreiddiol a chyffredinol ammheuaeth yn un o natur *foesol.* Dyma waelod dyfnaf anghrediniaeth. I fenthyca

iaith feddygol, dyma *diagnosis* anffaeledig ysbrydoliaeth, neu y desgrifiad o natur yr afiechyd—"Dywedodd yr ynfyd yn ei *galon*, Nid oes un Duw." Gallai Rheswm oddiwrth hyn ragfynegi gyrfa yr afiechyd—rhoddi y *prognosis*—llygriad moesau. Ac â hyn y cytuna y ffaith, dyma hanes yr achos: "Ymlygrasant, gwnaethant ffiaidd anwiredd." Clefyd y galon *(disease of the heart)* yw hwn, nid y pen, ond fel y mae y galon yn effeithio ar y pen. Y mae ansawdd y galon yn effeithio ar lygad y meddwl. Y mae gwrthdro yr ewyllys yn tywyllu y deall. "Nid yw ein cyfundraethau o athroniaeth," medd Fichte, "yn bur fynych ond adlewyrchiad ein calonau a'n bucheddau." Os felly y mae gydag athroniaeth, pa faint mwy gyda chrefydd, yr hon y mae ei gwreiddiau dyfnaf yn y galon a'r ewyllys, yn nhiriogaeth ddyfnaf ein natur? Credwn y gallwn dderbyn fel gosodiad sylfaenol yr hyn a ddywedodd ysgrifenydd enwog arall yn yr Almaen a fu farw yn ddiweddar—"fod sefyllfa pob dyn tuag at Gristionogaeth yn cael ei phenderfynu yn yr eithaf gan ystâd dufewnol ei galon a'i ewyllys."

4. Profir hyn yn amlwg i bob meddwl diduedd yn ymdrechion caled yr Anffyddiwr i gael gwared o wirionedd sylfaenol crefydd—y gwirionedd am *Dduw*. Nid oes eisieu dyweyd fod Cristionogaeth yn gorphwys ar y gwirionedd hwn. Oblegid y mae Cristionogaeth yn *grefydd*—ïe, *y* grefydd—yr unig grefydd wir a dwyfol. Ac y mae *crefydd* yn air diystyr heb ei gysylltu â Duw. Y mae y gair ei hunan, mewn gwahanol ieithoedd, megys yn cario cofrestr ei enedigaeth ar ei dalcen. Mewn un iaith, golyga yr hyn sydd yn rhwymo, neu yn adrwymo dyn yn ol wrth Dduw; mewn iaith arall golyga addoliad Duw; mewn un arall gweddi ar Dduw—iaith naturiol crefydd. Ond dyma ysbryd Anffyddiaeth—ymwrthodiad â Duw. "Dywedodd yr ynfyd yn ei *galon*, Nid oes un Duw," neu yn fwy llythyrenol—"Dim Duw!" Iaith y *galon* —y dymuniad yn dad i'r grêd. "Ni *fynwn* ni y Duw hwn"—a phan y daeth i'r cnawd, "ni fynwn ni y *dyn* hwn" (am fod Duw ynddo) "i deyrnasu arnom."

Dangosir hyn yn ngwaith yr Anffyddiwr yn ceisio codi gwrthryfel yn nheyrnas Natur yn erbyn ei Brenin. I'r llygad syml, y mae Natur yn llawn o Dduw, a'r greadigaeth yn deml sydd yn fyw gan ei fawl. Dyma addysg y Bibl a llais rheswm. Y mae yr Anffyddiwr yn euog o'r cysegr-yspeiliad echrys o droi teml y Creawdwr yn bulpud i bregethu o hono—*Nid oes un Duw*. "Y nefoedd sydd yn dadgan gogoniant Duw," medd y Bibl. "Nac ydyw y nefoedd yn dadgan dim o'r fath beth," medd Comte,—"Y nefoedd sydd yn dadgan gogoniant Hipparchus, Kepler, a Newton—y dynion a ddarganfyddodd ei deddfau." Pan geisir gan y gwyddonwyr gredu yn Nuw, eu hateb ydyw—"Nid ydym ni yn *gweled* Duw." Ac y mae yn dygwydd pan geisir gan y barbariaid isaf ffurfio syniad am y gwir Dduw, fod eu hateb hwythau yn hollol yr un peth—"Nid ydym ni yn *gweled* Duw." Eithafion yn cydgyfarfod—gwyddoriaeth a barbariaeth. Ond nid ydynt yr un fath er hyny. Heb ddysgu gweled y mae y naill, tra y mae y llall wedi dysgu "gweled ac heb weled." Dechreu agor ei lygad ar y goleuni y mae un, a'r llall yn cau ei lygad, gan "garu y tywyllwch yn fwy na'r goleuni."

Y mae yr Anffyddiwr yn cyhoeddi rhyfel yn erbyn Natur oddiallan, a'i natur ei hunan oddifewn. Nid annghrefyddol yn unig yw anffyddiaeth, ond annaturiol—trais ar natur. I'r meddwl iach a naturiol, y mae pob peth yn llefaru am Dduw. "Ei weision ef yw pob peth,"—a'i dystion ef

yw pob peth. Y mae y gweision yn ffyddlawn i dystio dros eu Meistr. Ceisia yr Anffyddiwr eu llwgrwobrwyo. Cynnygia roddi gogoniant eu Meistr iddynt hwy, a'u gosod hwy ar orsedd eu Meistr, ond iddynt hwy ei wadu. Deuant ymlaen i dystiolaethu; ond yn lle ei wadu, ei gyhoeddi y maent â llef uchel. Wedi eu cyflogi i felldithio, y maent (fel Balaam gynt) yn unfryd yn bendithio. Dyma eu tystiolaeth wedi ei hargraffu mewn llyfr: "Efe a'n gwnaeth ni ac nid ni ein hunain;" "y mae ei dragywyddol allu Ef a'i Dduwdod i'w gweled yn amlwg" ynom ni "y pethau a wnaed;" "nid o bethau gweledig y gwnaed ni y pethau a welir—y mae ein gwreiddiau yn yr anweledig, ac yn y *Duw* anweledig;" "o hono ef, a thrwyddo ef ac erddo ef yr ydym ni ac y crëwyd ni," ac "o'i gyflawnder ef y derbyniasom ni oll." A dyma y dystiolaeth yn ymdori mewn *burst* o fawl—*chorus* mawr: "Dy holl weithredoedd a'th glodforant, O Arglwydd!" Dyma yr olygfa wedi ei symud; dyma ni yn cael ein hunain yn sydyn o fod mewn llys barn yn gwrando tystiolaethau, mewn adeilad wahanol ac eto yr un; os goddefa cyfeillion y cyngherddau i ni gymeryd benthyg eu gair hwy at rhyw fater bach fel hyn—dyma ni mewn "Cyngherdd Mawreddog." Ac y mae *programme* y Cyngherdd wedi ei ysgrifenu mewn llyfr:—

"Molwch yr Arglwydd, o'r nefoedd, molwch ef yn yr uchelderau;
Molwch ef haul a lleuad, molwch ef yr holl ser goleuni;
Molwch ef nef y nefoedd; a'r dyfroedd y rhai ydych oddiar y nefoedd;
Molant enw yr Arglwydd; o herwydd efe a orchymynodd, a hwy a grewyd. A gwnaeth iddynt barhau byth yn dragywydd, gosodedd ddeddf, ac nis troseddir hi."

Dyma athrawiaeth y Byd-hàniad—dyma'r gwir *Cosmogony!*

"Molwch yr Arglwydd o'r ddaear, y dreigiau, a'r holl ddyfnderau:
Tân a chenllysg, eira a tharth, gwynt ystormus yn gwneuthur ei air ef:
Y mynyddoedd, a'r bryniau oll; y coed ffrwythlawn, a'r holl gedrwydd:
Y bwystfilod, a phob anifail, yr ymlusgiaid ac adar asgellog."

Yn awr dyma y *Chorus* llawn—dynion yn ymuno â Natur:

"Breninoedd y ddaear, a'r holl bobloedd; tywysogion, a holl farnwyr y byd;
Gŵŷr ieuainc, a gwyryfon hefyd; henafgwyr a llanciau:
Molant enw yr Arglwydd: o herwydd ei enw ef yn unig sydd ddyrchafadwy; ei ardderchawgrwydd ef sydd uwchlaw daear a nefoedd!"

Ië, 'barddoniaeth ydyw peth fel yna,' meddai rhywun. Ië, barddoniaeth, ac fel pob gwir farddoniaeth, wedi ei seilio ar ac yn llawn o wirionedd. Ffurf uchel ar wirionedd ydyw barddoniaeth—gwirionedd ar dân. Y mae pob *theory* sydd am gau Duw allan o'i greadigaeth yn drais ar reswm, yn troseddu deddfau sylfaenol y meddwl, yn myned yn erbyn egwyddorion cyntaf pob ymresymiad (ond eu dilyn i'w canlyniadau), yn drais ar natur foesol dyn—egwyddorion dyfnaf ei natur, nid yn unig crediniaethau gwreiddiol y rheswm, ond greddfau ei natur foesol,—y peth dyfnaf sydd yn ei natur, o bosibl, y syniad am yr anfeidrol *(the idea of the infinite)*, a'r dyhead am yr Anfeidrol—holl egwyddorion a dyheadau gwerthfawrocaf yr enaid, a holl brophwydoliaeth y natur am anfarwoldeb. Y mae yr Anffyddiwr yn mathru y cwbl o dan draed, ac yn "rhedeg yn y gwddf" i'r gred am Dduw "trwy dewdwr tòrau" pob "tarianau." Mewn gair, nid all yr Anffyddiwr ddim gwadu Duw heb ei wadu ei hunan, gwadu y greadigaeth, gwadu pob peth. Dyna ydyw Anffyddiaeth mewn gwirionedd—negyddiad cyffredinol *(universal negation)*. Cartref Anffyddiaeth ydyw gwlad diddymdra tragywyddol—lle

nad oes dim *yn bod*. A gwyn fyd na welid hi wedi dychwel i'w chartref! Y mae *bod* a *Duw* yn syniadau cydberthynasol, yn tybied—ie yn cynnwys eu gilydd. Os oes *rhywbeth* yn bod, y mae yn rhaid fod *Duw* yn bod. Os nad yw *Duw* yn bod, nid oes *dim* yn bod. Dyna addysg synwyr cyffredin yn gystal a'r athroniaeth ddyfnaf.

5. Un prawf o wirionedd yr hyn a ddywedwyd yw hyn—fod pob ymgais i roddi cyfrif am y greadigaeth ar wahan oddiwrth Dduw yn ein glanio mewn anialwch o anghysonderau, gwrth-ddywediadau, pethau anmhosibl am eu bod yn groes i ofynion dyfnaf ein rheswm naturiol. Y mae dyweyd fod y greadigaeth wedi rhoddi bôd iddi ei hunan yn wrthddywediad, am fod hyny yn cynnwys fod peth yn bod ac heb fod ar yr un amser. Y mae dal tragywyddoldeb y greadigaeth yn anmhosibl. Y mae y peth yn anfeddyliadwy (*unthinkable*), ac yn wrthddywediad, gan ei fod yn cynnwys peth anmhosibl—yr anmhosibl-rwydd a elwir yn *lapsed eternity*. Y mae Kant yn ei *First Antinomy* yn addef hyn yn ei lawn rym; ond y mae yn ceisio ei ddirymu drachefn drwy gymeryd arno brofi y gosodiad hollol wrthgyferbyniol. Ond y mae yn sicr ei fod wedi methu, fel y dengys rhai o'i feirniaid galluog, am ei fod wedi colli golwg ar y gwahaniaeth rhwng parhad *cyn* y greadigaeth a pharhad *yn* y greadigaeth, neu rhwng yr hyn ydyw amser i'r Anfeidrol sydd yn byw uwchlaw iddo, a'r hyn ydyw yn y byd ac i'r creadur sydd o dan ei ammodau. Ac y mae peth rhyfedd iawn wedi dygwydd ynglŷn â hyn. Y mae rhai o'r hen wrthddadleuon yn erbyn fod y byd wedi dyfod i fôd trwy y weithred o greu, megys y cwestiynau *Why here?* a *Why now?* wedi eu profi yn hollol ddirym, ond yn unig mewn un cyfeiriad. A pha un ydyw hwnw? Wel—yn erbyn yr Anffyddiwr ei hunan. Y mae y byrddau wedi troi yn hollol. Y mae y Moses yr oedd yr Anffyddiwr yn ymddiried ynddo wedi troi i'w gondemnio; fe gafwyd allan fod yr arfau â pha rai yr oedd efe yn ymladd, yn ddiniwed i bawb eraill, ond yn angeuol iddo ef ei hunan. Os yw mater yn dragywyddol, a meddwl yn gynnyrch wedi ei ddadblygu o hono, paham yn awr? Pa fodd y gall wneyd dim mewn unrhyw bwynt o amser nad yw wedi ei wneyd oesoedd tragywyddol yn ol? Os yw yn dragywyddol, rhaid ei fod yn dragywyddol berffaith a digyfnewid. Dyma ben y cawr yn cael ei dori â'i gleddyf ei hunan.

Nid oes eisieu dyweyd fod Kant yn feddyliwr mawr, yn llanw lle pwysig yn hanes Athroniaeth, ac wedi gwneyd gwasanaeth rhagorol i Dduwinyddiaeth Naturiol trwy ddadguddio caderned ei sylfaen yn natur foesol dyn. Rhaid cofio mai ammheuwr athronyddol oedd Kant ac nid duwinyddol. Ac y mae y dernyn o'i waith lle y cyferbyna y nef serenog uwch ben â'r ddeddf foesol oddifewn, yn cael ei gydnabod yn ddarn ysblenydd—yn ddarn, fel y dywed un—*of surpassing grandeur*. Ond credwn gyda rhai o'i feirniaid mwyaf galluog fod ei ymgais i dafiu ymresymiadau Duwinyddiaeth Naturiol (ar dir rheswm) y tu allan i gylch gwybodaeth ddynol yn fethiant. Ceisiodd at hyn trwy ddal y gellir profi *contradictories*—neu osodiadau croes i'w gilydd—yr un mor sicr a'u gilydd. Yr ydym eisoes wedi nodi allan y man gwan yn un o'r rhai hyn. Ond y mae dyweyd fod y fath beth yn bosibl o gwbl yr un peth a dyweyd fod cyrhaedd gwybodaeth sicr o ddim yn anmhosibl—fod deffinio terfynau ac egwyddorion gwybodaeth ddynol yn beth nas gellir ei wneyd—ac felly yr ydym yn cael ein glanio ar gyfandir o ammheuaeth cyffredinol. Gwnaeth yn dda ddadguddio sylfaen ddiysgog Duwinyddiaeth Naturiol yn natur

foesol dyn, ond ni lwyddodd i symud ei sylfaen oddiar dir rheswm. Y mae iddi fwy nag un sylfaen: y mae fel Jerusalem "â'i sail ar y *mynyddoedd* sanctaidd," ac fel y nefoedd yn "ddinas âg iddi *sylfeini*"—sylfeini yn cael eu gwneyd i fyny o'r profion sydd yn yr *oll* o Natur, mewn dyn ac oddiallan iddo, mai "yr hwn a adeiladodd bob peth yw Duw."

Drachefn: nis gellir dal cadwen o achosion yn ymestyn yn ol, beth bynag fydd nifer y dolenau—os bydd y ddolen gyntaf ar ol sydd yn cydio y cwbl â gorsedd Duw. Rhaid cael y ddolen sydd yn cydio yr ail-achosion wrth yr Achos Cyntaf, cyn y gellir boddloni gofynion gwreiddiol Rheswm dyn. Fel y dengys y Canon Mozley yn ddiwrthbrawf—nis gall y meddwl dynol byth orphwys mewn unrhyw Achos ond sydd ei hunan yn anachosedig. Un Achos sydd yn llon'd yr enw—Achos yr achosion—yr Anfeidrol a'r Tragywyddol. Ac heblaw hyny, y mae cadwen ddiderfyn o achosion yn annychymygadwy, ac nid hyny yn unig ond yn anmhosibl. Nis gall y fath beth fod a nifer anfeidrol (*infinite number*). Y mae nifer yn ei hanfod yn feidrol, ac nis gall byth ddyfod yn anfeidrol trwy unrhyw chwanegiad. Y mae *completed infinity* yn beth nas gellir ei feddwl, ac yn anmhosibl-rwydd. I gyfeirio at un wedd eto. Y mae y "galluogrwydd cuddiedig" sydd mewn mater i *ddyfod* yn drefn, yn brydferthwch, yn fywyd ac yn bob peth sydd yn bod—haeriad Professor Tyndall—yn haeddu y lle o anrhydedd o fod yn goron ar y ffolineebau blaenorol i gyd. Tameidiau o fater marw yn *dyfod*—o hono ei hun, cofier—yn *dyfod* yn drefn, yn dyfod yn brydferthwch, yn dyfod yn llawn profion o fwriad, yn dyfod yn fywyd yn ei holl ffurfiau, yn dyfod yn feddwl, yn athrylith Newton, yn serch perthynasol, yn dyfod yn gydwybod i farnu yn ol egwyddorion tragywyddol moesoldeb. Gwisgo mater marw â phriodoliaethau y Duw byw! Dyma ddadblygiad olaf a gwylltaf y *theory of evolution*. Dyma ganlyniadau eithaf—addfed ffrwyth—yr hyn a alwyd yn dra phriodol, mewn mwy nag un ystyr—*the dirt-philosophy*.

6. Hyfryd yw dyfod allan o'r "dyfnion bethau" hyn, i weled fel y mae synwyr cyffredin, yn ngoleu dydd natur iach—egwyddorion naturiol rheswm dyn — egwyddorion cyffredin pob gwybodaeth, yn dyfod i'r un casgliad, ac yn cadarnhâu ymchwiliadau dyfnaf athroniaeth. Yr oedd yr hen Napoleon Buonaparte allan unwaith, ar noswaith ddysglaer, serenog, a dau neu dri o gyfeillion anffyddol gydag ef, y rhai oedd yn ymresymu yn llithrig i gau Duw allan o'i greadigaeth. O'r diwedd, fe dorodd Napoleon ar eu hymddyddan, a chan gyfeirio ei law at y ffurfafen, fe ddywedodd:—"*You may talk as you please, gentlemen, but who made all that?*" Ni a atebwn y cwestiwn âg ateb y bardd—ac ateb y bardd yw ateb yr Ysgrythyr, ateb ymchwiliadau dyfnaf athroniaeth, ac ateb synwyr cyffredin dynolryw,

> "He dipped His Hand in glory
> And touched the skies."

"Efe a drochodd ei law mewn gogoniant, ac a gyffyrddodd â'r wybrenau"—ôl ei fysedd yw y bydoedd dysglaer i gyd.

Swm y cwbl yw—fod yn rhaid fod pob bodolaeth sydd yn cael ei therfynu gan amser, lle ac achosiaeth, yn gynnyrch Bôd sydd uwchlaw y deddfau hyn oll—fod yr ammodol yn gorphwys ar yr anfeidrol, yn byw yn symud ac yn bôd ynddo—ynddo Ef—

> "Yr Anfeidrol annherfynol Fôd
> A'i Hanfod ynddo 'i Hun."

7. Y mae natur foesol dyn yn attegu ac yn cyflenwi y profion o Natur yn allanol, ac yn dadguddio y Duw hwn yn ei Bersonoliaeth, ei Anfeidr-

oldeb, a'i Gyfiawnder a'i Ddeddf. Trwy y byd ysbrydol oddimewn, egyr i ni y byd ysbrydol oddiallan. Cadarnhâ dystiolaeth yr Ysgrythyr fod y greadigaeth ar y cyntaf yn berffaith—ond fod *Pechod* wedi dyfod i mewn—y ffaith ddu yn hanes ysbrydol dyn—achos a defnydd ei holl drueni. Ond nid oes dim yn hyn oll i bechadur. Y Bibl sydd yn dadgudd-io iachawdwriaeth, ac yn dangos fod y Duw Anfeidrol, tua deunaw can' mlynedd yn ol, wedi cyfryngu yn helynt ysbrydol y ddynoliaeth trwy gyfryngiad goruwchnaturiol o ddoeth-ineb, gallu a gras, hollol annhebyg i ddim yn holl hanes y byd. "Pan ddaeth cyflawnder yr amser, Duw a ddanfonodd ei Fab"—"Crist mewn pryd a fu farw dros yr annuwiol"—ac "Efe yw yr Iawn dros ein pechod-au ni." Dyma *new departure* mewn Hanesyddiaeth — cyfnod newydd. Trwy wyrth yr Ymgnawdoliad, nerth yr Iawn, a "grym ei adgyfodiad ef," fe ddaeth byd newydd i fôd—byd yr Efengyl—"*the gospel world.*"

Y mae Cristionogaeth yn newydd ac yn hen. Y mae yn annhebyg i ddim yn hanes y byd, ac eto mewn cysylltiad bywiol â'i holl hanes. Un o neillduolion yr oes hon yw adgyfod-iad yr ysbryd hanesyddol. Bernir pob peth yn ngoleuni Hanesyddiaeth. Y mae Cristionogaeth yn sefyll y prawf tanllyd hwn. O wyneb Crist y mae goleuni yn tywynu ar holl hanes y byd. Hebddo y mae Hanesydd-aeth yn ddammeg anesboniadwy. Efe yw yr agoriad—Efe yw goleuni y byd. Yn ngoleuni y Groes, gwelir fod holl hanes blaenorol y byd yn barotöad i Grist a'i waith—a'i holl hanes dylynol yn llawn o effeithiau gogon-eddus ei grefydd ef. Dyma ddadl an-atebadwy dros Gristionogaeth—*Holl-bresennoldeb Crist mewn Hanesydd-iaeth.* Efe yw canolbwynt Amser.

8. Y mae gwirioneddau mawr ein crefydd yn bethau *ar eu penau eu hunain*—yn *unique.* Pan y mae dyn yn cyflawni rhyw orchest, y mae yn gallu gwneyd rhywbeth drachefn yn *debyg*—rhyw *ail* sydd yn gyffelyb iddi. Iawn y gofynodd un—Os cyn-nyrch y dychymyg dynol yw y syniad am Dduw, pa le y mae y peth nesaf a gynnyrchodd y dychymyg dynol yn debyg? Cymeriad Crist—y perffeith-rwydd *sublime*, os dynol, pa le y mae yr *ail* sydd gyffelyb iddo? Os crefydd ddynol yw Cristionogaeth, pa le y mae yr ail sydd gyffelyb iddi? Os llyfr dynol yw y Bibl, gadewch i ni gael golwg ar yr ail sydd yn gyffelyb. Os sefydliad dynol yw yr eglwys, pa le y mae yr ail sydd yn gyffelyb iddi? Yr unig ateb yw *dystawrwydd.* Ar y dybiaeth *ddynol*, gellir benthyca geir-iau y bardd:—

> "Nothing was heard but silence,
> Nothing was seen but darkness."

Glynwn yn ffyddlawn wrth wirioned-dau crefydd Crist—"y ffydd a rodded unwaith i'r saint." Llanwer ni âg ysbryd Efengyl Crist: — "ysbryd *nerth*" ysbrydol, nerth sancteidd-rwydd, nerth ffydd a gweithgarwch; ysbryd *cariad*—cariad angerddol at Grist ac at eneidiau dynion, nes colli ein *hunain* truenus yn yr amcanion mawr; cariad diragrith at ein gilydd, nes colli yr eiddigedd dirmygedig sydd am leihâu pob rhagoriaeth, ac am fwyhâu pob diffyg—y cariad a bâr i ni wir edmygu rhagoriaethau ein gilydd a llawenychu yn llwyddiant a phobl-ogrwydd ein gilydd; ac ysbryd *pwyll* —doethineb i adnabod arwyddion yr amseroedd a gwaith ein dydd, ac i gyfaddasu ein hunain at amgylchiad-au ac anghenion newyddion ein hoes. Tra y byddom yn gwneuthur y pethau hyn, fe ddeil ein Cyfundeb ei ffordd, ac a chwanega gryfder—fe fydd yn fen-dith i'r byd eto, megys y mae wedi bod: fe fydd "Duw yn ei ganol"—ac ymhob cyfwng yn ei hanes "Duw a'i cynnorthwya yn fore iawn!"

JIWBILI Y GENADAETH DRAMOR.

Papyr a ddarllenwyd yn Nghyfarfod y Diaconiaid yn Nghymdeithasfa Rhosllanerchrugog, Ebrill 10ted, 1890.

Mae blwyddyn ei Jiwbili yn rhoddi mantais i ni i adolygu hanes ein Cenadaeth Dramor am lawn hanner can' mlynedd—i edrych ar ei dechreuad bychan, gydag un cenadwr, yn 1840, a'i chynnydd graddol yn nhreigliad y blynyddoedd, a chymharu dysgwyliadau ei sefydlwyr â'r llwyddiant sydd bellach wedi ei sicrhau. Ni oddefir i ni, yn yr ychydig sylwadau a ddysgwylir yma heddyw, wneuthur unrhyw grybwylliad am yr amgylchiadau a arweiniasant i sefydliad y Gymdeithas. Y mae yn hysbys fod y Methodistiaid yn cyfranu yn haelionus at Gymdeithas Genadol Llundain, o leiaf er 1799, ac iddynt barhau i weithredu mewn cysylltiad â'r gymdeithas hono am fwy na deugain mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnw, aeth amryw o Fethodistiaid allan dan ei nawdd mewn gwahanol barthau o'r byd. Aeth Mr. John Davies, o Sir Drefaldwyn, allan yn 1800, i Tahiti; Mr. Evan Evans, o Lanrwst, i Affrica, yn 1816; a Mr. Josiah Hughes, o Liverpool, i Malacca, yn 1830. Ond y mae yn amlwg nad oedd y teimladau yn esmwyth er ys cryn amser, a bod y cwestiwn o sefydlu Cenadaeth ar wahan wedi bod megys "yn yr awyr" am rai blynyddoedd cyn i hyny gymeryd lle, yn hen gapel Rose Place, Liverpool, ar y dydd olaf o Ionawr, yn y flwyddyn 1840.

Yr oedd y cam hwnw yn un mor bwysig i Gyfundeb bychan, fel mai nid peth rhyfedd ydyw fod llawer yn petruso ynghylch ei ddoethineb. Ond y mae yn amlwg, er ys llawer o flynyddoedd, fod y brodyr twymgalon a'i cymerasant dan arweiniad Dwyfol. A phan ystyriom nad oedd neb o honynt wedi cael dim profiad yn flaenorol gydag arolygiaeth gwaith cenadol, y mae yn rhaid priodoli doethineb eu symudiadau, nid yn unig i ofal a difrifwch neillduol ar eu rhan hwy, ond hefyd i nodded ac amddiffyn Duw drostynt.

Bys Rhagluniaeth Ddwyfol, mae'n sicr, a nododd allan faes cyntaf y Genadaeth. Cytunai pawb, ar y cychwyn, mai rhyw ran o India a gymerid i fyny; ond nid oedd, am beth amser, lawer o sicrwydd pa ran o'r wlad fawr hono y troem ein gwyneb iddi. Yr oedd Dr. Wilson, o Bombay, yn awyddus am i'r Methodistiaid fyned i Gugurat yn Madras; ond, trwy gymhellion taerion y Parch. Jacob Tomlin, yr hwn a fuasai am beth amser yn Cherrapoonjee, penderfynwyd anfon y Parch. Thomas Jones i lafurio yn Mryniau Khasia a Jaintia.

Cychwynodd ef a'i briod yno o Liverpool, Tachwedd 25ain, 1840, a chyrhaeddasant i Cherrapoonjee, Mehefin 22ain, 1841. Buasai cenadwr o'r enw Mr. Lish, mewn cysylltiad â Chenadaeth y Bedyddwyr yn Serampore, yn llafurio yn Cherra am dymmor, ac yn gwneuthur rhai parotoadau at ddysgu y Khasiaid. Cyfieithodd y Testament Newydd i'w hiaith, a pharotodd, o leiaf, un llyfr ysgol; ond gwnaeth y camgymeriad pwysig o ddefnyddio llythyrenau Bengalaidd yn lle llythyrenau Rhufeinig, a bu raid i Mr. Thomas Jones ddechreu y gwaith o'r newydd yn hollol. Ond derbyniodd gymhorth i ddysgu iaith y Khasiaid oddiwrth ddau wŷr ieuainc oeddynt wedi dysgu ychydig o Saesoneg gyda Mr. Lish.

Dangosodd Cenadaeth Serampore bob parodrwydd i estyn yr holl gymhorth yn eu gallu i Mr. Jones; ond gwnaeth yn ddoeth beidio dilyn ymlaen ar hyd y llinellau ag yr oeddynt hwy wedi cychwyn arnynt. Ar y pryd, nid oedd pawb yn tybio hyny, ond derbyniodd gymeradwyaeth a chefnogaeth ddiamwys y cenadwr enwog, Dr. Duff, ar y pryd; ac nid oes bellach neb nad yw yn cydnabod yn rhwydd y fantais ddirfawr o ddefnyddio llythyrenau Rhufeinig.

Yn 1842, anfonwyd dau genadwr allan i gydlafurio â Mr. Thomas Jones, ac anfonwyd hefyd, yr un adeg, frawd i lafurio fel cenadwr ymysg ein brodyr yn Llydaw. Ac nid gorchwyl hawdd heddyw ydyw sylweddoli grym y teimlad a gynnyrchwyd yn y Cyfundeb trwy y syniad o anfon efengyl bur i'n cig a'n gwaed ein hunain yn y wlad dywyll hono. Bu hyn yn foddion i chwyddo y cyfraniadau yn fawr, ac nid yw ond gwirionedd syml mai y blynyddoedd dilynol y rhoddwyd o'r

neilldu yr arian sydd wedi ein galluogi yn y blynyddoedd diweddaf i ddwyn ymlaen waith cenadol ar raddfa mor eang.

Ni ddysgwylir heddyw i ni olrhain hanes y Genadaeth gyda manylder. Daeth i'w rhan lawer o brofedigaethau a siomedigaethau, ond trwy y cwbl parhaodd i gynnyddu. Yn Mawrth, 1846, y bedyddiwyd y dychweledigion cyntaf i'r ffydd Gristionogol yn Cherra. Bedyddiwyd tri eraill yn Mehefin 1847. Yn niwedd 1850, yr oedd nifer y cymunwyr yn 14, yr ymgeiswyr yn 6 —cyfanrif o 20. Yn niwedd 1888, yr oedd y cyflawn aelodau yn 1595, yr ymgeiswyr am aelodaeth yn 1380, a'r plant yn yr eglwysi yn 2195—cyfanrif o 5134. Mor rhyfeddol y cynnyddodd gair yr Arglwydd!

Yn y Bryniau cafwyd meusydd oeddynt yn wynion i'r cynhauaf. Anhawdd yn wir fuasai disgyn ar bobl fwy addfed i'r efengyl: ac y mae y llwyddiant sydd wedi bod ar y llafur yn eu mysg yn fawr mewn gwirionedd.

Yn Llydaw, nid oes genym ffrwyth mor doreithiog yn wele'ig; ac wrth ystyried y gwahaniaeth dirfawr yn yr amgylchiadau, nid oedd ychwaith i'w ddysgwyl. Ond pwy ydym ni i ddyweyd mai methiant ydyw llafur 48 mlynedd ymysg y Llydawiaid? Dychwelwyd yno nifer i'r ffydd Brotestanaidd—dau o honynt a ddaethant i fod yn weinidogion ffyddlawn a llafurus. Ac y mae miloedd o gopïau o air Duw wedi eu lledaenu yn eu plith. Ein hyder yw, fod dylanwad y gwirionedd yn ymweithio yn ddystaw ymysg y Llydawiaid, ac yn eu parotoi yn raddol i gyfnewidiad mawr mewn byr amser.

Nis gallwn yn awr wneuthur unrhyw gyfeiriad at y genadaeth a ddygwyd ymlaen, am rai blynyddoedd, ymysg yr Iuddewon. Gormod fyddai dyweyd i hono fyned yn ofer, er nad oes yn aros unrhyw ffrwyth gweledig oddiwrthi.

Ond y cwestiwn dan ein sylw heddyw ydyw, Pa beth a ddysgir i ni gan hanes ein Cenadaeth yn yr amser aeth heibio, a chan ei safle yn bresennol, gyda golwg ar ein dyledswydd ar flwyddyn ei Jiwbili? Nid oes eisieu bellach ein dysgu am ein rhwymedigaeth i anfon yr efengyl i Baganiaid. Y syndod ydyw, i'r Eglwys Gristionogol fod am gynifer o ganrifoedd mor amddifad o ysbryd cenadol! Gan' mlynedd yn ol—yn 1790—nid oedd ond tair neu bedair o gymdeithasau cenadol mewn bod. Yn y Diwygiad Methodistaidd yn Lloegr a Chymru y cafodd cenadaethau diweddar eu tarddiad. Nid rhyfedd ynte yw gweled Cyfundeb a gafodd ei fôd yn y Diwygiad hwnw, mor llawn o'r ysbryd cenadol. Ond y mae eisieu gosod pwyslais, yn yr adeg bresennol, ar y ffaith fod ein bywyd a'n nerth gyda'r gwaith yn ein gwlad ein hunain, i fesur helaeth, yn dybynu ar ein ffyddlondeb i'r gwaith cenadol mewn gwledydd tramor.

Pan sefydlwyd y Genadaeth, tynodd lawer o sylw ymysg Cristionogion efengylaidd, ac edrychid ar y ffaith fel arwydd sicr o ddiwygiad crefyddol. Ac y mae yn anhawdd cael gafael ar ddim yn hanes ein Cyfundeb a fu yn fwy bendithiol i'r gwaith gartref, nag anfoniad y cenadon cyntaf i India a Llydaw. Ac y mae yr un peth yn wirionedd am bob eglwys sydd wedi ymdaflu yn galonog i'r gwaith cenadol. Yn lle peri iddynt anghofio y "Paganiaid yn eu hymyl," y mae yn rhoddi ỳni newydd ynddynt at y gwaith o'u ceisio a'u hymgeleddu.

Ond pa beth yw ein gwaith y flwyddyn nodedig hon? Nid oes dim amheuaeth i fod ynghylch yr atebiad i'r cwestiwn. Y mae y llwyddiant amlwg a helaeth ar ein llafur cenadol am hanner canrif, yn galw yn uchel arnom i ymdrechu gosod ein gwaith ar seiliau mwy diogel, ac hefyd i eangu ein terfynau.

Y mae genym eisoes, ar Fryniau Khasia a Jaintia, gynifer o genadon ag y byddai yn ddoeth eu hanfon allan. Gobeithir cwblhau efengyleiddiad y Bryniau bellach trwy lafur yr efengylwyr brodorol. Oddieithr i ryw amgylchiadau ddygwydd nad ydynt yn awr yn y golwg, dysgwylir y bydd nifer o honynt yn cael eu hordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth, fe allai cyn diwedd y flwyddyn hon. Bydd y rhai hyn yn llafurio mewn eglwysi, ac yn derbyn eu cynnaliaeth oddiwrth yr eglwysi. Ac mewn undeb â'r cenadon, byddant yn gwthio y gwaith ymlaen ymysg y brodorion trwy yr holl wlad, nes ennill yr holl boblogaeth i gofleidio efengyl Crist. Ond tuag at osod yr efengylwyr a ordeinir rhagllaw yn y

fantais oreu at wneyd eu gwaith, dylid gwneuthur yr Athrofa Dduwinyddol mor effeithiol ag y byddo yn bosibl. A dyma un o'r amcanion y teimlir anghen am ei osod o'n blaen ar flwyddyn y Jiwbili. Rhaid, yn ddiau, gynnorthwyo yr efengylwyr i aros am dymmor llawer meithach dan addysg, a rhaid edrych at gronfa y Jiwbili am y gallu i wneyd hyny.

Amcan arall ydyw gosod y Genadaeth Feddygol mewn gwell mantais i ddwyn ymlaen y gwaith a wneir drwyddi. Teimlid o'r cychwyn cyntaf yr anghenrheidrwydd am weinyddu meddyginiaeth i'r brodorion; ac y mae ein cenadon, bob amser, wedi gwneuthur llawer iawn o wasanaeth yn y cyfeiriad yna. Ond tua 12 mlynedd yn ol y sefydlwyd yn Mawphlang, ar fynediad Dr. Griffiths yno, y Genadaeth Feddygol. Ac y mae Dr. Hughes wedi bod yn llafurio, bellach, er's mwy na dwy flynedd yn Jiwai ar Fryniau Jaintia. Ond y mae genym lawer i'w wneyd tuag at osod y genadaeth hon ar y tir y dylai fod ynddi. Ac at y cyfraniadau ar flwyddyn y Jubili yr ydys yn edrych am yr adnoddau anghenrheidiol er ei wneuthur.

Yn olaf, yr ydym wedi ail gychwyn y gwaith yn Sylhet, wedi ei roddi i fyny am lawer o flynyddoedd. Dysgwylid y buasai rhyw gymdeithas gref yn cymeryd y maes hwn i fyny; ond, o herwydd agosrwydd Sylhet i'r Bryniau, edrychir ar y lle fel yn perthyn i'r Methodistiaid. Ond y mae y gwaith yn fawr, ac yn llawer mwy anhawdd, hefyd, na'r gwaith ar y Bryniau. Y mae yno yn agos i ddwy filiwn a chwarter o boblogaeth, eu hanner yn Hindwaid, a'r hanner arall yn Fahometaniaid. Ac y mae yno, o ganlyniad, lawer o anhawsderau na chyfarfyddir ar y Bryniau. Ond y mae bys Rhagluniaeth Ddwyfol yn amlwg iawn yn nodi Sylhet allan fel lle a ymddiriedwyd i Fethodistiaid Cymru i'w ennill i'r Arglwydd Iesu. Gerllaw, hefyd, y mae Cachar a Silchar; ac i'r dwyrain i Jaintia y mae nifer o lwythau ag y mae yn naturiol edrych arnynt yn perthyn i'n Cenadaeth ni, ond nad ydym eto wedi medru gwneyd dim er dwyn goleuni yr efengyl i'w mysg. Ar ei fynediad cyntaf allan, wedi edrych o'i amgylch, apeliai Mr. Thomas Jones atom am i ni anfon allan ugain o genadon, bob yn ddau, gan enwi yr holl leoedd hyn, ynghyd ag amryw leoedd eraill yn amgylchoedd y Bryniau. Ond, yn Sylhet, y cwbl sydd genym ni yn awr ydyw un brawd ac un chwaer. Beth yw hyny rhwng cynifer? Y mae yn amlwg mai ofer yw meddwl am weithio Sylhet heb anfon allan nifer dda o frodyr a chwiorydd i gydweithio yn galonog yn eu hymosodiad ar Hindwaeth a Mahometaniaeth. A bydd yn anghenrheidiol, hefyd, i ninnau wrth amynedd i ddysgwyl, fe allai yn hir, cyn y gwelir y ffrwyth toreithiog yn cael ei gasglu i mewn.

Dyma ein gwaith, ac y mae yr argyhoeddiad yn gwthio ei hunan arnom nas gallwn fod yn ffyddlawn i'n hymddiriedaeth heb ymaflyd ynddo o ddifrif. Gwaith gogoneddus ydyw; ac y mae yr Arglwydd wedi gosod arnom anrhydedd mawr wrth ein galw i'w gyflawni. Ond, tuag at hyny, fe ddywedir y bydd raid i ni eleni gyfranu yn ychwanegol at ein casgliad arferol y swm o *ugain mil o bunnau.*

Y mae y gorchwyl yn ymddangos yn un mawr, a dylid, cyn ein galw ato, brofi yn eglur fod y fath swm yn anghenrheidiol er cyrhaedd yr amcanion a nodwyd. Yr wyf yn tybied fod hyny yn bosibl. Y mae pawb sydd gyfarwydd â hanes y Gymdeithas yn gwybod fod ei chyllidau yn awr yn llawer îs nag y buont flynyddoedd yn ol. Ar ddiwedd 1878, yr oedd ar lôg £12,065; ond ar ddiwedd 1888, nid oedd ond £7679. Y mae yn amlwg, gan hyny, nas gallwn barhau yn hir i ddwyn y gwaith ymlaen, fel y gwneir yn awr, heb i ychwanegiad pwysig gael ei wneyd at y casgliadau, heb son am *eangu* gweithrediadau y Gymdeithas.

Gelwir, gan hyny, am ugain mil o bunnau, nid er mwyn eu cadw yn gronfa, i ddefnyddio yn unig eu llôg, ond er mwyn eu treulio yn raddol, gan obeithio y deuwn, cyn hir, fel Cyfundeb, i wneuthur ein cyfraniadau blynyddol yn fwy teilwng o'r gwaith mawr a ymddiriedwyd i ni.

Bwriadem, unwaith, alw sylw at y gwahaniaeth mawr rhwng y gwahanol Gyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau yn cyfranu at y Genadaeth yn yr amser a aeth heibio; ond, barnasom mai gwell, ar flwyddyn y Jiwbili,

fyddai peidio edliw beïau, ac ymfoddloni ar annog ein gilydd i ymaflyd yn ein gwaith o ddifrif yn y dyfodol.

A ydyw gwneuthur casgliad arbenig o ugain mil o bunnau yn bosibl i ni fel Cyfundeb erbyn diwedd Mawrth, 1891? Er mwyn ein galluogi i ateb y cwestiwn yn gadarnhaol, yr wyf yn tybied nad oes ond un peth yn anghenrheidiol, sef cael ein holl aelodau i ymdeimlo yn briodol â'u cyfrifoldeb personol. Engraifft ryfedd o'r hyn sydd bosibl i gyfundeb o bobl ei wneyd, pan y mae pob un yn galonog yn gwneyd ei ran, ydyw y ffaith i Fyddin yr Iachawdwriaeth, mewn un *wythnos* o hunan-ymwadiad, gasglu ugain mil o bunnau. Ai mawr yw i'r Methodistiaid wneuthur mewn *blwyddyn* yr hyn a wnaeth y Fyddin mewn *wythnos?* Drachefn, yr oedd *drink bill* y deyrnas am 1889 yn 3s. 3c. yn fwy nag yn 1888 ar gyfer pob gwr, gwraig, a phlentyn drwy y deyrnas oll. Pe gwneid gan y Methodistiaid 3s. 3c. ar gyfer pob cyflawn aelod a berthyn iddynt, byddai y cyfanswm yn £21,504; ac y mae yn ddifrifol os na allwn roddi cymaint yn ychwaneg am y flwyddyn hon at y gwaith Cenadol ag a dreuliwyd yn ychwaneg y flwyddyn ddiweddaf ar flysiau niweidiol a dinystriol. Bydd yn amser i ni ofyn pa beth yw gwerth ein proffes Gristionogol? I'n tyb ni, y mae y peth nid yn unig yn bosibl, ond yn hawdd, os ceir pawb o honom yn ewyllysgar i roddi ei ysgwydd o dan y baich.

Yr ydym yn teimlo yn llawen wrth ganfod arwyddion amlwg na bydd yr appêl yn ofer. Y mae rhai manau eisoes wedi cychwyn yn galonog, ac wedi gwneyd llawer mwy na'u rhan o'r swm a ofynir. Dywedwn eto mai yr unig beth sydd eisieu yw cydweithrediad unol a gwresog yr holl Siroedd, yn y De a'r Gogledd, er gwneuthur Blwyddyn Jiwbili y Genadaeth yn flwyddyn gofiadwy dros byth.

Ymafled pawb yn y gorchwyl yn ei gylch ei hun. Cyfraned ein holl swyddogion, yn weinidogion, pregethwyr, a blaenoriaid, yn haelionus ac yn barod. Y peth pwysig yw parodrwydd. Rhodded pawb fel y mae yr Arglwydd wedi ei lwyddo, a hyny yn siriol ac ewyllysgar; ac arferer ffyddlondeb i alw, hefyd, gyda'n holl aelodau a'n gwrandawyr i roddi iddynt hwy gyfleusdra i gyfranu, ac ni raid petruso ynghylch y canlyniad. Ymwrolwn yn ein Duw, yr Hwn "ni phalla, ac ni ddigalona, hyd oni osodo farn ar y ddaear." Er mor araf y mae yn ymddangos yn dwyn pethau ymlaen, ni phalla, ac ni ddigalona nes dwyn ei holl amcanion grasol i ben, ac hyd onid enniller holl deyrnasoedd y ddaear i fod yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef.

N. Bebb.

Liverpool.

NODWEDDION PAUL FEL DYN, CRISTION, A PHREGETHWR.

(Parhad o tu dal. 172.)

PENNOD II.

II. Paul *fel* Cristion.

Dan y penawd cyntaf edrychid ar Paul yn fwyaf neillduol fel yr oedd yn ymddangos i'r byd, yr ochr allanol i'w gymeriad; ond yma yr ydym yn ceisio edrych arno fel yr oedd yn ymddangos i'r eglwys, yr ochr fewnol i'w berson, ac y mae yn hawddach darlunio y cysegr na'r cysegr sancteiddiolaf, y dyn yn ei nodweddion na'r Cristion yn ei nodweddion. Ond i ddechreu, yr oedd a fyno tröedigaeth yr Apostol yn neillduol â'i gymeriad fel Cristion. Mae yn debyg mai dyma yr amgylchiad mwyaf pwysig gymerodd le mewn cysylltiad âg un dyn erioed. Fe newidiwyd Paul yn hollol, a bu ôl y newidiad arno ef ac ar ei waith drwy y gweddill o'i oes. Crefyddwr heb dim crefydd ydoedd wedi bod o'r blaen. Er ei fod yn byw bywyd allanol da, er ei fod fel Pharisead yn arfer gweddïau ac ymprydiau, ac er ei fod yn dwyn zel angerddol dros yr hyn a ystyriai yn grefydd, eto yr oedd ei enaid heb ei ennill i garu Duw. Dyn ydoedd yn ymwneyd â'r allanolion heb adnabod ysbrydolrwydd pethau. Ond ar y ffordd i Damascus fe dywynodd goleuni ysbrydol i'w enaid yn gystal a goleuni allanol o'i amgylch; efe a gredodd yn y Messiah pan ddywedodd wrtho, "Myfi yw Iesu, yr hwn yr wyt ti yn erlid." Yr oedd credu hyn yn dyfod â Paul i fyd newydd. Yr oedd yma egwyddor yn

dyfod ddylanwadu ar ei enaid na theimlasai hi erioed o'r blaen,—"Gwnewch dda i'r sawl a wnel niwed i chwi, ac a'ch erlidiant." Ac fe laddodd yr egwyddor hon Saul y cablwr a'r erlidiwr, a rhoddodd fôd i Paul y Cristion a'r Pregethwr. Edrychwn ymhellach ar rai o nodweddion Paul fel Cristion.

1. Ei *ymddibyniad llwyr ar Dduw* am nerth a chymhorth i'w wasanaethu. Mae Duw am i'w bobl bwyso arno ef: "Hebof fi, ni ellwch wneuthur dim." A dyma nodwedd neillduol y gwir Gristion, fel yr ydym yn cael yn Dafydd; gymaint yr oedd yn rhoddi ei ymddiried yn yr Arglwydd, ei "noddfa a'i nerth!" Nid oedd y teimlad o'i ymddibyniad ar Dduw yn bod yn yr Apostol cyn ei dröedigaeth. Mae yn debyg ei fod wedi arfer rhyw fath o weddïo pan yn Pharisead, ond nid oedd hwnw yn deilwng o'r enw mewn cymhariaeth i'w weddïo yn nhŷ Judas. Nid yw yr Arglwydd Iesu yn cydnabod gweddi y Pharisead, ond y mae yn gosod y ffaith ei fod yn gweddïo wedi ei dröedigaeth allan fel peth newydd yn ei hanes: "canys wele y mae yn gweddïo." Dyma yr adeg y dechreuodd deimlo ei anghen am gymhorth Dwyfol. Pan yn dysgu o dan Gamaliel yr oedd uchelgais ieuenctyd yn ei symbylu, pan yn erlid yr eglwys yr oedd ei zel Phariseaidd a'r llythyrau oddiwrth yr archoffeiriad yn ddigon; ond pan y mae yn teimlo fod ganddo i ymwadu âg ef ei hun, ac i wynebu ar elyniaeth a llygredigaeth y byd, y mae yn teimlo anghen am Dduw. Teimlai nad allai neb llai na Duw ei nerthu i fyned ymlaen drwy ei holl orthrymderau. Yr oedd i ddyoddef llawer er mwyn ei enw, ond yn ngwyneb hyny dywed y rhoddes Duw iddo ysbryd nerth, goddefodd gystuddiau yr efengyl yn ol nerth Duw. Ac ar ddiwedd ei yrfa y mae yn diolch i'r hwn a'i nerthodd am iddo ei gyfrif yn ffyddlawn. Yr oedd yn ymddibynu ar Dduw hefyd am fendith ar ei lafur: "Duw a roddes y cynnydd." Mae yn cyfaddef nad oedd ef yn ddim ynddo ei hun, nad allai wneuthur dim gydag effeithiolrwydd oddieithr i Dduw roddi y cynnydd. Nid oedd ei lafur yn ddim iddo ef, canys llafurwaith ac adeiladaeth Duw ydoedd. Efe oedd yn gweithio drwy yr Apostol, ac y mae yn awyddus am i Dduw gael y gogoniant oddiwrth eu llwyddiant. "Am hyny na orfoledded neb mewn dynion," canys eiddo Crist ydych, "a Christ yn eiddo Duw."

2. *Ei ymostyngiad i ewyllys yr Arglwydd.* Mae yr Arglwydd Iesu yn dyweyd wrtho ar y ffordd am iddo fyned i Damascus, ac y dywedid wrtho yno yr hyn yr ordeiniwyd iddo ei wneuthur. Mae yntau yn myned, ac yna yn dysgwyl yn dawel hyd nes y mae y nefoedd yn anfon ei chenad ei hunan ato. Y mae yn derbyn y genad hono heb ymholi dim yn ei chylch. Diau fod Ananias yn ddyn llawer mwy cyffredin ei alluoedd a'i sefyllfa na Paul, eto teimla yr Apostol ei fod yn genad Duw, ac y mae nid yn unig yn gwrandaw arno, ond y mae yn cyd-ffurfio â'r hyn a ddywed. "Beth yr wyt ti yn ei aros? cyfod, bedyddier di," ac efe a gyfododd ac a fedyddiwyd. Ni wnaeth un esgus nac oediad yn y mater, yr oedd ef mor barod i ufuddhau ag oedd Ananias i weinyddu. Yr oedd yn gwbl ddifrifol yn ei ymofyniad i'w Feistr newydd, "Beth a wnaf, O Arglwydd?" Pan y gofynodd y gŵr ieuanc hwnw, "Pa beth a wnaf fel yr etifeddwyf fywyd tragywyddol?" fe ofynodd ormod, yr oedd y gofyniad yn rhy eang i ansawdd ei feddwl; ond yr oedd calon Paul yn barod i holl ganlyniadau ei ymofyniad. Nid gofyn heb feddwl cyflawni yr oedd ef, eithr yr oedd yn barod ar y gair. Wedi unwaith ei osod ar ben llinell ewyllys ei Arglwydd y mae yn myned ymlaen trwy bob rhwystrau. Os oedd yn ewyllysio iddo fyned i garchar, mae yn myned yno. Mae yn deisyf mewn gweddi am gael "rhwydd hynt gydag ewyllys Duw" i ddyfod atynt yn Rhufain, "fel y delwyf atoch mewn llawenydd trwy ewyllys Duw." Yr oedd yn bwriadu "dyfod at y Corinthiaid ar fyrder, os yr Arglwydd a'i myn." Mae ymhob amgylchiad yn rhoddi ei hun yn gwbl yn llaw yr Arglwydd; nid yw byth yn troi yn ol oddiar lwybr ei ddyledswydd, ond yn rhoddi ei holl ymddiried yn yr hwn yr oedd yn gwasanaethu iddo. Ei brif nod ef ar hyd ei oes ydoedd ceisio "deall beth yw ewyllys yr Arglwydd" a gwneuthur ei ewyllys ef â'r galon.

3. Nodwedd amlwg yn Paul fel

Cristion ydoedd ei *foddlonrwydd* ymha gyflwr bynag y byddai: "Canys myfi a ddysgais ymha gyflwr bynag y byddwyf, fod yn foddlawn iddo." Nid unrhyw foddlonrwydd pechadurus ydoedd, canys yr oedd Paul y pellaf o bawb i fod yn foddlawn mewn cyflwr drwg; yr oedd ef yn cosbi ei gorff ac yn ei ddwyn yn gaeth rhag iddo fod mewn un modd yn anghymeradwy. Nid boddlonrwydd mewn cyflwr digynnydd mewn gras a defnyddioldeb ydoedd, canys dywed ei fod yn ymestyn at y pethau o'r tu blaen, ac yn cyrchu at y nôd. Ond yr hyn a olygir yw, nad ydoedd yr Apostol yn gadael i unrhyw gyflwr o ran ei amgylchiadau personol yn y byd hwn ei derfysgu a'i wneyd yn anfoddlawn. Yr oedd wedi dysgu i dderbyn pob prawf a wneid arno heb rwgnach. Edrychai ar holl ddygwyddiadau ei fywyd fel y ddysgyblaeth oedd Duw yn ei defnyddio tuag at ei ddarparu i gwblhau y gwaith a osodai iddo yn y byd, yn gystal ag at ei gymhwyso i'w deyrnas nefol am dragywyddoldeb. Rhaid bod dyn mewn cyflwr o gadwedigaeth cyn y gall ddysgu gwir foddlonrwydd. Felly am Paul, nis gallasai byth ddysgu bod yn foddlawn yn ei gyflwr naturiol, na thrwy unrhyw help oedd ei grefydd ffurfiol Phariseaidd yn abl i weini iddo, ond dysgodd fod yn foddlawn mewn cyflwr newydd o faddeuant a chyfiawnder a thangnefedd oddiwrth Dduw, ac mewn perthynas newydd âg ef, y berthynas o blentyn gyda'i dad. Yr athraw i ddysgu gwir foddlonrwydd ydyw Iesu Grist, canys ni ddysgodd neb y wers hon mor drwyadl ag ef. Bu yn foddlawn i bob peth oedd yn boddloni ei Dad. Trwy gymeryd iau yr Iesu ar ei ysgwyddau y cafodd Paul esmwythdra i'w enaid; dan ei ofal ef y dysgodd fod yn foddlawn pan o dan wialenodiau lawer, ac yn y carchar nesaf i mewn â'i draed yn y cyffion. Yr oedd yn y fath gyflwr mor foddlawn fel ag i fedru ar hanner nos weddio a chanu mawl i Dduw. Eto nid oedd cyflwr o rwymau a charchar can ddyfned a'i ddysg mewn boddlonrwydd, ond cawn ef yn dywedyd ymhellach, "Parod wyf fi nid i'm rhwymo yn unig, ond i farw hefyd er mwyn enw yr Arglwydd Iesu." Trwy Grist yr oedd yr Apostol yn gallu bod yn foddlawn. Wedi aros mewn ffydd yn Nghrist yr oedd yn sylweddoli nerth digonol at yr holl ranau a berthynent i wir foddlonrwydd. Trwy ddyfod at Grist y daeth i'r unig ysgol, at yr unig Athraw, sydd yn dysgu boddlonrwydd. Gan Iesu Grist yr oedd yn cael y gwersi a'r esiamplau i ddysgu boddlonrwydd, a chan Iesu Grist yr oedd yn cael y grym ddydd ar ol dydd i ddilyn yr esiampl, ac i roddi yr holl wersi mewn ymarferiad, fel ag i deimlo yn foddlawn. Y mae y teimlad o foddlonrwydd yn arwain i fwynhad a defnyddioldeb hyd yn nod yn y cyflyrau gwaethaf. Cawn Paul yn tystio, "Yr wyf yn llawn o ddyddanwch," ac "yn dra chyflawn o lawenydd yn ein holl orthrymder."

4. *Ei gariad a'i gydymdeimlad â'i frodyr.* Mor wahanol ydyw yn hyn o ran ei gymeriad i'r hyn ydoedd cyn ei dröedigaeth. O'r blaen, carcharu a chamdrin y Cristionogion oedd ei waith; ond yn awr y mae yn eu caru â'r cariad gwresocaf, ac yn cydymdeimlo â hwy yn y modd llwyraf. Yr oedd rhywun yn dyweyd na chredai wirionedd tröedigaeth dyn os na byddai ei gyd-ddynion ar eu mantais oddiwrth hyny. Mae yn amlwg iawn fod Paul yn dyfod i fyny â'r safon yma, canys y fath wahaniaeth a wnaed yn amgylchiadau eglwys Crist trwy ei dröedigaeth ef! Yr ydym yn cael fod yr apostol yn cydymdeimlo â gelynion crefydd Crist. Yr oedd yn cadw mewn cof ei fod ef ei hun wedi bod yn elyn i Grist; teimlai a gwelai y trueni a'r perygl o'r hwn yr oedd wedi ei achub megys pentewyn allan o'r tân. Yn yr olwg ar druenusrwydd a chwerwder ei ystad flaenorol, yr oedd ei ysbryd yn llwythog o dristwch a gofid dros y rhai yn yr un ystad. Rhyw eiriau rhyfedd o eiddo yr apostol ydyw y rhai hyny, "Mi a ddymunwn fod fy hun yn anathema oddiwrth Grist dros fy mrodyr." Iaith teimlad dwfn a dwys ydynt dros ei genedl, a'i barodrwydd i wneuthur unrhyw beth er eu mwyn. Y mae ar y pryd wedi ei golli yn y teimlad hwn, fel nad ydyw yn meddwl am ddim arall, ac yn yr un ysbryd ag yr oedd Moses ynddo pan y gweddiai dros yr un bobl gannoedd o flynyddoedd cyn hyn: "Ac

yn awr, os maddeui eu pechod; ac os amgen, dilea fi, atolwg, allan o'th lyfr." Y mae yntau, yn eiddigedd ei galon, yn dymuno mewn ystyr yr un peth. Dichon fod y peth ynddo ei hun yn anmhosibl, ond nid ydyw oblegid hyny yn llai gwasanaethgar er dynodi serchogrwydd angerddol yr apostol at ei frodyr, "ei genedl yn ol y cnawd." Os oedd ei gariad a'i gydymdeimlad mor gryf at yr annychweledig, pa mor lwyr yr oedd yn caru ac yn cydymdeimlo â'i frodyr yn Nghrist? Mae ei lythyrau yn llawn o'r cofion a'r anerchiadau mwyaf serchog. Yr oedd yn ceisio "rhyngu bodd i bawb ymhob peth, heb geisio ei lesâd ei hun, ond llesâd llaweroedd, fel y byddent hwy gadwedig." Cynghorai i fod yn ddiachos trmgwydd i'r Iuddewon ac i'r Cenedloedd, ac i eglwys Dduw, megys yr oedd ef. Yr oedd yn barod bob amser i gydymdeimlo â'r gwan: "Pwy sydd wan nad wyf finnau wan?" Os oedd bwyd neillduol yn dueddol i rwystro un o'r rhai gweiniaid, yr oedd yr apostol am ymattal rhag y bwyd hwnw er ei fwyn.

5. *Awyddfryd Paul am gael gogoneddu Crist*, pa un bynag ai trwy fywyd ai trwy farwolaeth. Dyma ydoedd ei awydd pan yn y carchar yn Rhufain. Cawn ef yn datgan ei hyder na byddai, pa derfyniad bynag a fyddai i'w garchariad, yn rhwystr iddo "droi allan er iachawdwriaeth iddo ef," gan ei fod yn gwbl obeithiol y galluogid ef, os cai fyw, i ymroddi i "fawrygu Crist" trwy ymgysegru i'w wasanaeth, ac i daenu yr efengyl am dano trwy y byd; ac os rhoddid ef i farwolaeth, y galluogid ef i farw mewn gorfoledd dros ei enw a'i ogoniant Ef yn hytrach na'i wadu. Teimlai o'i ran ei hun y buasai marw yn elw iddo, eto teimlai fod byw yn fantais iddo lafurio er lledaeniad yr efengyl a gogoneddu Crist trwy hyny. Yr ydym yn ei gael mewn penbleth pa un a ddewisai: "Canys y mae yn gyfyng arnaf o'r ddeutu." Yr oedd wedi ymgolli mewn awydd am ddyrchafu Crist, ac am i Grist gael ei ddyrchafu ynddo. Buasai yn llawer gwell arno gyda Christ, ond, o'r ochr arall, teimlai mai yn y byd hwn yn unig y gallai lafurio gyda'r efengyl. Ac yn unol â hyny y mae yn penderfynu ymwadu â'i hapusrwydd ei hun dros amser er mwyn gogoniant ei Feistr mawr. Yr oedd yn awyddus am gael bod yn gymeradwy gan Grist, pa un ai gartref ai oddicartref y byddai o ran y corff. Y rhai a ddymunant i Grist gael ei fawrygu yn eu cyrff, mae ynddynt ddiofalwch sanctaidd pa un a fydd hyny trwy fywyd ai trwy farwolaeth. Hwy a'i gadawant iddo Ef pa ffordd y gwna efe hwy yn wasanaethgar i'w ogoniant, pa un ai trwy lafur neu ddyoddef, trwy eu diwydrwydd neu eu hamynedd, trwy eu gwaith yn byw er ei fri, trwy weithio drosto, neu farw er ei fri trwy ddyoddef drosto. Felly am Paul, yr oedd am i Grist gael ei ddyrchafu, "pa un bynag ai trwy fywyd ai trwy farwolaeth. Canys byw i mi yw Crist." Dyna a ddylai amcan bywyd pob gwir Gristion fod, a dyna, yn ol syniad yr apostol, ydoedd byw—undeb â Christ, ac ymroddiad llwyr iddo.

6. *Ei ddymuniad cryf am gael Crist yn rhan.* Dyma oedd prif nôd ei fywyd, ac yr oedd yn cysylltu ei holl amgylchiadau â'r nôd uchel yma. Yr oedd "yn cyfrif pob peth yn dom ac yn golled, o herwydd ardderchogrwydd gwybodaeth Crist Iesu ei Arglwydd." Mwy na hyn, nid ymffrost noeth ar air yn unig oedd ei ymffrost ef yn Iesu Grist, ond yr oedd y prawf cryfaf oedd yn bosibl wedi ei wneuthur arno, ac yr oedd wedi dal y prawf hwnw. "Er mwyn yr hwn y'm colledwyd ymhob peth." Yr oedd meddwl mor fawr ganddo am Grist, a gafael mor gryf ganddo ynddo, fel yr oedd wedi gallu dyoddef ei yspeilio o bob peth er ei fwyn—"pob peth" ag y buasai unwaith yn gosod cymaint o werth arnynt ac yn ymddiried cymaint ynddynt. Yr oedd wedi colli ei safle ymysgly genedl, y parch mawr a allasai ennill fel dysgawdwr yn eu plith, yr anrhydedd a berthynai iddo eisoes fel aelod o'u senedd. Ac er pan aethai ei galon ar ol Crist, ac y gwnelsai broffes gyhoeddus o hono, yr oedd wedi bod yn wrthddrych llid a malais a chynddaredd ei gydwladwyr, yn wastadol mewn rhwymau a blinderau, yn cael ei erlid, ei gernodio, ei ffonodio a'i labyddio. Y fath hunan-ymroddiad oedd wedi ei ddangos! Ond yn lle gweled ei hun yn

gwneuthur aberth mawr trwy ddyoddef y fath golled, y mae yn edrych ar y cwbl y colledwyd ef o honynt gyda'r diystyrwch a'r dirmyg mwyaf mewn cyferbyniad i'w ennill. "Ac yr wyf yn eu cyfrif yn dom fel yr ennillwyf Grist, ac y'm cair ynddo ef." Bod yn Nghrist, dyna oedd un o amcanion mawr yr apostol wrth gyfrif y cwbl yn golled; cael bod mewn undeb personol âg Ef, wedi ei wisgo yn ei gyfiawnder, ac, o fod mewn undeb âg ef, ei adnabod. "Fel yr adnabyddwyf ef, a grym ei adgyfodiad ef, a chymdeithas ei ddyoddefiadau ef, gan fod wedi fy nghyddffurfio â'i farwolaeth ef." Y mae yn dymuno am gael adnabyddiaeth brofiadol o hono Ef, fel y byddo ei fywyd ef yn fwy perffaith, ac felly yn adlewyrchu gogoniant yr Hwn a'i galwodd. "Gan gylcharwain yn y corff bob amser farweiddiad yr Arglwydd Iesu, fel yr eglurer hefyd fywyd Iesu yn ein corff ni." Wedi cael Crist yn rhan, a chael adnabyddiaeth drwyadl o hono ef, yr ydym yn cael y nôd eithaf oedd o flaen meddwl yr apostol. Nid oedd yn amcanu at ddim llai na pherffeithrwydd hollol, gwaredigaeth gyflawn i'w holl natur oddiwrth bechod a'i holl effeithiau, yr hyn a geir yn unig yn "adgyfodiad y meirw." Pan yn gadael Paul fel Cristion, gellir dyweyd na fu ar y ddaear yr un adlewyrchiad mor berffaith ag ef o Grist. Gyda phriodoldeb yr ydym yn ei gael yn fynych iawn yn cael ei restru yn ail; Crist yn gyntaf, ac yntau wed'yn. Yr oedd bob amser yn canlyn ôl troed ei Feistr mawr; efe a redodd yr yrfa gan edrych ar Iesu, "Pentywysog a pherffeithydd ein ffydd ni:" a chyda phriodoldeb yr oedd yn gwahodd y Corinthiaid, "Byddwch ddilynwyr i mi, megys yr wyf finnau i Grist."

WILLIAM DAVIES.

Portmadoc.

Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

GWERSI YR YSGOL SUL.

DOSBARTH IEUENGAF.

Gan y Parch R. HUMPHREYS, *Bontnewydd.*

LLYFR GENESIS.

GORPHENAF 6ED. GEN. VII. 1—10. Y RHAI OEDD I'W CADW YN MYNED I'R ARCH.

FE gofir mai yr eglurhad a roddwyd ar yr "ugain mlynedd a chant" yn pen. vi. 53, oedd fod yr Arglwydd yn rhoddi y nifer hwnw o flynyddoedd o rybudd am ddyfodiad diluw ar y ddaear. Y mae felly gyfnod o 120 mlynedd yn cael ei gynnwys yn pen. vi. Yn ystod y blynyddoedd hyny bu Noah yn pregethu i'r byd ac yn adeiladu yr arch, yn ol gorchymyn yr Arglwydd. Yn nechreu y bennod hon yr ydym yn cael yr arch wedi ei gorphen, ac yn barod at y gwasanaeth y bwriadwyd hi ar ei gyfer. Rhoddir gorchymyn i Noah a'i deulu (ei "holl dŷ") i fyned i mewn i'r arch. Y mae y cyfeiriadau a wneir at Noah yn yr Hen Destament a'r Newydd yn cyddystiolaethu ei fod yn ddyn da. Gall yr athraw dreulio ychydig o amser yn fuddiol gyda'i ddosbarth wrth eu harwain, drwy ei holiadau, i weled y fantais sydd mewn bod yn dda. Wrth bobl dda y mae yr Arglwydd yn dyweyd ei feddwl. Gofala am danynt mewn amseroedd enbyd. Yn nghanol y dinystr cyffredinol, adeg y diluw, yr oedd Noah yn berffaith ddiogel. Y rheswm am hyny oedd ei fod yn ddyn da. Nid oedd ddyferyn o wlaw i ddisgyn ar y ddaear hyd nes i Noah fod mewn diogelwch, mwy nag yr oedd gwreichionen o dân i ddisgyn ar Sodom hyd nes cael Lot allan o honi. Nid yn unig yr oedd Noah a'i deulu i fyned i mewn i'r arch, ond rhoddir gorchymyn iddo i gymeryd ato nifer neilliduol o greaduriaid eraill, er mwyn "cadw had yn fyw ar wyneb yr holl ddaear" (adn. 3). Nid yw y cyfarwyddiadau a roddir i Noah yn y wers hon yn hollol yr un fath a'r cyfarwyddiadau a roddir iddo yn ngwers y Sul o'r blaen. Y mae yn hawdd gweled, er hyny, nad yw y cyfarwyddiadau yn y ddwy wers yn anghyson â'u gilydd, ond fod y naill yn egluro y llall. Yn pen. vi. 19, 20, dywedir wrth Noah ei fod i gymeryd y gwahanol greaduriaid ato i'r arch *yn gyplau.* Yn yr adnodau hyn dywedir wrtho pa sawl cwpl oedd i'w gymeryd o'r gwahanol

greaduriaid. Y mae ychwanegiad y geiriau "y gwryw a'i fenyw" yn rhoddi lle i dybied yn gryf mai saith pâr o anifeiliaid glân a dau bâr o anifeiliaid aflan a feddylir yn adn. 3, 4. Creaduriaid glân oedd y rhai a ddefnyddid yn aberthau, a chreaduriaid aflan oedd y rhai nad oeddyut i'w defnyddio yn aberthau. Fe welir oddiwrth yr hanes hwn mai nid yn nyddian Moses y dechreuwyd gwahaniaethu creaduriaid yn lân ac aflan. Ni wnaed yn adeg goruchwyliaeth Moses ond rhoddi cadarnhad i ddosbarthiad oedd yn bod yn barod. Y mae dau reswm dros fod mwy o greaduriaid glân nag o rai aflan yn yr arch: (1) Yr oedd eu hanghen yn aberthau. (2) Am fod y creaduriaid aflan yn llïosogi yn gyflymach na'r rhai glân, ac am hyny nid oedd anghen cadw cynifer o honynt. Ar ol rhoddi y cyfarwyddiadau hyn i Noah, rhoddir wythnos o amser i'w cario allan. Dangosir hyny trwy y geiriau "saith niwrnod" (adn. 4). Yr oedd bywyd Noah yn fywyd o ufuddhau i orchymynion yr Arglwydd, ac nid yw yr hyn a ddywedir am dano yn adn. 5 ond engraifft o'r hyn a arferai wneyd bob amser. Y mae dyn da yn ufuddhau i'r Arglwydd, nid mewn adeg o berygl yn unig, ond ar bob adeg. Yn y rhan olaf o'r wers, dangosir y modd yr aeth y rhai oedd i gael eu cadw i fewn i'r arch. Yn gyntaf, aeth Noah, ei wraig, ei feibion, a gwragedd ei feibion, i mewn. Nid yw yr hanes yn cyfeirio at blant meibion Noah. Y mae hyny yn rhoddi lle i gasglu nad oedd ganddynt blant yr adeg yma. Yr oedd y teulu felly yn wyth mewn rhifedi. Ar ol i'r teulu fyned i mewn, daeth y creaduriaid eraill i fewn atynt. Gellir barnu oddiwrth y modd yr adroddir yr hanes nad oedd Noah yn myned i chwilio am danynt, ond eu bod yn myned, trwy ryw fath o reddf a roddwyd ynddynt gan Dduw, o honynt eu hunain. Cwblhawyd yr holl barotoadau yn y saith niwrnod a roddwyd at hyny. "Ac wedi saith niwrnod y dwfr diluw a ddaeth ar y ddaear." Dysgir y pethau canlynol trwy y cyfeiriadau a geir at y diluw yn y Testament Newydd:—(1) Fel y daeth y diluw yn sydyn, ac, wrth ddyfod felly, y rhoddodd derfyn ar holl gynlluniau trigolion y byd, felly hefyd fe ddaw dydd y farn yn sydyn, a phan y daw fe fydd holl gynlluniau y byd ar ben (Math. xxiv. 38; Luc xvii. 26). (2) Yr oedd y diluw yn cysgodi bedydd y Testament Newydd (1 Pedr iii. 20). (3) Dangosir trwy gyfeiriad at ymweliad barnol Duw â'r byd trwy y diluw fod yn rhaid cosbi pechod (2 Pedr ii. 5).

Gorphenaf 13eg. Gen. vii. 11—24. Y Dinystr.

Dywedir fod y diluw yn dechreu ar yr ail dydd ar bymtheg o'r ail mis. Yr arferiad boreuol ydoedd cyfeirio at y misoedd yn ol eu rhif ac nid wrth eu henwau. Enw y mis cyntaf, yn ol pob tebyg, oedd Ethanim neu Tisri. Yr oedd hwnw yn cyfateb i ran o'n Medi a rhan o'n Hydref ni. Enw yr ail oedd Bul neu Marcheshvan, yr hwn oedd yn cyfateb i ran o'n Hydref a rhan o'n Tachwedd ni. Gellir galw y misoedd wrth yr enwau Tisri a Bul, am eu bod yn fyrach ac yn haws eu cofio. Gellir tybied fod y diluw yn dechreu tua Tachwedd 5ed o'n hamser ni. Ar y dydd hwnw, yr oedd Noah a'i deulu wedi gorphen myned i mewn i'r arch. Mae y ferf a gyfieithir "daeth" yn yr amser tra-gorphenol *(pluperfect)*. Nid yw y creaduriaid (adn. 4) yn cael eu rhoddi yn y drefn y crewyd hwynt. Cafodd y bwystfil, yr anifail, a'r ymlusgiaid, eu creu ar y chweched, a'r ehediaid ar y pummed dydd. Y mae mawredd y dinystr a wnaed trwy y diluw yn cael ei ddangos i ddechreu trwy y darluniad a roddir o'r dyfroedd yn cynnyddu yn raddol, hyd nes y darfu iddynt orchuddio yr holl fynyddoedd uchel oedd tan yr holl nefoedd. Rhydd adn. 20 ar ddeall eu bod wedi cyrhaedd pymtheg cufydd uwchlaw penau y mynyddoedd. Yr oedd 15 cufydd yn gyfartal i oddeutu 22 o droedfeddi. Y mae y darluniad bywiog a roddir o gynnydd y dyfroedd, a'r uchder y dywedir iddynt gyrhaedd, yn parotoi y darllenydd at y desgrifiad a geir o'r dinystr yn adn. 21—23. Bu farw yr hyn oll yr oedd ffun (chwyth) anadl einioes ynddo. Ni chadwyd neb yn fyw ond Noah, a'r rhai oedd gydag ef yn yr arch. Yn yr ystyr yma gellir edrych ar yr arch fel cysgod o Iesu Grist. Yr ydym yn barod yn ngwers y Sul o'r blaen wedi gweled fod y diluw yn fath o gysgod o ddydd y farn, pan y cymer dinystr cyffredinol yr annuwiol le. Fel yr oedd Noah yn cael ei gadw yn yr arch yn adeg y diluw, felly y bydd y rhai da yn gadwedig yn y dydd hwnw yn, a thrwy Grist. Rhoddir yr ysbaid o amser y parhaodd y diluw yn y crynodeb o hanes y diluw yn niwedd y nodiadau am y mis hwn. Ni ddysgwylir i'r dosbarthiadau ieuangaf allu myned i fewn i'r cwestiwn dyrys gyda golwg ar pa un a orchuddiwyd yr holl ddaear yn llythyrenol, ai ynte y rhan o'r ddaear oedd yn hysbys yn nyddiau Noah, â dyfroedd y diluw. Am hyny afreidiol yn y lle hwn fyddai rhoddi i lawr y rhesymau a

ddygir ymlaen dros y naill dyb a'r llall.

GORPHENAF 20FED. PEN. VIII. 1—12. GWAWR AR DEULU YR ARCH.

Nid yw yr Arglwydd byth yn anghofio. Dyn sydd yn gwneyd hyny. Yr Hollwybodol yw Efe. Eto dywedir yn nechreu y wers hon fod Duw wedi "cofio" Noah. Pan y dywedir fod yr Arglwydd yn "cofio," y meddwl yw ei fod yn cyflawni ei addewidion i'w bobl trwy eu hamddiffyn a gofalu am danynt. Yn yr ystyr hwn y cofiodd efe Noah. Fe gofiodd hefyd ei addewid gyda golwg ar y creaduriaid oedd gyda Noah yn yr arch. Yr addewid hono oedd y byddai iddo eu cadw yn fyw. Y mae yr holl ddygwyddiadau a gofnodir yn y wers i'w cymeryd fel profion fod yr Arglwydd wedi cofio yr holl greaduriaid oedd yn yr arch. I ddechreu, parodd Duw i wynt dramwy ar y ddaear. Effaith hyn oedd i'r cymylau gael eu gwasgaru, ac i'r dyfroedd beidio cynnyddu. Yna llonyddodd y dyfroedd. Yn nesaf, attaliwyd y gwlaw o'r nefoedd. Nid oes anghysondeb rhwng adn. 2 a pen. vii. 12, lle y dywedir fod y gwlaw wedi bod ar y ddaear "ddeugain niwrnod a deugain nos." Nid yr un gair sydd yn cael ei gyfieithu "gwlaw" yn y ddau le. Yn ystod y deugain niwrnod a deugain nos y cymerodd y *rhyferthwy mawr* le. Ar ol hyny parhaodd yn wlaw sefydlog am 150 o ddyddiau. Am y gwlaw sefydlog y sonir yn adn. 2 o'r wers hon. Ymhen 150 o ddyddiau, ar ol iddi beidio a gwlawio, yr oedd y dyfroedd wedi treio llawer. Y prawf sicr cyntaf a gafodd Noah fod y dyfroedd yn treio oedd pan y gorphwysodd yr arch ar fynyddoedd Ararat. Nid disgyn ar y mynydd yn sydyn, fel pe buasai yn dyfod i wrthdarawiad peryglus, a wnaeth yr arch, ond gorphwys yn naturiol. Y mae y gair a ddefnyddir i osod hyn allan o'r un ystyr ag enw Noah *(gorphwysdra)*. Y mae y gair Ararat yn cael ei gyfieithu Armenia yn 2 Bren. xix. 37; Esa. xxxvii. 38. Y tebygolrwydd yw mai Ararat ydoedd yr hen enw ar ran o wlad Armenia, a bod y geiriau "mynyddoedd Ararat" yn golygu tiriogaethau mynyddig y rhan hono o'r wlad. Yr ail brawf gafodd Noah fod y dyfroedd yn treio oedd ymddangosiad penau y mynyddoedd (adn. 5). Ymhen deugain niwrnod ar ol i benau y mynyddoedd ddyfod i'r golwg, anfonodd Noah y gigfran allan. Un o'r creaduriaid aflan ydoedd y gigfran. Y mae yn aderyn hyf a chaled. Ball ddygymmod âg unrhyw fath o hinsawdd. Hoffa fod mewn llaid, ac ymborthi ar ysgerbwd anifeiliaid. Ar ol y gigfran, anfonodd Noah golomen allan, i weled a oedd y dyfroedd wedi treio oddiar wyneb y ddaear. Un o'r creaduriaid glân yn yr arch oedd y golomen. Y mae yn ddiarebol am ei diniweidrwydd. Yr oedd colomenod, neu ddurturod, yn cael eu defnyddio yn aberthau gan y tlodion dan y gyfraith (Lef. i. 13; v. 7), yn enwedig gan wragedd tlodion ar ol esgor (Lef. xii. 8). Dyma a aberthodd mam yr Iesu (Luc ii. 22, 24). Disgynodd yr Ysbryd ar Iesu Grist, adeg ei fedydd, ar ffurf colomen. Ni wna y golomen ddisgyn ond ar dir gwastad. Yr oedd ei dychweliad i'r arch gan hyny yn profi nad oedd y dyfroedd eto wedi treio oddiar wyneb y ddaear. Anfonwyd hi allan drachefn ymhen saith niwrnod, a dychwelodd gyda deilen olewydden yn ei genau, a hono "wedi ei thynu." Nid deilen wedi ei chael gan y golomen ar wyneb y dyfroedd ydoedd hon, ond un wedi ei thynu oddiar y goeden. Gan nad yw cangenau yr olewydd yn cyrhaedd yn uchel, yr oedd hyn yn brawf i Noah fod y dyfroedd wedi treio yn bur isel. Anfonwyd hi ymhen saith niwrnod eraill, ac ni ddychwelodd, yr hyn oedd yn profi fod y dyfroedd wedi treio oddiar wyneb y ddaear.

GORPHENAF 27AIN. GEN. VIII. 13—22. NOAH AR Y DDAEAR AC YN ADDOLI.

Y DYDDIAD a roddir wrth yr adeg yr oedd y ddaear wedi sychu yw y 27ain o'r ail mis. Ar y dydd hwn, yn ol pob tebyg, yr aeth Noah allan o'r arch. Aeth i fewn iddi yr 17eg o'r mis y flwyddyn flaenorol. Bu felly yn yr arch am flwyddyn a deng niwrnod. Canfyddodd Noah, pan y symudodd gauad yr arch, fod y ddaear wedi sychu. Ond ni feiddiai fyned allan cyn i'r Arglwydd orchymyn iddo. Am orchymyn yr Arglwydd yr ydoedd gan hyny yn dysgwyl. Y mae y gorchymyn yr oedd ei roddi yn adn. 16, 17, ac yn cael ei gario allan yn adn. 18, 19. Y mae trefn fanwl yn cael ei dilyn yn y mynediad o'r arch. I ddechreu, y mae preswylwyr dynol yr arch—Noah, a'i feibion, a'i wraig, a gwragedd ei feibion. Y gwrywaid yn gyntaf, a'r benywod yn dilyn. Daeth y creaduriaid eraill allan yn hollol drefnus. Yr oeddynt yn dyfod wrth eu rhywogaeth; yn llythyrenol, *yn ol eu teuluoedd*. Ar ol cael ei draed ar y ddaear, y peth cyntaf a wnaeth Noah oedd adeiladu allor i'r Arglwydd. Dyma yr allor gyntaf y sonir am dani. Cyn y diluw, yr oedd yr addolwyr yn cyfeirio tuag

Eden fel y man yr oedd presennoldeb yr Arglwydd ynddo. Yn awr, yr oedd holl olion gardd Eden wedi eu golchi ymaith, ac yr oedd meddyliau yr addolwyr yn cael eu cyfeirio tua'r nefoedd fel gorseddfainc Duw. I roddi y cyfeiriad hwn i'r aberthau yr adeiladwyd lleoedd uchel, oddiar ba rai y byddai i fwg yr aberthau esgyn tua'r nefoedd. Yr eglurhad uchod yw yr un a roddir yn gyffredin ar y ffaith mai ar ol y diluw y sonir yn gyntaf am allor. Y mae y geiriau, "arogli arogl esmwyth" (adn. 21) yn golygu fod aberth Noah yn cael ei derbyn yn gymeradwy gan yr Arglwydd. Yr oedd ei aberth ef yn wahanol i'r eiddo Cain, yr hwn nad oedd gymeradwy ger bron Duw. Mewn canlyniad i aberth Noah, rhoddodd yr Arglwydd yr addewid bwysig a geir yn adn. 21, 22. Am ystyr adn. 22 gwel Gwerslyfr ar Genesis.

Crynodeb o Hanes y Diluw.—Rhoddwyd ugain mlynedd a chant o rybudd i'r byd am ddyfodiad y diluw (pen. vi. 3), yr hwn oedd i ddileu pob peth byw oddiar wyneb y ddaear. Yn ystod yr amser hwn, bu Noah, yn unol â'r cyfarwyddyd Dwyfol, yn parotoi yr arch. Ar ol saith niwrnod o rybudd, pan yn chwe' chan' mlwydd oed, ar yr ail dydd ar bymtheg o'r ail mis o'r flwyddyn, yr oedd Noah a'i deulu, ynghyd a'r gwahanol greaduriaid, wedi myned i fewn i'r arch. Ar y dydd hwnw rhwygwyd holl ffynnonau y dyfnder mawr, ac agorwyd ffenestri y nefoedd. Cynnyddodd y dyfroedd nes codi yr arch oddiar y ddaear; cynnyddodd yn ddirfawr nes i'r arch nofio ar ei wyneb; ymgryfhaodd yn ddirfawr iawn, nes gorchuddio yr holl fynyddoedd uchel. Parhaodd y dyfroedd i gynnyddu am 190 o ddyddiau (40 + 150, cymh. pen. vii. 12 a 24). Yna cofiodd Duw Noah, ac anfonodd wynt nes y llonyddodd y dyfroedd. Ar yr ail dydd ar bymtheg o'r seithfed mis o'r flwyddyn, gorphwysodd yr arch ar fynyddoedd Ararat. Ar ol hyn lleihaodd y dyfroedd yn raddol, nes, ar y dydd cyntaf o'r degfed mis, y daeth penau y mynyddoedd i'r golwg. Ymhen deugain niwrnod ar ol hyn, agorodd Noah ffenestr yr arch ac anfonodd allan gigfran; ymhen saith niwrnod anfonodd allan golomen, yr hon a ddaeth yn ol i'r arch; ymhen saith niwrnod drachefn anfonodd hi yr ail waith, a daeth yn ol gyda deilen yn ei genau; ar ol saith niwrnod drachefn anfonwyd hi allan y drydedd waith, ac ni ddychwelodd. Yn y flwyddyn chwe' chant ac un o'i oedran, ar y dydd cyntaf o'r mis cyntaf, symudodd Noah gauad yr arch, a gwelodd fod gwyneb y ddaear wedi sychu. Ar y seithfed dydd ar hugain o'r ail fis, ar orchymyn Duw, aeth Noah allan o'r arch, ar ol bod ynddi am flwyddyn a deng niwrnod.

DOSPARTH HYNAF.

YR EPISTOL AT YR HEBREAID.

Gan y Golygydd.

Sabboth, Gorphenaf 6ed. heb. ii. 11—15.

Adn. 11: *Canys yr hwn sydd yn sancteiddio, a'r rhai a sancteiddir, o'r un y maent oll.* Ystyr y gair "sancteiddio" yma ydyw—nid rhoddi anian sanctaidd, na glanhâd moesol—ond newid y berthynas tuag at Dduw, eto nid fel y mae cyfiawnhâd yn newid y berthynas hono yn wyneb deddf. Y mae pechod wedi gwahanu dyn oddiwrth Dduw o ran amcan a gwaith ei fywyd. Golyga y gair hwn—neillduad oddiwrth y bywyd anianol, pechadurus, a neillduad i wasanaeth Duw—mewn gair, cysegriad. "Yr hwn sydd yn sancteiddio" yn ddiau yw y "Tywysog" yn yr adnod o'r blaen, yr Arglwydd Iesu Grist. "Y rhai a sancteiddir" yw y "meibion lawer" ag y mae efe yn eu tywys i ogoniant. Y mae yr awdwr wedi dwyn y berthynas i sylw yn yr adnod flaenorol yn y gair "meibion." Y mae yr adnod hon megys yn cyfiawnhau ac yn agor y syniad hwnw. 'Yr wyf yn eu galw yn feibion,' meddai, '*canys* yr hwn sydd yn sancteiddio (yr un Mab) a'r rhai a sancteiddir (y "meibion lawer"), o'r un y maent oll,' sef o'r un Tad. Dengys ymhellach ymlaen y rhaid iddynt fod o'r un natur hefyd. *Am ba achos nid yw gywilyddus ganddo eu galw hwy yn frodyr.* Y maent yn feibion i'r un Tad, ac am hyny yn frodyr i'w gilydd. "Nid ydyw gywilyddus ganddo." Dull o ymadrodd a ddefnyddir yn fynych yn y Bibl—y ffurf nacaol yn cael ei defnyddio i awgrymu y graddau pellaf o'r cadarnhaol cyferbyniol i hyny; "nis bwriaf ef allan ddim"—y meddwl yw, 'derbyniaf ef gyda'r croesaw mwyaf.' Felly yma, golyga ei fod yn arddel ei frodyr ac yn ymffrostio ynddynt.

Adn. 12: *Gan ddywedyd, Myfi a fynegaf dy enw di i'm brodyr: yn nghanol yr eglwys y'th folaf di.* Dyfyniad o Salm xxii. 22. Arddela hwynt fel ei frodyr trwy fynegi enw Duw iddynt, yn ngweinyddiad ei swydd fel Prophwyd mawr ei eglwys. Y Cyntaf-anedig yn mynegi enw ei Dad i'w frodyr lawer. Yr oedd yr Hen Destament yn dysgu y byddai i'r Messiah dderbyn ei ddeiliaid i'w berthynas ef ei hun o fabolaeth â Duw Deuai nid yn unig yn frenin arnynt

ond yn *frawd* iddynt. Ac yma geilw hwynt yn frodyr, ac nid hyny yn unig, nac yn benaf fe allai, ond dadguddia enw Duw iddynt—y Brawd hynaf yn dyweyd am y Tad wrth ei frodyr lleiaf. Yr un peth, fe allai, a olygir yn y rhan olaf o'r adnod: byddai, yn y gweinyddiad o'i swydd fel Prophwyd yn ei Eglwys, yn moliannu enw Duw trwy ei hysbysu i ddynion—ei ogoneddu trwy hysbysu ei enw i'r dynion a roddwyd iddo allan o'r byd.

Adn. 13: *A thrachefn, Myfi a fyddaf yn ymddiried ynddo.* Nis gellir bod yn sicr o ba le y mae y geiriau hyn wedi eu dyfynu—gallai mai o Esaiah viii. 17. Prawf arall fod y Mab yn arddel y saint fel ei frodyr, gan ei fod yn proffesu yr un dibyniad ar Dduw fel ei Dad a'r un ymddiried ynddo ag y maent hwythau yn ei wneyd. *A thrachefn, Wele fi a'r plant a roddes Duw i mi.* Dyfyniad o Esaiah viii. 18. Dysgyblion y prophwyd oedd y "plant" yn y lle hwn. Ni welir un cyfeiriad at y Messïah. Ond dywed rhai esbonwyr nas gellir bod yn sicr a yw y prophwyd yn eu llefaru yn ei berson ei hunan, ynte fel un yn personoli y Messïah. Gellir eu golygu yn eu hystyr lawnaf fel geiriau y Messïah, o herwydd y cymhwysiad hwn a wneir o honynt.

Adn. 14: *Oblegyd hyny, gan fod y plant yn gyfranogion o gig a gwaed, yntau hefyd yr un modd a fu gyfranog o'r un pethau.* Dangosir yma y rheswm paham y darfu i'r Tragywyddol Fab ddyfod yn ddyn. Am mai dynion oedd gwrthddrychau y waredigaeth, yr oedd yn rhaid i'r Gwaredwr fod yn ddyn. Nis gallasai gynnrychioli dynion, bod yn frawd i ddynion, heb gymeryd natur dyn. *Cig a gwaed.* Yn hytrach, gwaed a chnawd; dynoliaeth yn ei gwendid, neu yn ei bywyd (gwaed) ac yn ei marwoldeb (cnawd). *Fel trwy farwolaeth y dinystriai efe yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, hyny yw, diafol.* Iesu Grist yn ei lywodraeth gyfryngol yn "dattod gweithredoedd diafol," ac yn dinystrio ei amcanion a'i lywodraeth ar ac ymhlith dynion. Ond nis gallasai yr Iesu ennill yr hawl i wneyd hyn, yn wyneb cyfiawnder, ond trwy farw fel Iawn. Cymerodd einioes ddynol er mwyn ei dodi hi i lawr yn aberth. Gwelwn yma awgrym lled eglur na buasai yr ymgnawdoliad yn cymeryd lle pe na buasai bechod wedi dyfod i mewn, er mwyn perffeithio hunan-ddatguddiad Duw i'w greaduriaid, neu berffeithio ei berthynas â'r greadigaeth, fel y mae rhai yn tybied. Dywedir fod "nerth marwolaeth" gan y diafol, am fod dynion fel pechaduriaid yn ei feddiant—"yn gymaint ag mai efe a lwyddodd gyntaf i dynu dynion i bechod, eu bod, mewn barn am eu gwrthryfel yn erbyn eu Llywodraethwr cyfiawn, wedi eu bwrw drosodd i feddiant yr hwn y cytunasant âg ef yn erbyn eu Brenin cyfreithlon; a'u bod, tra dan ei lywodraeth ef, ac yn byw mewn pechod, o dan rwymedigaeth hollol i farwolaeth."—(Dr. Thomas.) Golyga "dinystrio" yma *ddirymu* y meddiant sydd ganddo ar ddynion ac hefyd allu llywodraethol pechod ar eu meddyliau.

Adn. 15: *Ac y gwaredai hwynt, y rhai trwy ofn marwolaeth oeddynt dros eu holl fywyd dan gaethiwed.* Oddiwrth feddiant a gallu y diafol, fel y nodwyd. Effaith hyny fydd colli ofn marwolaeth. Sylwa Dr. Edwards mai dyma oedd ystâd y byd cyn i Grist ddyfod iddo; ond fod pawb o gredinwyr y Testament Newydd yn hollol ddiofn i wynebu angeu.

Sabboth, Gorphenaf 13eg. Heb. ii. 16—18.

Adn. 16: *Canys ni chymerodd efe naturiaeth angylion; eithr had Abraham a gymerodd efe.* Yr hen esboniad yw mai at yr ymgnawdoliad y cyfeirir yma. Ond y mae bron yn sicr nad yw hyny yn gywir. Nid yw y gair "naturiaeth" yn y gwreiddiol (fel y gwelir); ac y mae y gair "cymeryd," neu yn hytrach, "cymeryd gafael," yn y presennol, ac nid yn y gorphenol fel y maent yn ein cyfieithiad ni. Mewn dynion y mae efe yn "cymeryd gafael" i w hachub, nid mewn angylion. Gwaredwr dynion ydyw, nid angylion. Heblaw nad i angylion y darostyngwyd "byd" yr efengyl, dynion ac nid angylion yw ei wrthddrychau. "Had Abraham," Esa. xli. 8.

Adn. 17: *Am ba achos y dylai efe ymhob peth fod yn gyffelyb i'w frodyr.* Prawf o'r anghenrheidrwydd am yr ymgnawdoliad. Mwy cywir "ymgyffelybu i'w frodyr." *Fel y byddai drugarog ac Archoffeiriad ffyddlawn, mewn pethau yn perthyn i Dduw, i wneuthur cymmod dros bechodau y bobl.* Arweiniodd yr awdwr yn fedrus i fyny at yr Archoffeiriadaeth—pwnc mawr y llythyr. "Ei drugarogrwydd personol yw sail ei offeiriadaeth. Ei drugaredd a'i cymhellodd i ddyfod yn Arch-offeiriad ac sydd yn ei gadw yn ffyddlawn yn ngweinyddiad y swydd yn wyneb anffyddlondeb ei bobl iddo ef."—(Edwards.) Cymhwyswyd ef trwy gymundeb â'i frodyr mewn natur ac amgylchiadau, i gydymdeimlo â hwynt—i gymeryd eu hachos yn achos iddo ei hunan—ac felly i ymwneyd â Duw drostynt yn eu hachosion ysbrydol.

Adn. 18: *Canys yn gymaint a dyoddef o hono ef, gan gael ei demtio, efe a ddichon gynnorthwyo y rhai a demtir.* Y cyfeithiad cywiraf, dybygid, ydyw "Canys yn y peth yn yr hwn y mae efe ei hun wedi dyoddef trwy ei demtio, (yn y peth hwnw) y gall efe gynnorthwyo y rhai sydd yn cael eu temtio."—(Edwards.) Cyfranogodd yn nhemtasiynau ei frodyr, yn gystal ag yn eu natur, er ei gymhwyso i weinyddu ei swydd arch-offeiriadol yn effeithiol, sef cynnorthwyo dynion yn eu temtasiynau a'u profedigaethau. Dysgodd yn ysgol *profiad* o'r bywyd dynol y gallu i gydymdeimlo a chyd-ddyoddef.

Sabboth, Gorphenaf 20fed. Adolygiad.

Sabboth, Gorphenaf 27ain. Heb. iii. 1—3.

Dangosodd yr awdwr yn y bennod gyntaf a'r ail fod Crist yn rhagori ar yr angylion, am ddau reswm. Y mae yn ei natur fel Mab Duw yn uwch na'r angylion; ac y mae yr holl hil ddynol (am fod y natur ddynol), yn ei berson ef, wedi ei dyrchafu yn uwch na'r angylion yn ngweinyddiad "y byd a ddaw:" yn gymaint a'i fod ef nid yn unig yn Apostol, ond yn Archoffeiriad—nid yn unig yn genad oddiwrth Dduw at ddyn, ond ar yr un pryd yn gynnrychiolydd dyn ger bron Duw, fel Offeiriad ac Iawn. Y mae yn dadguddio Duw ac yn cynnrychioli dyn; neu y mae fel Cyfryngwr yn cynnrychioli Duw ger bron dynion, ac yn cynnrychioli dynion ger bron Duw. Defnyddia yr awdwr yn brydferth, fel y sylwa Principal Edwards, ddau enw i osod allan y syniad hwn yn iaith y ddwy oruchwyliaeth—Apostol ac Archoffeiriad.

Wedi cyferbynu Crist â'r angylion, ä ymlaen i'w gyferbynu â Moses. Yr angylion a Moses oeddynt y prif offerynau yn sylfaeniad goruwchwyliaeth y ddeddf. Gwna hyn yn anghenrheidiol gyferbynu Crist â Moses, cyn myned ymlaen at y syniad oedd yn ganolbwynt holl waith y Messiah, megys yr oedd yn ganolbwynt yr oruchwyliaeth Iuddewig, y swydd arch-offeiriadol. Llanwai Moses y lle mwyaf yn ngoruchwyliaeth y ddeddf, cyn i swydd archoffeiriad gael ei chreu. Cyferbynа yr awdwr Grist Iesu â holl brif offerynau goruchwyliaeth y gyfraith—yr angylion, Moses, a'r arch-offeiriaid. Y mae rhagoriaeth y Mab ar yr angylion a Moses yn dyfod i mewn o dan ei deitl fel Apostol. Dywed Principal Edwards fod y bennod yn cynnwys mwy na rhagoriaeth Crist ar Moses, sef unoliaeth y ddwy oruwchwyliaeth.

Adn. 1: *O herwydd paham.* O herwydd yr hyn oll a ddywedasai am Grist o ddechreu y traethawd. Casgliad ymarferol oddiwrth y cwbl.: gan ei fod y fath un—y fath genad dros Dduw, a'r fath gynnrychiolydd dros ddynion. *Frodyr sanctaidd.* Llithra yr awdwr o arddull y traethawd i arddull llythyr. Unir yma y ddau ddrychfeddwl am yr Eglwys—cenedl sanctaidd yr Hen Destament, a'r berthynas rhwng yr Iesu â'i bobl, a rhyngddynt hwythau â'u gilydd, a ddygir allan yn y Testament Newydd, "brodyr." *Cyfranogion o'r galwedigaeth nefol.* Galwad yr efengyl, yr hon a'u cododd i'r berthynas ysbrydol. Gelwir hi yn alwad "nefol" fel cymhelliad i'r ystyriaeth ddwys a gymhellir i'r person y daeth yr alwad trwyddo; fel y dygir mawredd yr iachawdwriaeth i ddangos y perygl o'i hesgeuluso, ii. 3. Y mae yr alwad *o'r* nef, ac yn arwain a dwyn *i'r* nef—y mae y ddau yn anwahanol. "Cyfranogion"—pwy bynag sydd yn clywed yr alwad, medd rhai. Neu, pawb a ufuddhasant iddi, cyfranogion â'u gilydd—"cyd-gyfranogion." Neu, cyfranogion â saint yr Hen Destament, neu â'r credinwyr Cenedlig. Sylwa Principal Edwards, os at yr olaf y cyfeirir, mai dyma yr unig awgrym am alwad y Cenedloedd yn yr Epistol; a bod y gwahaniaeth nodedig rhwng hyn â'r lle amlwg sydd i'r mater yn Epistolau Paul yn ddigon o reswm, pe na byddai dim arall, dros gredu nad Paul oedd yr awdwr. *Ystyriwch.* Golyga y gair, edrych yn ddyfal ar wrthddrych. *Apostol ac Archoffeiriad.* Ystyr y gair apostol yw—un anfonedig oddiwrth Dduw at ddynion. Ystyr y gair arch-offeiriad yw—un yn gweinyddu mewn pethau sanctaidd dros ddynion tuag at Dduw. Iesu Grist yw yr unig un, fel y golyga yr ymadrodd gwreiddiol, sydd yn llenwi y ddwy swydd; ac oblegid hyny, efe yw yr unig un sydd yn llenwi pob un o'r ddwy yn berffaith. Hyny yw, fel y sylwa Principal Edwards, nis gall neb lenwi un yn berffaith ond yr hwn sydd yn llenwi y ddwy. Nid oes neb ond yr hwn sydd yn Apostol ac yn Arch-offeiriad yn Apostol perffaith; ac nid oes neb ond yr hwn sydd yn Apostol ac yn Arch-offeiriad yn Archoffeiriad perffaith. Paham y geilw yr ysgrifenydd Grist yn Apostol? Dywedir fod y gair Hebraeg yn cario dwy ystyr: un yn gyffredinol, yn arwyddo cenad; a'r llall yn cario yr ystyr gyffredin Genedlig o angylion, sef enw ar fath neu ddosbarth neilldуol o fodau. Gwir fod y ddwy ystyr yn perthyn i'r gair Groeg ἄγγελος: ond yr oedd yr awdwr wedi ei ddefnyddio eisoes trwy y rhan gyntaf yn ei ystyr Genedlig, i ddynodi angylion fel rhywogaeth o fodau gwahanol i ddynion; ac

felly nis gallai heb achosi dyryswch ddefnyddio yr un gair i osod allan un yn genad dros Dduw. Dangosodd mai fel un gwahanol i'r angylion a mwy na'r angylion, yr oedd y Person hwn wedi cyflawni mor berffaith ei waith fel cenad dros Dduw. Felly, er mwyn cael gair i osod allan y swydd o genad, ac eto heb fod yn ystyr Genedlig y gair angel, dewisodd yr enw Apostol. Sylwa Principal Edwards mai awdwr yr Epistol hwn yw yr unig un o ysgrifenwyr y Testament Newydd sydd yn galw Crist yn Apostol, ac nad yw yr awdwr yn galw ei hun yn Apostol o gwbl. Gwel efe yma hefyd reswm dros farnu nad Paul oedd yr Awdwr: fod yn naturiol i un nad oedd ei hunan yn Apostol ei alw felly; ni buasai Apostol yn gwneyd, gan fod yr Apostolion yn edrych ar Grist fel Anfonydd yn hytrach nag anfonedig; ni buasent yn beiddio ei roddi ef yn eu dosbarth hwy hyd yn nod mewn enw. Cesglir felly na buasai Paul yn galw Crist yn Apostol, ac na buasai ychwaith yn peidio galw ei hunan yn Apostol. Nid yw byth yn gwneyd y blaenaf nac yn peidio gwneyd yr olaf. *Ein cyffes ni.* "Ein ffydd ni," sef yr Efengyl, neu Gristionogaeth, yn gyferbyniol i'r grefydd Iuddewig. Neu, "yr hwn a broffeswn ni," neu a arddelwn fel y cyfryw. Perygl yr Hebreaid oedd peidio ei gyffesu.

ADN. 2: *Yr hwn sydd ffyddlawn.* Ffyddlondeb yw y rhinwedd cyntaf yr edrychir am dano mewn un wedi ei osod mewn swydd o ymddiried mawr, yn gweithredu rhwng dwy blaid, ac i ofalu am iawnderau a buddiannau y ddwy. *I'r hwn a'i hordeiniodd ef.* Neu, "i'r hwn a'i gwnaeth ef," sef a'i gwnaeth yn Apostol ac Archoffeiriad: ei "wneyd" trwy ei appwyntio, ac hefyd, fe allai, trwy ei gymhwyso o ran ei Berson fel Cyfryngwr: "Corff a gymhwysaist i mi." *Megys ag y bu Moses yn ei holl dŷ ef.* Dyfyniad o Num. xii. 7. "Tŷ Dduw"—y gyfundraeth o grefydd dan yr hen oruchwyliaeth. Bu Moses yn ffyddlawn yn y tŷ hwnw, fel gwas a goruchwyliwr i gario allan drefniadau y meistr. Felly y bu Crist Iesu yn "nhŷ" mawr yr efengyl, goruchwyliaeth y prynedigaeth. Ei fwyd a'i ddiod oedd gwneuthur ewyllys Duw a gorphen ei waith.

ADN. 3: *Canys fe a gyfrifwyd hwn yn haeddu mwy gogoniant na Moses, o gymaint ag y mae yr hwn a adeiladodd y tŷ yn cael mwy o barch na'r tŷ.* Dygir hyn yn rheswm dros yr annogaeth i ystyried Crist Iesu. Yr oeddent yn "ystyried" Moses; ond dyma un uwch a rhagorach na Moses. Fe'i dyrchafwyd i ogoniant llawer uwch fel gwobr ei waith fel Apostol ac Archoffeiriad. *O gymaint, &c.* Nid oedd Moses, er mor ffyddlawn y bu, ond rhan o'r tŷ ei hunan. Nid efe a'i hadeiladodd, ond Crist. Efe oedd gwir sylfaenydd y tŷ hwnw. Yr oedd efe "yn dyfod" yn weithredol trwy yr oesoedd cyn iddo ddyfod yn y cnawd. Efe oedd y goruchwyliwr mawr o'r dechreuad oedd yn gweithredu rhwng Duw a dynion. Felly y mae efe yn "haeddu mwy gogoniant na Moses" fel y mae yr adeiladydd yn cael gogoniant uwch ac o natur wahanol i'r tŷ a adeiledir ganddo.

Barddoniaeth.

YMSON HIRAETH AM Y CENADWR ENWOG, Y DIWEDDAR BARCH. T. JERMAN JONES.

WYLED! ac wyled Gwalia!—ser weithion
Syrthiant ar eu gyrfa;
Dy gampwyr hyglod gwympa—'n wywedig
I gôl annelwig y gelyn ola'.

Ein hanwyl Jerman a hunodd,—a'i haul
Dan niwl bedd fachludodd;
A'i wen yrfa orphenodd,—i fro gras,
A dedwydd ddinas, Duw a'i hud-ddenodd.

Y teg em, brawd digymhar,—ni bu gwell,
Yn y beddgell mae 'i wyneb hawddgar,
Mewn lle llwm, O! trwm fu 'r tro,
Yn ei anedd mae 'n huno
O'n golwg! pwy all gelu
Wylo 'r dwr gan alar du;
Y gwir frawd a'r gŵr o fri
Dan y tywod yn tewi

Gwas enwog ei wasanaeth,—hygarol
Gerub ein Cenadaeth;
Calon drist Methodistiaeth,—sydd yn flin,
O'i farw 'n tori 'n llifeiriant hiraeth.

'R ol ei rawd hir wylo 'r ydym,—eglur
Ddagrau dreiglent genym;
Ac afiwydd ddaeth yn gyflym,
O'i fywyd da amddifaid y'm!

Gan boenus ddygn benyd,—wylwn
Dan gymylau tristyd;
O'th randir da, Gwalia glyd,
Gwefredig alar gyfyd.

Ar y môr mawr murmurol—a nwyd erch
Min y dòn gynddeiriol
'Hedodd ein Jerman hudol
I'w le gwell mewn Dwyfol gôl.

O! foddus dangnefeddwr,—un â'i fron
Yn frwd dros Waredwr;
Diddig was ydoedd y gŵr,
A ganedig Genadwr.

Ar wedd y gŵr hawddgarol,—arosai
Swyn a gras gwynfâol;
Ymarweddiad ymroddol;
Ei oes 'n awr sy wyn o'i ol.

Noddwr glân y Pagan pell
Yn ei dewaf fro dywell;

Nôd amlwg ei fwyn deimlad
Oedd gweini a rhoddi 'n rhad;
O'i gynnwys, er digonedd
I'r gwael ŵr â'r gwelw wedd;
Trywanu trwy ei enaid
Wnai llefau 'r eisiau a rhaid;
Natur yn llawn tosturi
A gras at anghenus gri,
Yn wastad geid yn eistedd
Ar rin hael ei dirion wedd:
Dyddan "falm" rhag dyoddef
Oedd lon'd ei ddèl enaid ef!

Cannoedd o'i ol sy 'n cwyno,—anniddig
Yw Trefnyddiaeth hebddo;
Mae galar trwm ac wylo—drwy 'r dalaeth,
A Chenadaeth sy 'n ocheneidio!

Y Pagan sy 'n gruddfanu—yn ei gell
Am y gŵr wnai 'i garu,
Ac ar d' ol y Negro du—ar y traeth
O loew hiraeth sy 'n dwfn alaru.

Rhedodd at anghenrheidiau—llu anwar
A phellenig lwythau;
Ar hyd ael abred lwybrau—tywyllwch
Y du anialwch hwn daenai 'i olau!

Craff oedd fel seraph seirian,—hynodo
Fel Cenadwr purlan;
Awyr drem eryr eirian,
A'i yni ter yn llawn tân.

Ei gariad oedd flagurol,—yn gwynu
Dan ogoniant Dwyfol;
Yn nhir serch erys o'i ol—heirdd flodau
Haf dywysenau ei fywyd swynol.

Aberthodd ar dduon barthau—fywyd
O wynfäol riniau;
Da odiaeth weithrediadau—amrywiog,
Ar ein gŵr enwog a dry 'n goronau.

Hyglod gerub gwladgarol,—a'i fwriad
Yn fôr dwfn ymledol:
Iraidd enaid arddunol,—ni esyd
O dan y gweryd neb mwy dyngarol.

Gwir anianawd y gwrol,—durfiniog
Benderfyniad mewnol;
A tharian ei nerth heriol—heb wanhâu
Wrth rym rhwystrau aruthr ymrestrol.

Llafurwaith o ddidwyll fwriad—ddrylliodd
Ar allor ei gariad;
Ar enllib randir anllad—anhygar
Y duwiau anwar oedd ei dywyniad.

Dwyreindir rhandir India—a welodd
Godiad haul Messïa;
I'r Negro daeth, drwy 'n gŵr da—faddeuant
Yn hael lifeiriant o hedd Calfaria.

Enwog wron hygaraf,—diwair, dewr,
Y dyn gwir ffyddlonaf
Ydoedd: y dydd diweddaf
Syrth y sêr—ei waith a saf.

Yn drylen bydd ei enw—yn hir lwys
Ar lên "cof a chadw,"
Ac ni lwydir ef gan ludw—na llygriad,
Na 'i dda gymeriad ni ddwg y marw.

Anglylaidd mwy yn Ngwalia—erys
Arwr "Bryniau Khasia;"
Hoff hefyd fydd ei goffa—dihalog,
A'i enw gwresog uwch crog arosa.

O'n gwlad tra bo Cenadau—yn hwylio
I anelwig barthau,
Ni welir, Jerman olau,
Dy well byth ar dywyll bau!

Os yw 'r Cenadwr seirian—yn ei fedd,
Bydd cof hir am Jerman;
Enw glwys ein harwr glân
Acenir uwch tranc anian.

'Hedodd ef i'w gartref gwyl,—ac i hedd
Ei dragwyddol breswyl;
Enaid ein Jerman anwyl
I mewn aeth i'r nef mewn hwyl!

Yr engyl uwch rhandir angho'—a daenant
Eu hadenydd drosto;
Glân dduwies anian weno— ar ei fedd,
A'i ther addurnedd fo 'n fythwyrdd arno!

M. E. Thomas (*Cynwyd*).

Cathays, Caerdydd.

ANGHREDINIAETH.

Anghrediniaeth sy 'n fy mhoeni
Ac yn rhoddi i mi glwy,
Ofni hyn ac ofni arall,
Ofni drygau fwy na mwy;
Estyn, Arglwydd, dy drugaredd,
Nertha fi lle 'r wyf yn wan—
Dywed wrthyf mai Dy hunan
Hollalluog, yw fy rhan.

John Evans.

Liverpool.

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL.

Yn Nghyfarfod Misol Arfon, a gynnaliwyd yn Brynaerau, Clynnog, Mai 19 a'r 20fed, ymdriniwyd â'r mater "Eiriolaeth Crist," yr hwn a agorwyd yn effeithiol gan y Parch. R. R. Morris, Caernarfon. Hysbyswyd trefniadau y Pwyllgor gyda golwg ar Gymdeithasfa Caernarfon.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Frycheiniog, a gynnaliwyd yn Trallwm, Mai 19 a'r 20fed, bu ymdriniaeth wresog â'r symudiad ynglŷn â Jiwbili y Genadaeth Dramor, ac hefyd â Dirwest. Dadganwyd teimladau o ofid am y golled fawr a gai y Cyfarfod Misol trwy ymadawiad y Parch. W. Williams, Birmingham, o'u plith i gylch Cyfarfod Misol Dwyrain Meirionydd, a phenderfynwyd rhoddi iddo lythyr cyflwyniad. Gwnaed coffâd parchus a theimladwy am farwolaeth Mr. Edward Jones, blaenor parchus a thra gweithgar yn Eglwys Oswald Road, Croesoswallt. Hefyd, am farwolaeth y Parch. O. Parry-Owen, yr hwn oedd hyd yn dra diweddar, er's peth amser, yn aelod o'r Cyfarfod Misol hwn.

Yn Nghyfarfod Misol Dehau Aberteifi, a gynnaliwyd yn Blaenanerch, yn mis Mai (nid oedd y dyddiad yn yr Adroddiad), siaradwyd yn gryf yn erbyn y Mesur er rhoddi Iawn i dafarnwyr, a phenderfynwyd deisebu trwy y wlad yn ei erbyn. Rhoddwyd canmoliaeth uche

i Gofiant y diweddar Barch. Thomas Edwards, Cwmystwyth, ac annogaeth wresog i'w brynu.

Yn Nghyfarfod Misol Llundain, a gynnaliwyd yn Jewin Newydd, nos Fercher, Mai 28ain, rhoddwyd caniatâd i'r cyfeillion yn Shirland Road, helaethu eu capel trwy wneyd *gallery* arno. Penodwyd y Parch. J. Elias Hughes, M.A.; Mri. Hugh Edwards, Shirland Road; a Hugh Edwards, Wilton Square, i fyned i Holloway, i ymddyddan â Mr. R. Parry, B.A., ymgeisydd am y weinidogaeth, ac i gymeryd llais yr eglwys ar ei achos.

Yn Nghyfarfod Misol Manchester, a gynnaliwyd Mai 20fed, rhoddwyd adroddiad tra chalonogol am lwyddiant y *bazaar* (neu "Sale of Work") a gynnaliwyd yn Rochdale. Derbyniwyd dros £290, ac felly caed mwy o tua hanner cant o bunnau na'r swm oedd yn aros yn ddyled ar y capel. Priodolid y llwyddiant i fesur mawr i ymdrechion y gweinidog, y Parch. Edward Humphreys, a'i briod.

Yn Nghyfarfod Misol Lleyn ac Eifionydd, a gynnaliwyd yn Tydweiliog, Mehefin 2 a'r 3ydd, dosbarthwyd Anerchiad Mr. Bebb, Liverpool, ar Jiwbili y Genadaeth Dramor, a rhoddwyd annogaeth wresog a chryf o blaid y symudiad. Gwnaed coffâd parchus a theimladwy am farwolaeth y diweddar Barch. Evan Williams, Morfa Nefyn; mynegid am rymusder ei weinidogaeth, yn enwedig yn hanner cyntaf ei yrfa, a'i ffyddlondeb i'r Cyfarfod Misol am flynyddoedd lawer.

Yn Nghyfarfod Misol Gogledd Aberteifi, a gynnaliwyd yn Talybont, Mehefin 5 a'r 6ed, cafwyd anerchiad gwresog a thra dyddorol gan y Parch. Griffith Ellis, M.A., ar ran Jiwbili y Genadaeth Dramor. Diolchwyd yn gynhes i Mr. Ellis am ei Anerchiad, ac ymrwymwyd i ymdrech arbenig yn yr achos hwn.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Fflint, a gynnaliwyd yn Coedllai, Mehefin 2 a'r 3ydd, gwnaed sylwadau coffadwriaethol am y Parch. R. E. Roberts, Wyddgrug. Dygid tystiolaeth uchel iddo fel pregethwr sylweddol a buddiol. Darllenwyd papyr rhagorol gan y Parch. D. M. Davies, Bryneglwys, ar y mater gosodedig—dyledswydd swyddogion eglwysig yn ngwyneb agwedd yr amseroedd. Cymeradwywyd ar iddo gael ei argraffu a'i anfon i'r eglwysi. Cafwyd anerchiad rhagorol gan y Parch. Thomas Roberts, Jerusalem, ar ran y Genadaeth Gartrefol, am yr hwn y diolchwyd; ac ymrwymwyd i ymdrechu o blaid yr achos hwn.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Gaerfyrddin, a gynnaliwyd yn Saron, Mehefin 4 a'r 5ed, amlygid llawenydd wrth glywed fod y Parch. T. Job, Conwil, yn gwellhau o'i afiechyd diweddar. Cafwyd anerchiad rhagorol gan y Parch. T. Hendre James, D.D., ar ran y Genadaeth Gartrefol.

Yn Nghyfarfod Misol Gorllewin Meirionydd, a gynnaliwyd yn Nhrawsfynydd, Mehefin 9 a'r 10fed, caed ymdrafodaeth â'r mater penodedig. "Y cymhwysderau anghenrheidiol a ddylid gael yn had yr eglwys cyn eu derbyn yn gyflawn aelodau," yr hwn a agorwyd yn rhagorol gan y Parch. J. H. Symond. Gwnaethpwyd sylwadau parchus am y diweddar Barch. O. Parry-Owen, Llanbedr.

Yn Nghyfarfod Misol Arfon, a gynnaliwyd yn Salem, Bettws Garmon, Mehefin 9 a'r 10fed, derbyniwyd tri o flaenoriaid newyddion o Rhosgadfan. Rhoddwyd cynghor rhagorol iddynt gan y Parch. W. Williams, Talsarn. Croesawyd y Parch. J. Hughes Griffiths, M.A., ar ei ddychweliad am ychydig amser o'r America. Rhoddwyd llythyr cyflwyniad iddo, a dadganwyd y dymuniadau goreu ar ei ran.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Conwy, a gynnaliwyd yn Roewen, Mehefin 11 a'r 12fed, arganmolwyd Llawlyfr rhagorol y Parch. W. Lewis, Pontypridd, ar Lyfr Genesis. Galwyd sylw at anffyddlondeb llawer o'r eglwysi, neu y swyddogion, yn esgeuluso gwneyd y casgliadau cyfundebol, rhai heb wneyd dim at yr un o'r ddwy Gymdeithas Genadol. Sylwyd mai y rhai oedd fwyaf ar ol gyda'r holl achosion cyfundebol oedd y rhai a wnaent leiaf gyda'r achosion gartref. Canmolwyd Gwerslyfr y Parch. Richard Humphreys, Bontnewydd, ar lyfr Genesis.

BARNU CYMHWYSDERAU YMGEISWYR AM Y WEINIDOGAETH.

Papyr a ddarllenwyd gan Mr. R. W. Jones, *Garston, yn Nghyfarfod y Blaenoriaid, Cyfarfod Misol Liverpool, nos Fercher, Mehefin 4ydd, ac a gyhoeddir ar annogaeth y Cyfarfod.*

Priodol ydyw fod genym safon uchel i farnu cymhwysderau y rhai sydd yn cynnyg eu hunain fel ymgeiswyr am y weinidogaeth. Amcenir yn y papyryn hwn wneyd ymdrech i godi y safon; a chan mai at y dyfodol y bydd cyfeiriad y sylwadau, gwneir hwynt, mor belled ag sydd bosibl, yn gwbl ymarferol. Ni chyfeiriant mewn un modd at y weinidogaeth fel y mae yn bresennol, nac yn bersonol at neb sydd eto yn fyw ac yn llafurio yn ein plith.

Bydd pobl Meirion, pan yn cychwyn gyda'r rheilffordd, yn codi *ticket*, chwedl

hwythau, a phan soniant am bregethwr dywedant ei fod yn codi testyn. Dywed y tocyn a'r testyn o ba le y cychwynir, i ba le y byddys yn cyrchu, ac, ond odid, na roddir rhyw awgrym am y ffordd a'r llwybr. Bydd yn gyfleus i ninnau, er nad pregeth sydd genym mewn llaw, gael codi testyn; ac er mwyn trefn, yn fwy na dim arall, sylfaenir yr hyn a ddywedir ar dri gair yn y 23ain adnod yn y bummed bennod yn Epistol Cyntaf Paul yr Apostol at y Thessaloniaid: "Eich ysbryd oll, a'ch enaid, a'ch corff." Triawd yn gosod allan fod gan ddyn, mewn rhyw ystyr, gyfansoddiad triphlyg. Cyfeiria y Testament Newydd yn aml at hyn: yn hanes temtiad yr Arglwydd Iesu; yn nosbarthiad yr Apostol Ioan o bob peth sydd yn y byd i'r triawd chwant y cnawd, chwant y llygaid, a balchder y bywyd; ac yn llythyr Paul at Titus pan yn son am ddarpariaeth driphlyg sydd yn efengyl gras Duw ar gyfer pechodau y corff, pechodau yr enaid, a phechodau yr ysbryd, sef byw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn y byd sydd yr awrhon. A thuag at *gyhoeddi* yr efengyl hon y mae yn rhaid cael cymhwysderau, ac y mae yn ddyledswydd arnom ni i edrych fod yn y rhai sydd yn ymofyn am ganiatâd i ddechreu pregethu, gymhwysderau o ran corff, cymhwysder enaid, a chymhwysder ysbryd —eu bod wedi eu gwaddoli gan natur, wedi eu cyfoethogi â dysg, ac yn arwyddo yn amlwg yn eu hymarweddiad eu bod wedi eu bendithio â duwioldeb. Gan mai eu prif waith ddylai fod cyhoeddi efengyl y deyrnas, y mae yn sicr fod presennoldeb corfforol urddasol yn fantais fawr, ac yn gymhwysder i'r swydd nas gellir ei ollwng o'r golwg. Ac, ar y llaw arall, y mae bychander corffolaeth bob amser yn anfantais i weled yr Iesu fel ag i'w ddangos i'r byd. Wrth fychandra corffolaeth dealler pob eiddilwch naturiol sydd mewn dyn yn ei anghyfaddasu i bregethu yn effeithiol, neu sydd, o'r lleiaf, yn milwrio yn gryf yn erbyn ei allu i wneyd hyny. Wrth gwrs, mae yn ofynol fod yr athrawiaeth hon yn cael ei darllen yn ngoleuni synwyr cyffredin, ac na ddylid gwasgu ei chymhwysiad i ormod eithafion. Y mae lluaws o bethau i'w cadw mewn cof, oblegid er fod yn rhaid cydnabod fod y prif areithwyr, fel rheol, wedi eu cynysgaeddu yn uchel gan natur, eto fod eithriadau gogoneddus—sycamorwydden rhyw allu neu fedr neilluol, o bryd i bryd, yn dyrchafu y bychan o gorffolaeth ymhell goruwch ei eiddilwch i gyd. Mae y rhai a welsant ac a glywsant feistriaid y gynnulleidfa yn y pulpudoedd, yn cofio ymddangosiad tywysogaidd a thraddodiad awdurdodol Mr. Elias, y brodyr o Dalysarn, a Mr. Rees, ond y maent yn cofio hefyd am lais treiddgar a swynol y Parch. David Charles o Fôn, ac am raiadr hyawdledd y Parch. Edward Morgan. Ac y mae yn bresennol i ni i gyd dystiolaeth y Testament Newydd am fyrdra golwg profedigaethus, a gwendid dirmygus presennoldeb corfforol Mercurius yr ymadroddwr penaf—yr Apostol Paul. Yn wir, y mae yn rhaid bod yn dra gochelgar yn y cyfeiriad yr ydym ynddo ar hyn o bryd, oblegid fod y trysor yn cael ei roddi ar y goreu mewn llestri pridd, fel "y byddai godidowgrwydd y gallu o Dduw, ac nid o honom ni." Mewn gwirionedd, nid ydyw yr Ysbryd wedi diystyru y greadigaeth ddireswm fel cyfrwng gwersi oddiwrth Dduw. Rhwystrwyd Balaam, fel na redai yn rhyfygus i ormod rhysedd, gan gerydd a weinyddwyd o enau asyn, a chaniad ceiliog adgoffhäodd ei bechod i Pedr—adgoffa a ddiweddodd mewn edifeirwch a wylo chwerwdost. Ond pa raid esbonio ac eglurhau ein hathrawiaeth? ni chamddeallir. Nid ydyw yn cyrhaedd ymhellach na'r ddyledswydd o edrych fod y doniau anhebgorol ar gael, fel na byddo y pregethwr, o anghenrheidrwydd, yn wrthddrych beirniadaeth, yn hytrach nag un yn teilyngu gwrandawiad. Ac, fe allai y gallwn, wrth ddyfynu y gair "corff a gymhwysaist i mi," ei gymeryd heb esboniad. Pa beth bynag ydyw ei ystyr, y mae yn rhaid i ni gredu y gwirionedd fod yr Arglwydd Iesu Grist ei hun wedi ei wneuthur, ïe, o ran corff, yn gymhwys i'w waith mawr, a chan *hyny* hefyd fe ddylem edrych, o fewn terfynau y ddoethineb a roddwyd i ni, fod gan weinidogion ei Air Ef, yr hyn sydd yn eu cymhwyso i draddodi y genadwri am dano—am dano Ef, yr hwn a "lefarai megys un âg awdurdod ganddo, ac nid fel yr ysgrifenyddion." Rhaid fod y peirianau llafar yn gweithio yn esmwyth —fod gallu i wneyd yn ol cynghor y Parch. Thomas Richards, Abergwaen, sef llefaru yn rhydd, yn rhwydd ac yn rhigl, nid yn tuchan rhwng pob gair a rhwng pob brawddeg, nid yn darllen oddiar bapyr, ac nid ychwaith yn dibynu yn hollol ar lêch y cof.

Hwyrach mai yn y fan hon y byddai yn gyfleus dyweyd ychydig ar y dalent gyferbyniol—cymhwysder dysglaer mewn pregethwr ydyw y ddawn i dewi—i dewi o fewn terfynau cymedrol, o ran amser, yn ogystal ag o fewn terfynau cymedrol mewn cysylltiadau eraill. I osod hyn mewn ffurf arall, cymhwysder mawr mewn ymgeisydd am y weinidogaeth

fyddai gallu i ddyweyd yn fyr ac yn eglur drefn yr efengyl i achub pechadur—i ddyweyd ei hanes ef a hanes Iesu Grist yn Geidwad iddo, yn gryno mewn ystori fer o ugain mynyd, neu hanner awr fan bellaf. Yn nyddiau ein tadau, pryd yr oedd pregethau yn anfynych, a'r pulpud, nid yn unig yn safle yr efengylwr, ond hefyd yn gadair Gamaliel, da iawn oedd cael pregethau awr o dwyawr o hyd, a hwy na hyny—yn enwedig pan y byddai y meddyliau yn anadlu ysbryd y peth byw, a'r geiriau, mewn canlyniad, yn gwefreiddio ac yn tanio calonau y gwrandawyr. Ond, erbyn hyn, yr hen bethau a aethant heibio; gwaith dianghenrhaid ydyw rhagymadroddion hirion, dyfnion, a sychion, nad oes galw am danynt gan y rhai a allant eu deall, ac ydynt yn ddifudd i bawb arall. Y mae yn llawn bryd i'r blaenoriaid ddyweyd rhagllaw, yn onest ac yn groew, wrth yr ymgeiswyr: "Ni wiw i chwi fod yn hir *ac* yn faith, a thrwy hyny waghau yr addoldai trwy flino y cynnulleidfäoedd." Gwelir fod yma wahaniaeth yn cael ei wneyd rhwng hŷd a meithder, ac nid oes eisieu egluro hyn. Y mae pawb yn brofiadol y dichon pregethwr barhau i ymadroddi yn hir, ac heb fod yn faith—â'r cyfryw nid oes a fynom yn ein sylwadau. Ond, ar y llaw arall, y mae yn bosibl cael meithder mewn pregethwyr nad ydynt yn hir, er mai y rheol ydyw os bydd dyn yn faith y bydd hefyd yn hir, ac, yn rhy aml, yn hir *iawn*. Anhawdd gwybod pa beth i'w awgrymu ar gyfer hyn; o'r braidd na ddywedem y dylid ei ystyried yn gymhwysder arbenig mewn ymgeiswyr ieuainc os addawant beidio pregethu dros ugain mynyd am y pump neu y saith mlynedd cyntaf ar ol cael caniatâd i ddechreu. Sicrhai hyn y dysgent bregethu yn gryno, a cheid sicrwydd, er nad sicrwydd diammodol, na flinid Israel mwyach â gormod meithder. *Ond* y peth mawr yn y cyfan ydyw eu cael i bregethu Crist—i ddwyn y pechadur i edrych wyneb-yn-wyneb ar ei ogoniant *Ef*. Eu cael i beidio rhoi llen gudd o ragymadrodd dysgedig rhyngom a'r Ceidwad, nac un llen arall, fel na weler Ef ond megys mewn drych. Eu dwyn i gofio mai "gwaed Iesu Grist ei Fab Ef sydd yn glanhau oddiwrth bob pechod." Eu cael i beidio "gwybod dim yn eich plith ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio," i fod heb "gywilydd ganddynt efengyl Crist, oblegid *hi* yw gallu Duw er iachawdwriaeth." Eu dwyn, mewn gair, i bregethu fel y pregethai Dafydd Jones, Llangan. Fel hyn y canai Williams am dano, a Grace Price o Watford yn gwrando arno:—

"Yn Llangan, o dan y pulpud,
'R oedd ei hysbryd, 'r oedd ei thre',
Tra f'ai Dafydd yno 'n chwareu
'N beraidd ar delynau 'r ne';
Iesu 'r *text*, a Iesu 'r bregeth,
Iesu 'r ddeddf, a Iesu 'r ffydd,
Meddai Jones, a hithau 'n ateb
Felly mae ac felly bydd."

II. Symudwn bellach yn y blaen—at gymhwysder enaid. Fe allai fod peth o'r hyn a ddywedwyd olaf yn perthyn yn fwy addas i'r benran hon; ond nid ydyw hyny o bwys, rhed pethau o'r fath i'w gilydd yn wastad, i fesur mwy neu lai. Deallwn wrth enaid yn y cysylltiad hwn, y meddwl. Ac y mae meddwl cymhwys yn golygu ei fod wedi ei lenwi â gwybodaeth, ac wedi ei ddysgyblu, yr ewyllys wedi ei dwyn o dan awdurdod pwyll ac amynedd, y chwaeth wedi ei phuro—mewn gair, meddwl wedi ei amaethu a'i ddiwyllio drwyddo. Ni chaniatâ amser i ni fanylu, ac felly *sylwn* ar wybodaeth yn unig. Gadawn hefyd o'r neilldu wybodaeth gyffredinol, a chyfyngwn ein hunain at wybodaeth ysgrythyrol. Ac *yma* eto gwnawn y maes yn llai fyth, gan sylwi ar ddim ond gwybodaeth o *Air* Duw—o *eiriau* y Bibl. Dylai pob ymgeisydd am y weinidogaeth wybod am bob gair yn Llyfr Duw, ac adnabyddiaeth ganddo o bob person ynddo am yr hwn y dywedir mwy na'i enw. Mae y wybodaeth hon o'r geiriau a'r enwau yn anhebgorol anghenrheidiol cyn myned at y ddysgeidiaeth, y brophwydoliaeth, yr athrawiaeth, yr efengyl. Edrycher ar y pwys sydd mewn un gair. Y mae yr Apostol Paul, yn yr epistol at y Galatiaid, yn sylfaenu cangen o ymresymiad ar y ffaith nad ydyw rhyw air i'w gael yn yr Hen Destament yn y rhif lïosog; ac fe ŵyr pawb nad yw bosibl deall llawer adnod yn yr Epistol at yr Hebreaid heb wybod am y personau a'r lleoedd y cyfeirir atynt, ac ystyr eu henwau. Ni ddarfu i'r Arglwydd Iesu ei hun ddiystyru y manylrwydd hwn; yn hytrach, cariai allan yr egwyddor i'r llythyren, a'r llythyren leiaf, a'r tipyn ar ei phen, "Nid ä yr un iot na'r un tipyn o'r gyfraith heibio." Cawn ef, yn aml yn Efengyl Ioan, yn awgrymu cyfrolau trwy ddefnyddio ond gair neu ddau, megys y gwnaeth wrth ateb y dyn a *anesid* yn ddall: "Tr a'i GWELAIST Ef." Ceir hyn yn aml iawn yn Paul hefyd, megys yn ei chwareu ofnadwy ar eiriau pan yn cyfarch Elymas y swynwr, ac yn yr engraifft hapus yn Epistol Philemon ar enw Onesimus y gwas.

Y mae lle i ofni nad ydyw yr ysgolion dyddiol, na'r Ysgol Sabbothol ychwaith, ysywaeth, yn talu yr un sylw ag a roddid

yn y dyddiau gynt a fu i'r efrydiaeth hon. Yr oedd Mr. Evans, athraw cyntaf Ysgol Frytanaidd fu gan ein cyfundeb yn Lerpwl, yn esiampl nodedig o'r hyn ddylai dysgawdwr fod yn y cyfeiriad yma. Ni ollyngid un gair heb ddyhysbyddu ei ystyr—ei ystyr cyntaf, beth bynag. Cofia llawer am ei ddull meistrolgar o argraffu y manylion hyn ar feddyliau y bechgyn. Cymerer, fel engraifft, y daith o'r Aipht i Ganaan. Enw pob man ar y ffordd, a'i ystyr, hŷd yr oediad yno, pob dygwyddiad a gymerodd le, o'r gwersyll rhwng Pihahiroth a Baalsephon, i chwerw-ddyfroedd Mara a dyfroedd peraidd Elim, at y graig yn Horeb, a Mynydd Sinai, trwy Rosydd Moab i'r Iorddonen, pan gyfododd ei dyfroedd yn bentwr, ymhell iawn oddiwrth ddinas Adam.

Ac nid yn unig y mae y wybodaeth hon yn ofynol er mwyn deall ystyr y Gair—y mae yn rhaid ei chael er mwyn gweled ei brydferthwch. Ac aralleirio, yn hytrach na chyfieithu, y diweddar Dr. James Hamilton: pan barotodd Duw yr oraclau dwyfol, nid Geiriadur neu Ramadeg sychlyd oedd y ffurf arnynt, ond Bibl. Bibl wedi ei lenwi â pherffeithrwydd prydferthwch llenyddol—wedi ei gyfaddasu i ddyn. I DDYN, yr hwn y mae ynddo fwy o chwilfrydedd nag o dduwioldeb, fwy o chwaeth nag o sancteiddrwydd, yr oedd yn ofynol cael llyfr a ddeil ei chwilio, yr hwn, yn ei ymdrech i ennill y galon a gaethiwa y chwaeth; a'r hwn, wrth drawsffurfio y serchiadau—wrth ddenu y serch a'r bryd—sydd yn agoryd, yn dadblygu, ac yn eangu y meddwl. Y mae llafn llym daufiniog cleddyf yr Ysbryd wedi ei dymheru yn ffwrneisiau y tân ysol, ac nid oes dim drywana fel yr arf sydd yn "cyrhaedd drwodd hyd at wahaniad yr enaid a'r ysbryd, y cymalau a'r mêr, ac yn barnu meddyliau a bwriadau y galon." Ond y mae gemau godidog ar ei garn, a gwaith cywrain ar y wain—aml i Bezaleel ac Aholiab, yn llawn o ysbryd Duw, a doethineb, a deall, a gwybodaeth hefyd, wedi bod yn harddu yn ogoneddus y *tabernacl* lle preswylia'r Shecina—y presennoldeb dwyfol sydd yn y Gair.

Eto unwaith, y mae y wybodaeth hon o bwys tuag at gymhwyso y genadwri yn dderbyniol i'r gwrandawyr. Ac yma cyfyngwn ein hunain at un peth, sef yr hyn sydd i'w gael mewn geiriau unigol, neu mewn brawddegau, i wneyd pregethau yn ddyddorol. Bydd yn haws dangos yr hyn a feddylir mewn ddau ddernyn neu dri wedi eu dethol o bregethau (nad ydynt wedi eu cyhoeddi). Dyna un o

GAPEL GARSTON.

Ffydd, Gobaith, Cariad—tri o rasusau crefydd, a'r tri chyntaf. Yr oedd i Dafydd lawer o gedyrn a wnaethant rymusderau mawrion, ond yr oedd rhyw dri o honynt hwythau ar y blaen, ac ni chyrhaeddodd neb o'r lleill at y triwyr hyn. Ac yr oedd un yn fwyaf o'r tri. Ond y maent oll wedi myn'd, o'r lleiaf o honynt hyd y mwyaf o honynt. Y mae i wir grefydd hefyd ei chedyrn rasusau, ac yn eu rhinwedd y mae gorchestion gogoneddus wedi eu cyflawni. Y mae rhai o honynt hwythau yn myn'd heibio, prophwydoliaethau yn pallu, tafodau yn peidio, gwybodaeth yn diflanu. Ond y mae y tri chyntaf yn aros—"ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn, a'r mwyaf o'r rhai hyn yw cariad." Dyma ben-cadbeniaid y cedyrn—Jasobeam y Tachmoniad crefydd yr efengyl—a eistedd yn y gadair, yn benaeth y tywysogion, "a'r mwyaf *o'r rhai hyn* yw cariad: a chariad byth ni chwymp ymaith."

O bregeth ar agoriad

CAPEL CHATHAM STREET.

Yr Epistol at yr Hebreaid—Epistol y pethau gwell. Y mae gan yr Arglwydd Iesu yma *enw* gwell, ac y mae yn rhaid i ni felly *ddal* yn well ar y pethau a glywsom, fel y *creder* pethau gwell am danom ni. Oblegid y mae ein Harchoffeiriad ni, yn ol urdd Melchisedec, yn fwy nag Abraham, canys yr hwn sydd leiaf a *fendithir* gan ei well; fe ddygodd y gyfraith i mewn i ni *obaith* gwell, ac ar *destament* gwell y gwnaethpwyd Iesu yn Fachnïydd. Ac y mae efe yn Gyfryngwr *cyfammod* gwell—wedi ei osod ar *addewidion* gwell, a'i bethau nefol wedi eu puro âg *aberthau* gwell, Y mae genym ni *olud* gwell yn y nefoedd. ac un parhaus, ac yr ydym ni yn chwennych *gwlad* well, hyny ydyw un nefol, ac y mae Duw yn rhagweled *pethau* gwell am danom ni, mewn *adgyfodiad* gwell. Ac am ben hyn oll, "Nyni a ddaethom i fynydd Sïon, i ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol, at Iesu Cyfryngwr y Tesament Newydd, a gwaed y taenelliad, yr hwn sydd yn dywedyd pethau gwell."

O bregeth yn

PRINCES ROAD.

Y mae y drefn yn wastad yn agored. Ni ellir d'od ati ar gam amser. Yn yr oriau mân y gwibiodd edifeirwch i feddwl Pedr, pan welodd edrychiad yr Iesu. Yr oedd hi yn blygeiniol iawn, yn y cynddydd, a hi eto yn dywyll, cyn chwech o'r gloch y bore, pan ddaeth y gwragedd at y bedd, ac y cyfarfu Mair â'r Iesu. Am naw o'r gloch y tywalltwyd yr Ysbryd ar ddydd y Pentecost—onid y drydedd awr o'r dydd yw hi? Am hanner dydd, ar y ffordd i Damascus, y clywodd Saul o Tarsus y llef, "Saul, Saul, paham yr wyt yn fy erlid i?" Am dri o'r gloch prydnawn y daeth y lleidr ar y groes i fanc yr efengyl—yr awr yr y'ch chwi yn arfer cau banciau y byd

hwn; ac yr oedd hi yn bedwar pan aeth Andreas a Ioan i aros diwrnod gyda'r Iesu —ac yr oedd hi ynghylch y ddegfed awr. Yr oedd hi yn hwyrhau, a'r dydd yn dar fod, pan gymhellodd y ddau ddysgybl yr Iesu i aros gyda hwynt yn Emmaus, ac yn lliw nos pan ddaeth Nicodemus at yr Iachawdwr. Am hanner nos y siglwyd seiliau y carchar yn Philippi, ac y daeth y ceidwad i waeddi, "Pa beth a wnaf fel y byddwyf cadwedig?"

Bellach, y mae yn rhaid gadael y cwbl—y mae cymhwysderau ysbryd yn arwain i gysylltiadau rhy anhawdd ymwneyd â hwynt, ac eto dyma y rhai mwyaf pwysig. Rhaid, ar y naill law, fod cyffyrddiad dwfn o gydymdeimlad â'n cydryw—"*the touch of nature that makes the whole world kin*"—yr ysbryd dyn sydd ynddo yn adnabod pethau dyn; ac, ar y llaw arall, y cymundeb hwnw â Duw, trwy Iesu Grist, yn yr Ysbryd Glân, sydd gan y rhai y mae hysbysrwydd o olud gogoniant dirgelwch yr efengyl wedi ei roddi iddynt—y rhai *sydd*, wrth gael creadigaeth o galon lân, wedi cael hefyd "adnewyddiad ysbryd uniawn o'u mewn." Ymfoddlonwn yma ar ddyweyd mai y prif gymhwysder yn y genad ydyw y cymundeb hwn—dyma'r fan i gael yr eneiniad—yr "eneiniad oddiwrth y Sanctaidd hwnw"—cyffyrddiad y gwefusau â'r marworyn tanllyd sydd yn rhoddi llosgfa yn ngeiriau y pregethwr. Dyma ffynnonell y dyfroedd bywiol. Fel y canai Williams eto:—

"Mi ddych'myga o flaen cannoedd
Mod i yn mhulpud mawr y Gro's,
Yn pregethu gyda 'r awel
Heb arswydo dim o'r nos;
Grace yn eistedd ar fy nehau
Ac yn drachtio 'r dyfroedd byw,
Ag o'wn i'n eu tywallt allan,
Wedi eu cael tan orsedd Duw."

Y mae y papyryn hwn ar ben—dyma y cymhwysderau, neu rai o honynt, sydd i wneuthur gŵr yn brofedig gan Dduw—"yn weithiwr difefl, yn iawn gyfranu gair y gwirionedd." Y rhai'n a'i nerthant i *bregethu* y gair—i fod yn daer, mewn amser, allan o amser; i argyhoeddi, i geryddu, i annog gyda phob hirymaros ac athrawiaeth; i hyfforddi mewn cyfiawnder; fel y byddo dyn Duw yn berffaith, wedi ei gyflawn ddarparu i bob gweithred dda.

Cymerwyd rhan yn y cyfarfod wedi hyn gan y Parchn. Hugh Jones, Owen Owens, John Hughes, D.D., a'r Mri. Thomas Lloyd, D. Hughes, U.H., ac eraill. Gohiriwyd yr ymdrafodaeth hyd Gyfarfod Misol dilynol.

CYFARFODYDD PREGETHU.

LLWYNBRWYDRAU.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Ebenezer, Sul a Llun, Mai 25 a'r 26ain. Pregethwyd gan y Parchn. Dr. Saunders a T. Davies, Treorki. Casglwyd £100.

FFESTINIOG.

Cynnaliwyd y Cyfarfod Pregethu blynyddol yn y gwahanol gapelau yn yr ardal boblog hon, nos Sadwrn, Sabboth a Llun y Pasg. Pregethwyd gan y Parchn. y Prifathraw D. C. Davies. Trefecca; Dr. Hughes, Caernarfon; Dr. Saunders; Dr. Parry; Griffith Roberts, Carneddi; W. Ryle Davies, Llundain; D. Lloyd Jones, M.A., Llandinam, &c.

TALYBONT, CONWY.

Agorwyd y capel newydd yn y lle uchod, nos Fercher a dydd Iau, Mai 21 a'r 22ain. Gwasanaethwyd gan y Parchn. William Jones, Trawsfynydd; J. Puleston Jones, B.A., Bangor; ac Edward Jones, Ysw., Maer Pwllheli.

. PENTYRCH.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn y lle hwn Llun a Mawrth, Mai 26 a'r 27ain. Pregethodd y Parchn. W. Jones, Treforris; a H. Barrow Williams, Llandudno.

DOLYDDELEN.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yma ddydd Llun y Sulgwyn. Pregethodd y Parchn. W. R. Jones, Caergybi; W. Jones, Liverpool; J. Griffiths, Southport; a S. Owen, Tanygrisiau.

LIBANUS, DOWLAIS.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu y Capel uchod Sul a Llun, Mai 18 a'r 19eg. Gwasanaethwyd gan y Parchn W. John, Penybont, a W. Prydderch, Goppa.

PENUWCH, LLANGEITHO.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn y lle uchod Mawrth a Mercher, Mehefin 3ydd a'r 4ydd. Gwasanaethwyd gan y Parchn. J. Cynddylan Jones, D.D., Caerdydd; H. W. Thomas, Solva; a T. E. Thomas, Llanymddyfri.

MORIAH, MYNYDD CYNFFIG.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn y lle hwn Sul a Llun, Mai 25 a'r 26ain. Gwasanaethwyd gan y Parchn. Thomas Edwards, Cwmafon; John Morgan, Abercynffig; a Moses Thomas, Resolven.

PENRHYNDEUDRAETH.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Nghapel Nazareth, Sul a Llun, yr 8 a'r 9fed o Mehefin. Pregethodd y Parchn. Robert Jones, Rhos; D. C. Evans, Menai Bridge; a William Jones, Treforris.

GLANADDA, BANGOR.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn y lle hwn Mehefin 10 a'r 11eg. Pregethodd y Parchn. R. H. Morgan, M.A., Menai Bridge; Thomas Jones, Dwyran; J. Puleston Jones, B.A., Bangor; Dr. Hughes, Caernarfon; W. Jones, Felinheli; E. Jones, Maer Pwllheli; Hugh Williams, Gwalchmai; a J. Hughes Griffiths, M.A., America.

SILOH, CAERNARFON.

Nos Lun a dydd Mawrth, Mehefin 23 a'r 24ain, cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu y capel uchod. Pregethodd y Parchn. Abraham Roberts, Liverpool; John Hughes, Carneddau; a J. J. Roberts, Portmadoc.

VICTORIA, EBBW VALE.

Mai 18fed, cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu Blynyddol Victoria, Ebbw Vale. Pregethwyd i gynnulleidfaoedd lliosog dair gwaith y Sabboth, ac hefyd nos Lun, gan y Parch. James Donne, Llangefni.

CAPEL GARMON.

Sulgwyn, a'r Llun canlynol, cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu Capel Garmon. Y pregethwyr oeddynt E. Jones, Ysw., Maer Pwllheli; y Parchn. Francis Jones, Abergele; a James Donne, Llangefni.

CARMEL, TREFFYNNON.

Mehefin 9 a 10fed, cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu Blynyddol Carmel, Treffynnon. Pregethwyd gan y Parchn. Evan Jones, Adwy'r Clawdd; Robert Jones, Rhosllanerchrugog; a James Donne, Llangefni.

MARWOLAETHAU PREGETHWYR.

MARWOLAETH Y PARCH. O. PARRY-OWEN, LLANBEDR.

Nos Lun, Mai 19eg, bu farw y gweinidog ieuanc gweithgar ac addawol, y Parch. O. Parry-Owen, yn yr oedran cynnar o 29. Yr oedd ef wedi ei fagu yn Abermaw. Gadawyd ef yn amddifad o dad a mam yn dra ieuanc, ond gweithiodd ei ffordd trwy lawer o anhawsderau i sefyllfa o barch a defnyddioldeb. Symudodd o'r Abermaw at ei frawd i Rhostryfan, Sir Gaernarfon, ac yno y dechreuodd bregethu. Bu o dan addysg yn Nghlynog am dymmor byr, ac yna aeth i Athrofa y Bala. Cyn gorphen ei efrydiaeth yno, ymunodd â Chyfarfod Misol Gorllewin Meirionydd, gan wneuthur ei gartref yn Mhennal, gyda'i ewythr, Mr. Rees Parry. Ymsefydlodd yn Abermaw, trwy ymbriodi â Miss Jones, o Porkington Terrace, ac yn fuan ymgymerodd â bod yn weinidog yr Eglwys Saesoneg yno. Bu am flwyddyn drachefn yn weinidog ar eglwysi Tregynon a Beulah, Trefald wyn Isaf. Ac yn mis Ionawr diweddaf dychwelodd yn ol i Orllewin Meirionydd, trwy dderbyn galwad eglwysi Llanbedr a'r Gwynfryn. Aeth trwy yr holl symudiadau hyn gyda mesur o gyflymdra, fel pe buasai Rhagluniaeth yn eglur awgrymu mai byr oedd ei ymdaith ddaearol i fod. Yr oedd yn cyflymu ymlaen hefyd mewn cymeradwyaeth yn yr eglwysi y bu yn llafurio ynddynt. Rhoddodd brofion tra eglur ei fod yn meddu talent i bregethu yn y ddwy iaith. Yr oedd yr elfen weithgar hefyd yn amlwg iawn ynddo, ac y mae yn ddiammheu ei fod yn un o'r llenorion goreu, os nad y goreu oll, ymhlith ei gyfoedion. Er nad ydoedd o gyfansoddiad cryf, ychydig a feddyliai neb fod terfyn ei yrfa mor agos. Cymerwyd ef yn glaf yn lled sydyn tua chanol mis Mawrth, ac yr oedd ei afiechyd yn gyfryw fel na chafodd fawr ddim hamdden i amlygu ei feddwl gyda golwg ar y cyfnewidiad yr oedd yn myned trwyddo. Hunodd yn dawel, megys heb wybod iddo ei hun na'i berthynasau. Claddwyd ef y dydd Gwener canlynol yn mynwent Llanaber, gerllaw Abermaw, yn ol y drefn newydd o gladdu, gydag arwyddion o alar a pharchedigaeth mawr. Nawdd y Nef a fyddo dros ei weddw a'i blant bach.

R. Owen.

Pennal.

Rhaid gadael y Nodiadau ar farwolaeth y Parchn. Evan Williams, Morfa Nefyn, a R. E. Roberts, Wyddgrug, hyd y Rhifyn nesaf.

Nodiadau Misol.

MERCHED YN DRINGO.

Merch ieuanc sydd y flwyddyn hon, yn ymarferol, er nad yn ffurfiol (am na chaniatâ y rheolau) wedi ennill y safle uchaf yn Mhrifathrofa Caergrawnt—a'r uchaf mewn *Mathematics* yn y deyrnas, os nad yn y byd, sef y *Senior Wranglership*. Dyma beth newydd ar y ddaear. Sicr yw na welwyd mo hono erioed o'r blaen. Miss Fawcett, merch y diweddar Aelod Seneddol a'r Post-feistr Cyffredinol

(y gŵr dall fel y cofia'n darllenwyr) yw yr un a ddringodd fel hyn yn uwch na'r *Senior Wrangler*, ac felly, yn unol â phenawd erthygl ar hyn yn un o'r papyrau, yn "uwch na'r uwchaf." A hynod iawn fod merch ieuanc eto wedi ennill un o'r safleoedd uchaf, yn y brif adran arall o'r efrydiau, yn yr un Brifysgol, sef yr adran glasurol. Saif yn un o'r pedwar a wnant i fyny yr adran gyntaf o'r dosbarth cyntaf o'r efrydwyr clasurol. Miss Alford yw y ferch ieuanc hon, merch ficer St. Luke's, Llundain, a nith i'r diweddar Alford, Deon Caergaint, awdwr yr Esboniad adnabyddus ar y Testament Groeg. Deallir mai nid hi oedd y gyntaf o'r pedwar, gan fod yr enwau wedi eu rhoddi yn ol y wyddor, ond y mae yn un o'r pedwar cyntaf. Y mae merched ieuainc hefyd wedi cymeryd *Honours* yn y *Tripos* perthynol i Wyddoniaeth Naturiol a Hanesiaeth. Ceir erthygl yn y *Saturday Review* ar lwyddiant Miss Fawcett, a dywed yr ysgrifenydd ei fod bellach wedi ei brofi nad yw llwyddiant mewn arholiadau yn effeithio yn niweidiol ar iechyd genethod ieuainc. O'n rhan ni, nis gallwn gredu hyn. Anhawdd iawn genym feddwl fod cyfansoddiad *fine* a thyner merch wedi ei fwriadu i ddwyn y fath draul ddirfawr ag a olyga llwyddo i gyrhaedd y safleoedd uchaf hyn. Y mae yn ffaith fod lliaws o ddynion ieuainc yn eu prynu yn rhy ddrud—yn aberthu iechyd, defnyddioldeb, a chysur eu hoes er mwyn eu cyrhaedd. Nid yw enwau y merched ieuainc sydd yn gwerthu eu hiechyd a'u nerth, o leiaf i fesur mawr, yn yr ymdrech i gyrhaedd y safleoedd uchaf yma yn y Prifysgolion, ac yn aflwyddo, yn dyfod i'r golwg. Ac hyd yn nod am y rhai sydd yn llwyddo, amser yn unig all esbonio faint y pris a dalasant am yr anrhydedd.

SEFYDLIAD DR. BARNARDO.

Cynnaliodd Dr. Barnardo ei gyfarfod poblogaidd yn yr Albert Hall, Llundain, nos Fercher, Mehefin y 18fed. Yr oedd yn agos i wyth mil o bobl yn bresennol. Llywyddid gan un o feibion-yn-nghyfraith y Frenines, y *Marquis of Lorne*. Gelwid amryw o'r bechgyn sydd dan addysg i fyny ar yr esgynlawr i ddangos eu medrusrwydd yn y gwahanol orchwylion a ddysgid iddynt—rhai yn llifio, eraill yn pwytho, eraill yn hollti coed, eraill yn gwneyd esgidiau, ac eraill yn tylino toes. Gwna y gŵr hwn yn ddiau ddaioni dirfawr, er ei fod yn lled fynych yn cael ei hun "mewn dwfr poeth."

Cofnodau Cymanfaol.

CYMDEITHASFA CRUGHYWEL,

Ebrill 14, 15, a'r 16eg, 1890.

Llywydd,—Y Parch. E. Phillips, Castellnewydd-Emlyn.

(*Parhad o tu dal.* 234.)

XVIII. *Llythyr i'r Parch. T. C. Edwards, M.A., D.D.*—Hysbysodd yr Ysgrifenydd ddarfod i'r Parch. Dr. Charles Edwards, pan yr ydoedd ar gychwyn i America, anfon ato ef am lythyr aelodaeth fel gweinidog o'r Cyfundeb, ac iddo yntau ysgrifenu y cyfryw lythyr a'i anfon ar unwaith, am nad oedd amser i'w golli. Ond yn awr cynnygiai,—Fod y Gymdeithasfa yn anfon ail lythyr, wedi ei arwyddnodi gan y Llywydd a'r Ysgrifenydd, yn ei gyflwyno, fel gweinidog ordeiniedig rheolaidd o'n Cyfundeb, i gymdeithas ein hanwyl frodyr yn yr Unol Dalaethau yn ystod ei ymdaith yno, gan ddymuno iddo gael ei dderbyn, fel cynnrychiolydd Cymdeithasfa y Methodistiaid Calfinaidd yn Neheudir Cymru, i holl lysoedd yr enwad y dygwydd iddo fod yn bresennol ynddynt yn America. Ein bod ymhellach yn dymuno ar i Dr. Edwards gyflwyno ein cofion mwyaf serchog ac anwyl i'r holl Gyfundeb Methodistaidd yn y wlad hono; a'n gweddi ydyw ar iddo ef a'i anwyl briod gael bod o dan amddiffyn a nodded arbenig y goruchaf Dduw yn eu holl deithiau, ac y cawn ŷ fraint o'u gweled wedi dychwelyd eto yn iach a diogel i dir eu gwlad. Eiliwyd gan y Parch. T. Levi, a chymeradwywyd gyda brwdfrydedd mawr.

XIX. Darllenwyd a chadarnhawyd holl benderfyniadau y Cyfeisteddfod.

XX. *Adroddiad Trysorfa y Gweinidogion.*

Cyfanswm y derbyniadau am 1889 yoedd £889 7s.; a thalwyd allan 897p. 10s. 8½c. Derbyniwyd 11 o aelodau newyddion, bu farw 4 aelod, ac y mae 2 eraill wedi eu symud er dechreu y flwyddyn bresennol. O'r 6 hyn gadawodd 4 weddwon. Symudwyd dwy o'r gweddwon yn 1889, ac y mae dwy eraill wedi marw er dechreu 1890. Felly mae nifer y gweddwon yn awr ar y rhestrau yn aros yr un â'r llynedd. Talwyd blwyddaliadau i 6 o frodyr methedig oblegid henaint, dau o ba rai sydd erbyn hyn wedi dianc i'r wlad well, sef y Parchn. T. Lamb a D. Anthony. Bu 5 o'r aelodau yn gystuddiol dros yr holl flwyddyn, brodyr cymharol ieuainc; ac y mae dau o honynt hwythau wedi eu symud i'r lle na ddaw cystudd yn agos atynt. Rhoddwyd cynnorthwy mewn 22 o achosion o gystudd heblaw hyny, a blwydd-dâl i ddau blentyn amddifad. Yr ydym yn gosod i lawr y gofynion am 1890 yn £870. Bydd arian yr aelodau a'r llogau yn debyg i'r un swm. Dylid, gan hyny, cael tanysgrifiadau a chyfraniadau gan yr eglwysi yn cyrhaedd o

leiaf £30. Penderfynwyd,—(1) Fod y Gymdeithasfa yn cydnabod yn ddiolchgar wasanaeth Pwyllgor Gweithiol a holl swyddogion y Drysorfa am y flwyddyn a aeth heibio. (2) Fod y brodyr canlynol yn cael eu penodi yn Bwyllgor Gweithiol am y flwyddyn ddyfodol:—Parchn. T. Levi, Dr. Edwards, John Bowen, E. P. Jones, Ll. Edwards, a J. G. Davies, ynghyd a Mri. R. J. Davies, James James, D. C. Roberts, Evan Evans, L. Lloyd, a D. Samuel—oll o Aberystwyth a'r gymydogaeth. Penderfynwyd ychwanegu y penderfyniad canlynol o eiddo y Pwyllgor Gweithiol,—Fod gohirio ystyriaeth y rheolau hyd nes y cwblheir yr ymchwiliad a nodir yn mhenderfyniad Cymdeithasfa Llanddewi, Mehefin, 1888.

XXI. *Album Williams Pantycelyn.*—Galwyd sylw at y llyfr prydferth hwn gan y Parchn. J. Davies, Pandy, T. Levi, ac eraill. Dywedwyd ei fod yn cynnwys eglurhad ar amgylchiadau yn hanes y bardd nad ydynt i'w cael mewn un llyfr arall, ac ar achlysuron cyfansoddiad rhai o'i brif emynau sydd yn taflu goleuni arbenig arnynt. Hefyd, fod y darluniau yn ychwanegu llawer at werth y gyfrol, ac yn gyfryw na chyhoeddwyd eu bath erioed o'r blaen mewn Llyfr Cymraeg. Penderfynwyd ein bod yn ei fawr gymeradwyo i sylw ein cynnulleidfaoedd a'n Hysgolion Sabbothol, gan eu hannog i'w bwrcasu a'i ddarllen.

XXII. *Brodyr Cystuddiol.*—Y Parch. E. Matthews.—Cafwyd hanes calonogol iawn gan y Parch. W. John a T. E. Edwards, am ei adferiad graddol ond sicr o'i flin gystudd a'i wendid, a datganwyd llawenydd mawr gan y Gymdeithasfa wrth glywed hyn, a phenderfynwyd ein bod yn anfon ein cofion caredicaf ato, a'n bod yn gorfoleddu yn y gobaith y cawn yn fuan y fraint o'i weled yn ein plith megys cynt.—Y Parch. B. Morris.—Darllenwyd llythyr maith a dyddorol oddiwrth Mr. Morris yn ateb i gofion y Gymdeithasfa ato, a phenderfynwyd ei fod yn cael ei gyhoeddi yn llawn yn y *Goleuad* neu y Drysorfa, a'n bod yn anfon ein cofion a'n cydymdeimlad iddo eto yn ei neilduaeth a'i wendid.—Y Parch. W. Morris, Llandudoch.—Blin oedd gan y Gymdeithasfa ddeall fod Mr. Morris yn parhau yn analluog i gyflawni gwaith ei swydd, a phenderfynwyd ein bod yn anfon llythyr ato yntau yn dadgan ein serch tuag ato, a'n cydymdeimlad dyfnaf âg ef yn ei gystudd a'i wendid parhaol.

XXIII. *Brodyr Ymadawedig.*—Parchn. J. Pritchard, Amlwch, yr hwn a fu farw pan ar ei daith adref o'r Gymdeithasfa ddiweddaf yn y Borth; D. James, Llaneurwg; D. Anthony, Abertawe; D. Morgan, Llandilo; A. Evans, Kidwelly; J. Lewis, Llwynhendy; a D. Morgan, Ystradgynlais. Penderfynwyd,—Ein bod yn gohirio gwneyd sylwadau ar gymeriadau y brodyr ymadawedig hyd y Gymdeithasfa nesaf, gan y dysgwylir y bydd yno fwy o amser, ond fod yr Ysgrifenydd i anfon ein cofion a'n cydymdeimlad i'w perthynasau galarus o'r Gymdeithasfa hon.

XXIV. *Jiwbili y Genadaeth Dramor.*—Yn bresennol ar ran yr achos hwn, y Parch. G. Ellis, M.A.—Yn gyntaf oll dymunai y Parch. G. Ellis ddadgan ei deimlad dwys o herwydd y newydd trist am farwolaeth Mr. T. Jerman Jones, yr hwn oedd wedi ein taraw oll â synedigaeth. Yr oedd Mr. Jones yn un o'r cenadon goreu a anfonwyd allan erioed, nid yn unig gan ein Cymdeithas ni, ond gan unrhyw Gymdeithas. Yr oedd y Gymdeithas wedi ei sefydlu bellach er's 50 mlynedd; a'r fath lwyddiant wedi bod ar ei gweithrediadau ag oedd yn galw arnom i wneuthur ymdrech egnïol i eangu ei therfynau. Enwasid tri o amcanion neilltuol i gyrchu atynt:—1. Addysg effeithiol i'r Efengylwyr Brodorol. Dysgwylid y byddai amryw o'r rhai hyn wedi eu hordeinio cyn diwedd y flwyddyn hon. Ni fwriedid anfon ychwaneg o genadon i'r Bryniau, gan y credid mai trwy y brodorion eu hunain y gellid yn fwyaf effeithiol gwblhau y gwaith o'u hefengyleiddio. Pwysig gan hyny oedd rhoddi iddynt yr addysg briodol er eu cymhwyso at eu gwaith. Yr anhawsder oedd sicrhau cynnaliaeth iddynt tra yn y Sefydliad Duwinyddol; ac apeliai Mr. John Roberts am fil neu ddwy o bunnau er darparu nifer o ysgoloriaethau i'r Efengylwyr. 2. Rhoddi y Genadaeth Feddygol mewn gwell maintais i wneyd y gwaith rhagorol oedd eisoes yn cael ei wneyd trwyddi. Ar y mater hwn nid oedd ganddynt gynlluniau addfed; ond nid oedd ammheuaeth na welid yn anghenrheidiol cysegru rhyw gyfran o gasgliad y Jiwbili at yr amcan. 3. Cychwyn yn deilwng y gwaith yn Sylhet. Rhoddasid y maes hwn i fyny am lawer o flynyddoedd, gan obeithio y cymerid y gwaith i fyny gan ryw genadaeth arall. Ond edrychai pob cenadaeth arno fel ein maes priodol ni, gan ei fod yn gorwedd wrth droed y Bryniau. Ceid yr anhawsderau yno yn ddiau yn llawer mwy nag yn Khasia a Jaintia, am mai Hindwaid a Mahometaniaid yw y trigolion. Ac os ydym am wneyd rhyw argraff ar y ddwy filiwn sydd yno yn eistedd "yn mro tywyllwch a chysgod angeu," rhaid oedd anfon allan nifer o frodyr a chwïorydd i lafurio yn en plith. Yn awr, nid oedd genym ond un brawd ac un chwaer ar gyfer y maes i gyd! A "beth yw hyny rhwng cynifer?" Os gweithio y maes o gwbl rhaid gwneyd hyny o ddifrif. Ond cyn y gellid gwneyd y pethau hyn rhaid oedd cael casgliad grymus ar flwyddyn y Jiwbili,—dim llai nag ugain mil o bunau. Dymunai ef eu hargyhoeddi o hyn,—mai nid mympwy wag oedd y symudiad, ond yn hytrach un cwbl hanfodol er sicrhau yr amcanion ag yr oedd bys Rhagluniaeth ddwyfol mor amlwg yn cyfeirio atynt. Er's blynyddau bellach yr oedd ein treuliau yn fwy na'n derbyniadau. Ar ddiwedd 1878 yr oedd gan y Gymdeithas ar log £12,065; ond ar ddiwedd 1888 y swm oedd £7679; yr hyn oedd yn lleihad tra difrifol, ac yn dangos y byddai yn anmhosibl dwyn y gwaith ymlaen fel y gwneir yn awr, heb son am ei eangu, ond am ychydig iawn o amser, oddieithr i gynnydd sylwedd-

ol gymeryd lle yn y cyfraniadau. Ac ar y tir hwn yr oeddid yn dadleu am ugain mil o bunnau eleni, nid er mwyn ffurfio *Reserve Fund*, ond i'w treulio yn raddol o flwyddyn i flwyddyn, oddigerth yr hyn a osodid o'r neilldu er mwyn *scholarships*, gan ddysgwyl i'r casgliadau blynyddol ddyfod yn raddol yn fwy teilwng o honom fel Cyfundeb, ac yn fwy teilwng hefyd o'r gwaith mawr a ymddiriedwyd i ni i'w gyflawni. Apeliai yn ddifrifol am gasgliad arbenig eleni, ar wahan i'r casgliad arferol, ond heb niweidio dim ar hwnw, er ein galluogi i sicrhau yr amcanion teilwng oedd o'n blaen. Dywedai fod rhai lleoedd eisoes yn gweithio yn rhagorol, fel nad oedd dim yn eisieu ond cael yr un ysbryd a'r un ymdrech yn yr holl Gyfundeb er sicrhau yr ugain mil. Yr oedd y Parchedig Dr. Charles Edwards wedi addaw £50, a'r Parchedig Thomas Levi yr un swm at y gronfa; a hyderai y byddai yr un ysbryd haelionus yn disgyn ar holl weinidogion, pregethwyr, blaenoriaid, ac aelodau y Cyfundeb. Hyderai hefyd y gwneid ymdrech gydwybodol i godi y casgliad blynyddol at y Gymdeithas wedi i flwyddyn y Jiwbili fyned heibio.

Penderfynwyd,—Ein bod yn cyflwyno ein diolchgarwch mwyaf diffuant i'r Parch. G. Ellis, M.A., am dalu ymweliad â'n Cymdeithasfa, ac am ei araeth rhagorol ar ran Jiwbili y Genadaeth, a'n bod yn annog yr holl gynnrychiolwyr i gario y tân gartref, ac yn galw yn ddifrifol ar y gwahanol Gyfarfodydd Misol a'r eglwysi i ddeffro i wneyd eu dyledswydd gyda'r Drysorfa hon, ac i osod ein talaeth ar dir anrhydeddus yn ei pherthynas â'r Genadaeth Dramor. Amlygwyd dymuniad ar i Mr. Ellis ddyfod ar daith trwy y siroedd ar ran yr achos hwn. (Methodd Dr. Griffiths gyrhaedd erbyn y cyfarfod hwn.)

XXI. *Hanes yr Achos yn y Sir, gan y Parchn. J. Davies a D. Rhys.*—Penderfynwyd,—Fod hanes yr achos yn y Sir gan y Parchn. D. Rhys a J. Davies i gael ei osod yn gymharol gyflawn yn y cylchlythyr yn lle ei ddarllen ar y pryd.

Adroddiad o Ystadegau Cyfarfod Misol Brycheiniog am y flwyddyn 1889, *yr hwn a gyflwynwyd i Gymdeithasfa Crughywel, Ebrill* 14—16, 1890.

Rhif y Gweinidogion, 30; y Pregethwyr, 5; yr Eglwysi, 57; Capelau a lleoedd pregethu, 60; y Bugeiliaid, 23; yr Eglwysi dan ofal Bugeiliaid, 49; y Blaenoriaid, 159; y Cymunwyr, 2733; ar brawf yn yr Eglwysi, 14; y plant magedig yn yr Eglwys, 1304. Derbyniwyd i Gymundeb o'r byd, 70; o had yr Eglwys, 62; drwy Lythyrau, 127; adferwyd, 8; rhif yr Aelodau a fuont feirw, 73; y rhai a ymadawodd trwy lythyrau, 165; y rhai a wrthgiliodd ac a ymadawsant heb lythyrau, 38; y rhai a ddiarddelwyd, 13; y plant a fedyddiwyd, 78; y Gwrandawyr, 6961.

Yr Ysgol Sabbothol.—Rhif yr Ysgolion Sabbothol, 62; y Swyddogion, Athrawon ac Athrawesau, 461; yr Ysgolheigion ar y llyfrau, 3689; y ddau uchod ynghyd yn cynnwys 4150; nifer y Dirwestwyr mewn oed, 754; nifer aelodau y *Band of Hope*, 565.

Y Cyfrifon Arianol.—Ardreth yr eisteddleoedd, tai a meddiannau eraill, £370 15s. 2c.; casglwyd at y Weinidogaeth, £1969 11s. 9c. at y Tlodion, £13 0s. 10½c.; at y Genadaeth Dramor, £127 1s. 7½c.; at y Genadaeth Gartrefol, £38 15s. 2c.; at ddyled y Capelau, £312 17s. 3c.; at wasanaeth yr Ysgol Sul, £124 3s. 3c.; at yr Achosion Gweiniaid, £17 12s. 6½c.; at achosion eraill, megys Trysorfa y Sir, £42 4s. 4c., traul cadw Cyfarfodydd Misol £66 3s.; y Fibl Gymdeithas £94 6s. 10½c., a phethau eraill £350 1s. 6c.—£552 15s. 8½c.; cynnydd, £13 13s. 2½c. Cyfanswm, £3546 13s. 4c. Dyled bresennol y Sir, £2564.

Wrth gymharu yr ystadegau hyn â'r rhai a ddarllenwyd yn Nghymdeithasfa Talgarth flwyddyn i'r Hydref diweddaf, gwelir fod y Cyfarfod Misol hwn wedi cynnyddu mewn 4 o weinidogion, ac un blaenor yn ychwaneg, ac mewn 45 o gymunwyr. Ac y mae nifer y gwrandawyr wedi cynnyddu 106. Cawn hefyd fod yr athrawon a'r athrawesau yn fwy o 2, a'r ysgolheigion yn fwy o 369. Ond er y cynnydd yn y pethau a nodwyd, y mae genym i gofnodi llei hâd yn nifer y plant a fegir yn yr eglwysi o 133, y dirwestwyr yn llai o 94, gobeithlu, 49.

Hefyd, wrth gymharu y cyfrif arianol, mae genym i gofnodi cynnydd agos ynglŷn â phob casgliad, gydag un eithriad neu ddau, sef casgliad at y Ddyled a chasgliad at y Tlodion. Mae cynnydd yn y casgliad at y Weinidogaeth o £116 16s. 9½c. Ac y mae cynnydd yn y casgliad at y Genadaeth Dramor o £38 5s. 10c.; ac at y Genadaeth Gartrefol o £1 11s. Mae y casgliad at y Fibl Gymdeithas yn fwy o £16 10s. 3½c.; ac at y Lleoedd Gweinion, £2 3s. 5c. Talwyd o ddyled y Capelau, £312 17s. 3c. Teg ydyw gwneyd sylw eithriadol o un eglwys yn y Sir yn y cyfeiriad hwnw, sef Talgarth, talodd £205 o'i dyled yn y flwyddyn, yr hyn oedd yn gwneyd i ffwrdd â'r holl ddyled. Talodd £400 mewn wyth mlynedd. Y mae y wedd galonogol sydd ynglŷn â'r ystadegau am y flwyddyn o'r blaen yn brawf nad ydyw y Sir hon yn ddilafur nac ychwaith yn ddiepil. Yr hyn sydd arnom ei anghen ydyw tywalltiad helaeth o'r Ysbryd Glân, gobeithio y cawn ni ef ynglŷn â'r Gymdeithasfa hon.—D. Rhys, *Ysg.*

Mae ein bod ni yn cadw i fyny ein rhif yn y Sir hon yn golygu rhyw gymaint o lwyddiant, gan fod nifer mawr o'n haelodau yn ymadael yn flynyddol i Siroedd eraill. Mae y llanw heisonig yn dyfod yn uwch bob blwyddyn. Pymtheng mlynedd yn ol, pan fu y Gymdeithasfa yn Nghrughywel ddiweddaf, nid oedd ond un capel yn y dosbarth hwn lle yr oedd y gwasanaeth yn cael ei ddwyn ymlaen yn gyfangwbl yn yr iaith Saesoneg; erbyn heddyw nid oes ond un capel yn y dosbarth lle mae yr holl wasanaeth yn Gymraeg, ac mae y cyfeillion yn dechreu dyfod â rhyw gymaint o Saesoneg i mewn i'r capel hwnw. Ar y cyfan, y mae golwg bur lewyrchus ar yr achos o fewn i gylch y Cyfarfod Misol, gan eithrio rhai o'r hen leoedd yn Maesyfed. Mae amgylchiadau y wlad wedi newid cryn lawer er pan blanwyd yr eglwysi hyn, fel y mae y Cyfarfod Misol wedi enwi pwyllgor i ad-drefnu y teithiau, a threfnu rhyw lwybr iddynt gael gweinidogaeth fwy cyson, a mwy o honi. Mae y rhan hosocaf o'r eglwysi o fewn i gylch ein Cyfarfod Misol yn fychain, ond y maent mewn sefyllfa iachus.

Nid oes ammheuaeth nad oes llawer iawn o ddynion wedi myned i'r nefoedd o'r eglwysi bychain hyny sydd wedi costio llawer o ymdrech a llafur trwy y blynyddoedd i gael gweinidogaeth iddynt, ac y mae hyn yn ddigon o dâl am bob traul a thrafferth ydys wedi myned iddo.

Am yr eglwysi Cymraeg sydd wedi myned

yn raddol yn Saesoneg, y maent oll yn llewyrchus ac addawol, ac yn llawn mor ysbrydol a phan oeddynt yn eglwysi Cymreig, ac, yn sicr, â llawer mwy o fywyd ynddynt, ac hefyd yn llawn cystal Methodistiaid. Y mae y gwasanaeth yn cael ei ddwyn ymlaen ynddynt yn syml, ac ymdrech yn cael ei ddangos i gadw allan bob peth sydd â thuedd ynddo i anmhuro chwaeth y bobl ieuainc, ac i anghrefyddoli eu calon. Mae yma bob ymdrech yn cael ei wneyd i gadw i fyny ddysgyblaeth eglwysig. Fe allai nad ydym mor llym yn hyn o beth a'n tadau, eto nid ydym yn gadael i wirionedd syrthio yn yr heol. Gan mai amaethyddol yw ein Sir ni, nid yw y chwareuon poblogaidd sydd yn llygru pobl ieuainc rhai Siroedd yn bethau mor gyffredin yn ein Sir ni. Mae moddion gras yn cael eu mynychu yn weddol, er mai cryn achwyn sydd ymhob parth o'r wlad fod y cynnulleidfaoedd yn deneu ar foreu Sul.

Er nad yw yr achos dirwestol yr hyn a ddylai fod, diau ei fod yn uwch nag y mae wedi bod yn y Sir hon erioed. Mae yn ammheus genym a ydyw yn uwch mewn unrhyw dref yn Neheudir Cymru nag ydyw yn nhrefi y Sir hon. Y mae cryn gyfnewidiad wedi cymeryd lle yn y rhanau amaethyddol gyda golwg ar y diodydd meddwol. Tra nad yw y gyfraith yn gwahardd i'r amaethwr i roddi pethau meddwol i'r gweithiwr fel *rhan o'r tâl* am ei lafur, mae genym rai amaethwyr yn codi eu cynhauaf heb un dyferyn o ddiodydd meddwol o gwbl.

Y mae yr Ysgol Sabbothol yn llewyrchus yn y rhan fwyaf o'r Sir, ac yn neilltuol felly mewn rhai manau, er mai ychydig sydd yn myned i'r Arholiad Sirol. Y mae wedi bod yn gŵyn yn ystod y blynyddoedd diweddaf mai Cymraeg oedd y *text-books*, ac mai yn Gymraeg y mae yr eglurhad ar y gwersi yn dyfod allan.

Gyda golwg ar y Cyfarfod Misol, nid oes un yn fwy heddychol yn y Cyfundeb. Yr ydym yn rhoddi un cyfarfod ymhob Cyfarfod Misol i drin mater ysbrydol. Yr ydym yn cadw i fyny bregethu yn y Cyfarfod Misol o'r dechreu i'r diwedd—bydded y lle mewn tref neu mewn gwlad. Nid ydyw prysurdeb y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi peri i ni gwtogi dim ar y pregethu yn y Cyrddau Misol.

A chymeryd golwg gyffredinol ar yr achos yn ein mysg, yn y blaen y mae yn myned; ac fel yr arferai y diweddar Barch. Joseph Thomas, Carno, ddywedyd, "Y ffordd sicraf i beidio myned yn ol yw myned ymlaen."—J. Davies.

Cyfarfod Cenadol am 6 o'r gloch.

Cadeirydd, Mr. R. J. Davies, U.H., Cwrtmawr. Cafwyd anerchiadau gan y Parchn. G. Ellis, M.A., a Dr. Griffiths, a phasiwyd y penderfyniad canlynol:—"Ar ol gwrando yr areithiau a draddodwyd gan y Parchn. G. Ellis, M.A., a Dr. Griffiths,—Ein bod yn teimlo yn ddiolchgar iddynt hwy am dalu ymweliad â ni fel Cymdeithasfa, ac yn llawenhâu wrth glywed am y llwyddiant sydd yn parhau i ddilyn llafur ein cenadwr ar Fryniau Khasia, a'n bod yn dymuno am barhad yr amddiffyn dwyfol dros Dr. Griffiths a'i deulu nes y dychwelo eto i faes ei lafur, a bendith y goruchaf Dduw ar ei ymdrechion ef a'r cenadon eraill i ddwyn eneidiau at Grist. Nis gallwn ymatal rhag gwneyd cyfeiriad at ymadawiad y Parch. T. Jerman Jones, yr hwn a fu farw am ddau o'r gloch ddydd Llun diwedd af, ar fwrdd y llong, pan ar ei ffordd adref, ac yn ymyl glanio yn Llundain: ac yr ydym yn dymuno dadgan ein gwerthfawrogiad o'i wasanaeth mawr i'r Genadaeth, a'n cydymdeimlad dyfnaf â'i weddw yn y brofedigaeth chwerw sydd wedi ei gorddiwes.

W. James, *Ysgrifenydd.*

Lloffion.

Y TRYDYDD MEDDWL.

Sylwa un mai dyma yw hanes cyffredin dynion sydd yn llafurio yn myd y meddwl:—1. Y maent yn aros yr un o ran eu barn am rai pethau ar hyd eu hoes—y pethau y dysgwyd hwynt ynddynt, ac hefyd a feddyliasant allan iddynt eu hunain. Neu ynte, yn 2 Y maent yn newid eu barn am amryw bethau ar ol darllen a meddwl. Tywyna goleuni newydd ar aml bwnc, a newidiant hwythau eu barn am dano. Ond y mae rhai yn myned trwy brofiad arall eto, ychwanegol at y ddau nodwyd. 3. Ar ol newid yr hen farn gyntaf trwy gael goleuni newydd, y maent yn myned i feddwl drachefn, a meddwl yn ddyfnach; a'r canlyniad yw eu bod yn dyfod i weled mai yr hen olygiad cyntaf oedd yn iawn wedi'r cwbl. Ac y maent yn awr yn gadarnach yn yr hen farn nag y buont erioed.

Onid y meddylwyr mwyaf, fel rheol, sydd yn myned amlaf trwy y profiad olaf a nodwyd—dynion y trydydd meddwl? Dywed un awdwr mai i'r dosbarth hwn yn arbenig y perthynai Coleridge. Geilw ef *a third-thoughted man.* Onid oedd y diweddar Dr. Edwards, Bala, hefyd, yn hoff o'r "trydydd meddwl?' Gwelsom ef fwy nag unwaith nid yn unig yn ddigon gonest i ymadael âg unrhyw hen farn, pan yr ymddangosai fod goleuni newydd wedi dangos ei geudeb,—ond yn ddigon gwrol i dystio fod ymchwiliad pellach wedi ei argyhoeddi mai hûd-lewyrch oedd y goleuni newydd, ac mai'r hen olygiad oedd yn iawn wedi'r cwbl—fe, ac mai yr hen olygiad oedd y mwyaf dwfn ac athronyddol. Llawenychai pan wedi cael allan fod yr hen olygiad yn gorphwys ar sylfaen ddisigl.—G.

MAWREDD A THYNERWCH YR IESU.

Dylem ymarfer ein hunain i fyfyrio ar yr holl eiriau hyny o eiddo yr Iesu, lle y mae y *ddwy* elfen, y gogoniant a'r gras, y mawrhydi a'r tynerwch, yn ymddangos mewn cyfuniad rhyfeddol. Canys y mae yn y cyfuniad hwnw rywbeth nodedig o gyfaddas, o dan ddysgeidiaeth yr Ysbryd Glan, i ddiarfogi yr enaid o'i holl eiddigeddau a'i ammheuon, a'i gymhell i waeddi, "Llais fy anwylyd yw,"—"Gosod fi megys sêl ar dy galon, fel sêl ar dy fraich,"—Gâd i mi fod bob amser yn nwylaw y fath Un, yn ei fawrhydi yn alluog, ac yn ei dynerwch a'i ras annhraethol yn ewyllysgar, i gyfarfod âg amgylchiad fy enaid hyd yr eithaf—"Yr wyf fi yn credu, O Arglwydd; cymhorth fy angheduiaeth!"—*Dr. Charles J. Brown.*

DAFYDD CADWALADR A DAFYDD ROLANT.

Y mae yn hysbys fod Dafydd Rolant yn ŵr

ieuanc o'r fath fwyaf gwladaidd a diaddurn. Aeth i'r ysgol i Wrexham, a gedwid gan y diweddar Barch. John Hughes, Liverpool. Yr oedd yr hybarch Dafydd Cadwaladr yn fawr ei bryder rhag i dref Wrexham, a'r iaith Saesoneg, ac ysgolheigdod, andwyo Dafydd Rolant. Ac yr oedd rhyw *wag* wedi dyweyd wrtho ei fod wedi myned trwy Wrexham yn ddiweddar gyda gŷr o wartheg, a'i fod wedi gweled Dafydd Rolant a Daniel Evans (Harlech, yr hwn oedd hefyd yn yr Ysgol) yn chwareu pêl. Parodd hyn iddo "fawr ofal calon" am y bechgyn. Daeth Dafydd Rolant adref, a'r lle cyntaf i Dafydd Cadwaladr ei weled oedd yn Nghyfarfod Misol Ffestiniog.

"Yr oedd efe yno ymhell cyn yr amser, yn ol ei arfer; ond clywai o'r tŷ rywun yn dyweyd, 'Dacw Dafydd Rolant yn dyfod.' Yr oedd arno ofn mawr ei fod wedi dyfod yno ar gefn ceffyl, a bod yr ysgol yn Ngwrecsam wedi gwneyd y mawr niwed iddo. Yn y fan allan âg ef o'r tŷ i'w gyfarfod, ac er ei fawr lawenydd, gwelai fod golwg led aflawen arno eto. Pan gododd ei olwg, a'i ganfod yn yr hen arddull gyntefig, cyflwynai ei ffon o'r llaw dde i ofal yr aswy, ac estynai ei law dde i'w gyfarfod, gan ei gyfarch yn serchog, 'Fy machgen anwyl i, sut yr wyt ti?—ac mi ddoist?' Ar ol cael atebion i hyn, gofynai eilwaith,—

'Ar dy draed y doist ti?'

'Iê.'

'Iechyd i dy galon di!'

'Yn droednoeth-goesnoeth a'm 'sane yn fy mhoced, a'm 'sgidiau dan fy nghesel.'

'Iechyd iti! Yr ydwyf fi wedi meddwl llawer am danat ti; yr oeddwn i wedi meddwl y byddent wedi dy lygad-dynu di gyda'r Saesoneg yna; ond yr wyf yn gweled mai Dafydd Rolant, Cwmtylo, wyt ti eto er eu gwaethaf nhw. Iechyd iti!'"—*O Gofiant* DAFYDD ROLANT *y Bala, gan y Parch.* OWEN JONES, B.A., *Liverpool.*

GWAITH BYWYD YN DYFOD ALLAN YN Y GEIRIAU OLAF.

SYLWYD yn fynych fod y meddwl, yn ymyl marw, yn cael ei gymeryd i fyny gan y pethau ag yr ydoedd yn ymwneyd fwyaf â hwy mewn iechyd. Geiriau olaf Napoleon oeddynt orchymynion milwraidd: "*Head*"—"*Army.*" Yr eiddo barnwr enwog, Arglwydd Tenterden, oeddynt, "Foneddigion y rheithwyr, yn awr ystyriwch eich rheithfarn." A blaenor duwiol—un o'r rhai ffyddlonaf a adwaenasom erioed—un oedd wedi bod am flynyddoedd lawer yn brif flaenor un o eglwysi mwyaf Cymru, yr oedd yntau wrth ei hoff waith yn ei fynydau olaf:—"Wel, gyfeillion, dyna chwi wedi clywed beth y mae hi yn ei ddyweyd. Pawb sydd yn foddlon iddi hi gael ei derbyn, rhowch arwydd trwy godi llaw."—G.

GEIRIAU Y DOETHION.

Y MAE Cenfigen yn cyfrif rhinweddau ac yn ail-gyfrif beiau.

Llythyrau yw yr Ysgrythyrau, medd Awstin, o'n gwlad nefol.

Dywedai un ei fod yn credu yn anfarwoldeb yr enaid, nid am ei fod yn gallu ei brofi, ond am *nad* allai.

Cronicl Cenadol.

CYFARFOD YR HENADURIAETH YN SHILLONG.

GAN Y PARCH. JOHN ROBERTS.

Cherra, Ebrill 16, 1890.

CYNNALIWYD cyfarfodydd ein Henaduriaeth yn Shillong, Mawrth 22, y 23, a'r 24ain. Penodwyd Mr. Jones, Jowai, yn Llywydd, a minnau yn Ysgrifenydd.

Dechreuwyd y cyfarfod cyntaf nos Sadwrn am hanner awr wedi wyth, gan U Kypa Ka Lahnn, Jowai, ac yna cafwyd gair o anerchiad gan y Llywydd.

I. Cenadwriaethau oddiwrth Eglwysi. 1. *Nongsawlia*:—Yr oedd dau ddyn ieuanc yn cael eu cynnyg i fod yn efengylwyr—U Sutonrai ac U Jobin. Y mae y ddau yn perthyn i'r sefydliad duwinyddol yma, ac wedi rhoddi boddlonrwydd mawr i'r eglwys. Penderfynwyd ar iddynt sefyll yr Arholiad nesaf. 2. *Shella*:—Gofynid am ganiatâd i adeiladu capel yn Nongnah, Maram, a chawsant ef. 3. *Shangpung*:—Siaradwyd am ddau gapel oeddid wedi adeiladu yn y dosbarth hwn, a dywedwyd nad oedd anghen am grybwyll yn yr Henaduriaeth am bob math o adeilad, mai pan fyddid yn myned i draul weddol fawr y dysgwylid hyn. Mewn cysylltiad â hyn hefyd crybwyllwyd ei bod yn dyfod yn bwysig sicrhau tir ymhob pentref tuag at adeiladu capelau, ac na ddylid ar un cyfrif ganiatâu adeiladu capelau ar dir perthynol i bersonau unigol. A chrybwyllwyd engreifftiau o'r modd yr oedd hyn wedi arwain i golli hawl yn y capelau. 4. *Shillong*:—Yr oedd genym y gorchwyl pruddaidd o ddiarddel tri o flaenoriaid—dau o Belahari, ac un o Nongwah, un am feddwi a dau am odineb.

II. Yr oeddym yn derbyn nifer o flaenoriaid o Bhoi Lasa, Bhoi Lymbong, Nongwar, Nongjiri, ac un neu ddau o leoedd eraill. Yr oedd golwg ddymunol arnynt. Holwyd hwy am eu profiadau gan Mr. Ceredig Evans, a chafwyd rhai sylwadau gwir dda ganddynt. Yna holwyd hwy am eu gwybodaeth gan Mr. Stevens, ac ar y cyfan yr oeddynt yn ateb yn dda, ac ystyried mai o ran o'r wlad ag oedd yn ddiweddar iawn yn fro tywyllwch a chysgod angeu y deuent—sef gwlad y Bhoi. Rhoddwyd cynghorion da iddynt gan U Jura, a dywedais innau air neu ddau wrthynt, am iddynt ymroddi i gynnyddu mewn gwybodaeth o'r Bibl.

III. Rhanwyd gwobrwyon o lyfrau a anfonasid gan Dr. Saunders i'r dynion ieuainc oeddynt yn ateb owestiynau a roddasai ef yn y flwyddyn 1887. Y llyfrau oeddynt *The Life of Christ* gan Dr. Hanna—llyfrau gwir dda a buddiol. Galwyd y dynion ieuainc ymlaen i dderbyn y llyfrau o law Llywydd yr Henaduriaeth. Pa fodd bynag, yr oedd un—U Katwar, wedi huno yn yr Iesu, ond barnasom nad oedd ond iawn rhoddi y llyfr i'w deulu; tybiem hefyd

mai dyma fuasai teimlad Dr. Saunders ei hun. Yr oeddym oll fel Henaduriaeth yn teimlo yn ddiolchgar iawn i Dr. Saunders am ei rodd werthfawr. Dyna waith y cyfarfod cyntaf.

Am un o'r gloch, bu gan y brodorion Cristionogol gyfarfod, yn yr hwn yr oeddynt yn traethu ar yr adnod olaf yn ail Epistol Pedr.

IV. Am bedwar o'r gloch cafwyd cyfarfod eto. Y peth cyntaf fu dan sylw yn hwn oedd ymadawiad y Parch. T. Jerman Jones a Mrs. Jones. Siaradodd amryw yn hynod deimladwy am danynt. O blith y brodorion siaradai U Dorkha a Porbatsing, y rhai a roddent y cymeriad uchaf iddynt ymhob cylch. Ac yr oeddym ninnau y Cenadon yn teimlo chwithdod mawr iawn ar ol y ddau. Ein gweddi oll ydyw ar i Mr. Jones gael adferiad buan. Rhodder gorphwysdra iddo—dyna sydd arno eisieu. Dyn Duw yn ddiammheuol ydyw Mr. Jones, ac y mae ynddo ef arwyddion Apostol. Ac os nad yw yn Apostol i eraill, y mae felly yn wir i gannoedd o Gasiaid. Dangoswyd caredigrwydd mawr tuag ato ef a Mrs. Jones gan Ewropëaid Shillong yn ystod afiechyd Mr. Jones—yr oedd yn amlwg fod iddynt le dwfn yn eu serchiadau hwythau hefyd. Pasiwyd penderfyniad o gydymdeimlad â hwy, ac amlygwyd gobaith cryf y gwelid hwy yn ol cyn bo hir iawn.

V. Treuliwyd y gweddill o'r cyfarfod hwn i wrando hanes yr achos yn y Dosbarth. Ymddengys fod golwg galonogol ar y gwaith ymron ymhob man. Tipyn yn helbulus y maent wedi bod yn Shillong ei hun er ys amser bellach. Y mae yno ryw ychydig yn ceisio yr eiddynt eu hunain, a thrwy hyny yn llwyddo i beri cryn boen a blinder, a chafodd Mr. Jones ran dda o'r naill a'r llall yn y misoedd diweddaf. Ond y mae yno eraill yn gryn dipyn o halen.

Y Sabboth.—Am saith yn y bore cyfarfod gweddi. Am 10, dechreuodd U Timothy, a phregethodd U Iang, Jowai, oddiar Ioan vi. 26, a Mr. Ceredig Evans, oddiar Luc xxi. 23. Am 1 o'r gloch, dechreuodd U Sati, a phregethodd Mr. Pengwern Jones yn Saesoneg, oddiar Daniel v. 27, a minnau oddiar Salm lxxiii. 28. Am bedwar, dechreuodd U Joel, a phregethodd U Khersing, oddiar Eph. iv. 24, a Mr. Stephens oddiar 1 Cor. iii. 11. Cafwyd cynnulliadau lliosog a gwrandawiad astud, a lle i feddwl nad aeth y pregethu yn ofer.

Am 7 o'r gloch cynnaliwyd cyfarfod eglwysig i ymddyddan am Ostyngeiddrwydd.

Dydd Llun y bore, am 7 o'r gloch, cafwyd cyfarfod eto o'r Henaduriaeth.

VI. Cafwyd coffâd cynhes am U Ryman, un o flaenoriaid eglwys Nongsawlia, yr hwn a fu farw yn ddiweddar. Teimlir chwithdod mawr ar ol U Ryman. Hwyrach eich bod yn cofio mai brawd U Larsing oedd ef —y ddau erbyn hyn wedi cael eu hail uno. Bu Ryman ar gyfeiliorn, ond tua phymtheng mlynedd yn ol cafodd dro amlwg, a bu yn Gristion ffyddlawn a gweithgar hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd Ryman yn un o'r ychydig *characters* oedd genym; yr oedd yn ddiarebol am ei foneddigeiddrwydd a'i dymher dda. Ond dyma fe wedi ein gadael a myned at ei wobr. Diau iddo gael ei gyfarch â'r geiriau, "Da, was da a ffyddlawn."

VII. Darllenwyd y papyr a barotowyd o gyfarfod y brodorion.

VIII. Darllenwyd yr Ystadegau am y flwyddyn a aeth heibio. Mor bell ag yr oedd nifer yn myned, yr oedd yn un calonogol iawn; y cynnydd yn y nifer yn yr eglwysi yn fawr, dros naw cant.

Mewn cysylltiad â hyn penderfynwyd cael Pwyllgor mewn cysylltiad â Henaduriaeth Cherra i ystyried y cwestiwn,—Pa fodd i gael cyfrif unffurf o'r nifer yn yr Ysgol Sabbothol? Pob Dosbarth i ethol dau gynnrychiolydd.

IX. Treuliwyd y gweddill o'r cyfarfod hwn i siarad ar y mater o'r *Cyffes Ffydd*, sef *Arfaeth Duw*.

X. Bu genym hefyd gyfarfod i dderbyn adroddiad y Pwyllgor Bugeiliol. Y mae pedwar wedi eu dewis i'w cyflwyno i'r Gymanfa Gyffredinol gyda golwg ar iddynt gael eu hordeinio, sef U Jura, U Iang, U Ksanbin, ac U Ksan o Shella.

Wedi diolch i gyfeillion Shillong am eu caredigrwydd, a hysbysu y byddai yr Henaduriaeth nesaf yn Henaduriaeth Jiwbili, ac i gael ei chynnal yn Nongsawlia y Sabboth olaf o Hydref, terfynwyd.

DOSBARTH SHELLA.

GWLAD MARAM.

Llythyr oddiwrth y Parch. W. Williams.

Shella, Ebrill 12, 1890.

Dymunaf ddanfon ychydig o hanes y daith ddiweddaf yn Maram.

Y lle cyntaf i ni ymweled âg ef ydoedd Kumawan, gwaith saith neu wyth awr o Mawphlang. Y mae yr athraw sydd yno yn ymweled yn gyson â phentrefi eraill yn y gymydogaeth, ac mewn un o honynt o'r enw Laitmawsiang y mae tua deuddeg o blant o dan addysg, ac y mae yno ddau deulu yn tueddu yn gryf at Gristionogaeth. Y maent wedi colli pob ymddiried yn y cythreuliaid.

Oddiyno aethpwyd i Mawlyngwir, yn ymyl marchnad Maram. Cynnaliwyd cyfarfod i ganu ac i bregethu yn y farchnad. Yr oedd yno gannoedd lawer o bobl o bob parth o'r wlad. Siaradodd U Ramjan, yr Efengylydd, ac U Don Lyndoh yn bwrpasol iawn, ac fe gafodd yr oll o'r siaradwyr wrandawiad astud.

Y mae *Bible Woman*, mam yn nghyfraith U Hajarsing Sim, wedi ei sefydlu yn y fan hon, ac yn ei thŷ hi y buom yn aros dros y nos. Y mae ganddi tuag ugain o bob rhyw, yn hen ac yn ieuainc, o dan addysg. Y mae yno un ddynes berthynol i deulu breninol Jakrem wedi dysgu ddarllen y Bibl yn dda. Y mae yno un aberthwr i'r

cythreuliaid hefyd wrthi yn galed yn dysgu y Llyfr Cyntaf. Y mae yn cario ei lyfr gydag ef bob amser ar ei deithiau fel aberthwr, a phan y bydd wedi gorphen gyda'r ŵyau a'r ieir, ymafla drachefn ynddo i'w ddarllen yn nglywedigaeth ei gyfeillion. Y mae y *Bible woman* hon yn ymweled yn gyson â thri neu bedwar o bentrefi yn y gymydogaeth.

Oddiyma aethpwyd i Rangthong, lle yr oedd Sassiwn fechan i gael ei chynnal. Daeth yno amryw ynghyd o'r gwahanol leoedd. Nos Sadwrn cafwyd cyfarfod i dderbyn adroddiadau ynghylch y gwaith yn y gwahanol bentrefi. Er y cyfarfod cyffelyb o'r blaen, yr hwn a gynnaliwyd yn Nongnah ar y Nadolig, y mae y gwaith wedi cynnyddu yn fawr. Yr ydys wedi derbyn tua deugain neu ragor i'r Eglwysi. Y mae 150 o Gristionogion yn Maram erbyn hyn. Ein gweddi ydyw ar iddynt gael eu cadw hyd y diwedd. Wedi gorphen y cyfarfod hwn cynnaliwyd cyfarfod i arholi y rhai sydd wedi eu dewis gan yr Eglwysi i bregethu yn achlysurol. Arholwyd hwy gan U Ksan, Shella, mewn rhanau o Efengyl Matthew. Ymddangosodd saith ac fe basiodd y saith. Rhoddwyd gwobr o lyfr hymnau i'r ddau flaenaf, un o Nongnah ac un o Rangthong. Presbytery Maram, cofier, roddodd y wobr.

Dydd Sul cynnaliwyd cyfarfod i bregethu. Yr oedd yno tua 100 neu 120 yn bresennol. Nos Sul cafwyd Cyfarfod Eglwysig. Y mater fu dan sylw oedd, "Undeb yn Eglwys Crist."

Boreu ddydd Llun cafwyd cyfarfod arall i barotoi papyr ar gyfer yr eglwysi oddiar Ioan xiv. 18. Y mae y cyfarfod nesaf i fod yn Nongsynrih yn niwedd mis Tachwedd. Ar ddiwedd yr ail gyfarfod dydd Sul bedyddiwyd 29. Tri o Nongnah, dau o Jakrem, wyth o Rangjadong, pentref yn agos i Rangthong, a'r gweddill o Rangthong. Cyfranogwyd hefyd o Swper yr Arglwydd. Erbyn hyn y mae chwech o dai heblaw y Capel ar y tir cenadol yn Rangthong.

Dydd Llun aethpwyd i lawr i Nongnah, taith flinderus a phoeth. Yn Nongnah bedyddiwyd 21, a gweinyddwyd Swper yr Arglwydd am y tro cyntaf yn y lle. Boreu drannoeth cyn cychwyn priodwyd dau bâr ieuainc, a rhoddwyd cynghor ardderchog iddynt gan U Ramjan, yr Efengylydd. Yr oedd ei anerchiad yn un o'r pethau mwyaf tarawiadol a phrydferth a glywais i erioed. Y mae yr hen ŵr hwn yn sicr o fod y mwyaf galluog o'r holl Gristionogion yn y wlad. Arosodd U Ksan yn Nongnah am ychydig ddyddiau er mwyn ymweled â rhai o'r pentrefi yn y dyffrynoedd cyfagos. Y mae un neu dau o'r pentrefi hyn yn awyddus i gael ysgol.

Daeth y Cristionogion i'n hebrwng am tua milldir a hanner allan o'r pentref, a chyn gwahanu canwyd dwy dôn, "Diolch am yr efengyl," a "Mae ffynnon hyfryd lawn o waed," a gweddïwyd gan U Mon Lyngdoh. Dyma ran o'i weddi ar ei liniau ar y llwybr:—"Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd. Sancteiddier dy enw. Gwneler dy ewyllys ar y ddaear megys y mae yn y nefoedd. Yr ydym yn diolch i Ti am yr efengyl. O'r blaen yr oeddym mewn tywyllwch mawr yn addoli cythreuliaid, yn addoli gwaed teirw, geifr, moch a ieir, ond methodd y rhai hyn oll a'n gwella. Yn lle gwella, yr oeddym yn myned waeth waeth. Yr ydym yn erfyn arnat ein cynnorthwyo i ymaflyd yn ddiysgog yn yr efengyl. Gwared ni rhag chwareu plant â'r efengyl. Gofala am danom. Gwared ni rhag pob perygl, rhag pob temtasiwn a phob cynllwyn o eiddo'r diafol. Er mwyn enw yr Iesu, Amen."

Yn ymyl y lle yr oeddym yn gwahanu y mae mynydd pur uchel, mynydd gwaharddedig i Gasi, gan y creda fod y cythreuliaid yn cartrefu yno. Gwelsom rai o'r merched ieuainc yn dringo y mynydd hwn yn nghwmpeini yr athrawes, ac oddiar ei ben clywsom hwy yn y pellder yn canu, "Myfi 'r pechadur penaf, fel yr wyf; Wyneb af i Galfaria, fel yr wyf." Y mae dwy flynedd o amser wedi gwneyd cyfnewidiad mawr yn hanes y bobl yma. Yr oeddym wedi bwriadu cyrhaedd Potjawd erbyn nos Fawrth, ond methwyd, a bu raid i ni aros yn Rangthong. Yno cafwyd cyfleusdra i siarad âg un o brif ddynion y lle ynghylch crefydd yr Arglwydd Iesu, ac fe addawodd wneyd ei oreu fel ymgeisydd, ac y mae y Cristionogion i ymweled âg ef, i'w "ddysgu i weddïo ac i ddeall gair Duw."

Dydd Mercher cyrhaeddwyd Nongsynrih. Bedyddiwyd 19 yno, a chyfranogwyd o Swper yr Arglwydd am y tro cyntaf yn y pentref. Y mae yma, fel mewn pentrefi eraill yn Maram, deuluoedd cyfain yn cofleidio Cristionogaeth. Y mae rhywbeth yn ddymunol iawn mewn cael bedyddio yr oll o'r teulu. "Tydi a'th deulu." Y mae y gloch *(gong)* oedd yno yn arfer galw y bobl ynghyd i aberthu i'r cythreuliaid brwnt yn awr yn cael ei defnyddio i alw y bobl ynghyd i addoli y gwir a'r bywiol Dduw! Y mae U Don Lyngdoh, yr offeiriad dychweledig, wedi cynnyg darn helaeth iawn o dir at wasanaeth y Genadaeth. Dywedwyd wrthyf fod y tir yn werth amryw filoedd o *rupees*. Yr wyf am ymgynghori â'm cyd-Genadon cyn gwneyd dim yn derfynol ar y mater. Y mae yma ddarn hefyd yn cael ei roddi gan U Mon Sordar yn Nongnah.

O Nongsynrih daethpwyd i Kumawan, trwy Jakrem, lle yr aroswyd am ychydig amser. Y mae y gwaith fel pe yn ymaflyd yn y bobl yno hefyd, ac y mae y *Sim* yn myned i ddechreu bywyd newydd, medd efe wrthym. Yr oedd yn erfyn arnom ei gofio yn ein gweddïau. Y mae yn cadw y Sabboth, yn mynychu y cyfarfodydd, ac yn gweddïo gyda chysondeb yn ei dŷ, ond y mae y ddiod yn fagl fawr iddo. Ymddygodd yn annheilwng iawn yn ddiweddar tuag at un o Gristionogion Nongsynrih, a rhoddodd ef mewn cadwynau am ryw gymaint o amser, a hyny am ddim yn y byd. Y mae yn ddrwg ganddo am hyn erbyn hyn, a rhodda y bai ar y ddiod, ac

ar rai o'i gynghorwyr sydd yn elynion i Gristionogaeth.

O Kumawan daethpwyd i Mawphlang, lle y treuliwyd y Sabboth, pryd y cyfranogwyd o Swper yr Arglwydd ac y bedyddiwyd pedwar.

OFFEIRIAID PABAIDD YN KHASIA.

Rhan o Lythyr oddiwrth y Parch. C. L. Stephens.

Mewn llythyr dyddiedig Ebrill y 5ed, dywed Mr. Stephens, "Rhaid mai drwg iawn oedd genych ddeall fod y Pabyddion wedi dechreu cenadaeth yma. Bu U Jura yma yr wythnos hon yn siarad â mi yn eu cylch. Ymddengys fod rhai o'r bobl wedi bod gyda hwynt, ond yr oll a allwn ddeall o berthynas iddynt ydoedd fod yn debyg y bydd ganddynt orsaf yn Jiwai a Cherra, yn gystal ag yn Shillong, a'u bod eisoes yn dyweyd mai o'r Saesoneg y mae ein cyfieithiad ni o'r Ysgrythyrau wedi ei gymeryd, ac mai nid o'r gwreiddiol y mae y cyfieithiad Seisonig. Mae hyn, mor bell ag y mae yn cyfeirio at y Testament Newydd, yn debyg iawn i ddau gamgymeriad. Yr wyf yn awyddus o ddyfod o hyd i'r llwybr y byddai yn ddoethaf i ni eu cyfarfod hwy a'u dysgeidiaeth. Diau mai y ddyledswydd gyntaf ydyw cyflwyno y gwirionedd i gydwybod pob dyn ger bron Duw. Hyderaf y bydd i'r hyfforddiant a dderbyniodd y bobl yma eu cadw yn amser y brofedigaeth. A wyddoch chwi am ryw lyfr neu lyfrau a fyddant yn help i ni a'r Cristionogion brodorol ar yr adeg bwysig hon?"

ORDEINIAD PREGETHWYR BRODOROL.

Fel y gwelir yn yr adroddiad blaenorol am weithrediadau yr Henaduriaeth a gynnaliwyd yn Shillong yn mis Mawrth, dewiswyd pedwar o'r Efengylwyr brodorol i'w hordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth, sef U Jura, Mairang; U Iang, Jiwai; U Ksanbin, Nongsawlia; ac U Ksan, Shella. Cyflwynwyd enwau y pedwar i'r Gymanfa Gyffredinol, a phenderfynwyd gan y Gymanfa eu bod i gael eu hordeinio yn yr Henaduriaeth yn Nongsawlia, yn mis Hydref nesaf. Diau y darllenir gyda dyddordeb y crybwyllion a ganlyn a roddir gan y Parch. John Roberts am bob un o'r brodyr hyn.

"Cawsant, i ddechreu, gymeradwyaeth y Pwyllgor (cynnwysedig o'r Cenadon a nifer o'r brodorion) sydd yn gofalu am y Fugeiliaeth, ac wedi hyny cawsant gymeradwyaeth yr holl Henaduriaeth. Dichon ei fod yn anghenrheidiol i mi ddyweyd ychydig am bob un o'r pedwar, yn enwedig gan nad ydynt yn cael eu cyflwyno yn hollol ar yr un tir i gael eu hordeinio. Y mae yn un o'r rheolau fod i bob un a ordeinir fod yn fugail ar un neu ychwaneg o eglwysi. Y mae hyn wedi cael ei gario allan yn llythyrenol yn achos U Ksanbin ac yn achos U Ksan, Shella. Ond y mae fel arall gydag U Jura ac U Iang. Y mae U Ksan, Shella, yn gofalu er ys amser bellach am eglwysi Nongtrai a Tynger, ac y mae yn llwyddiannus a chymeradwy yn y lleoedd hyny; ac y mae ymhob modd wedi dangos ei hun yn deilwng o gael yr anrhydedd hon. Y mae yn ddyn gwir grefyddol, ac wedi taflu ei hun yn hollol i waith teyrnas Mab Duw.

Gofala U Ksanbin hefyd am eglwys Mawmluh, ac y mae yntau hefyd yn meddu ymddiried hollol pobl ei ofal. Gŵr call, crefyddol yw U Ksanbin, ac y mae yn gweithio digon, fel nas gellir beïo arno, ond nid llawer dros ben hyn. Y mae yn bregethwr gwir dda; ni chlywais ef yn pregethu yn sal erioed, ond ni siomwyd fi erioed ganddo yr ochr oreu. Yr un fath y pregetha ymhob man, ac nid yw siarad synwyr efengylaidd na phregethu yr efengyl yn synwyrol yn un gamp iddo. Ymhob ystyr o'r gair y mae U Ksanbin yn ddyn *safe*.

Yr oedd U Iang wedi ei osod yn fugail ar eglwysi Nongtalang a Sohkha, ond oblegid afiechyd sydd yn y lleoedd hyn bu raid iddo eu gadael. Ac yn absennoldeb Mr. John Jones bu yn gweithio yn Jowai, ac, mor bell ag y gellid deall, yr oedd yn gymeradwy. Yr oeddym yn barnu mai gwell fyddai ei ordeinio, a'i adael, ar hyn o bryd, i gynnorthwyo a bod at alwad y Cenadwr fydd yn gofalu am Jaintia yn ystod absennoldeb Mr. Jerman Jones o Shillong. Felly cynnygir ei ordeinio ef, nid yn ol llythyren y rheolau, ond yn hytrach fel eithriad. Barnem y byddai hyn yn well, gan fod yr eglwysi yn lliosog yn Jaintia, ac y bydd yn anmhosibl i un Cenadwr gyrhaedd i'r holl leoedd i weinyddu yr ordinhadau o Swper yr Arglwydd a Bedydd i'r bobl hyd yn nod unwaith yn y flwyddyn. Yr oedd U Iang yn llwyddiannus iawn ac yn gymeradwy yn Nongtalang a Sohkha.

Am U Jura, ar lawer golwg efe yw y mwyaf amlwg o'r holl Efengylwyr yma. Gall bregethu yn ardderchog ar droion, ac y mae wedi gwneyd hyny lawer gwaith. Ond ryw fodd y mae wedi bod yn hynod o anffodus er ys rhai blynyddoedd. Chwi fuasech yn synu y drafferth a gawsom gydag ef i gael ganddo gymeryd ei ordeinio, ac yn enwedig yr hyn a ddywedai fel rhesymau dros beidio cymeryd ei ordeinio. Yr wyf yn meddwl y gellid dyweyd ei fod yn weithiwr lled dda, ac, fel yr ydych yn gwybod, y mae ynddo lawer o bethau da, a da iawn. Y mae efe yn awr yn Mawlyng Kyneng (lle ar ochr y ffordd rhwng Shillong a Jiwai). Nid oes yno eglwys; efe sydd yn dechreu gyntaf yno."

YR ANGHEN AM GENADON A CHENADESAU.

Yn Adroddiad y Gymanfa Gyffredinol ddiweddaf pasiwyd y penderfyniad canlynol:—

"Ein bod yn amgylchiadau presennol y Gen-

adaeth yn Khasia ac yn Sylhet, yn ystyried y dylid symud ymlaen ar unwaith i anfon ychwaneg o frodyr a chwïorydd i'r maes Cenadol, a'n bod yn gwahodd ein pregethwyr ieuainc a merched ieuainc sydd wedi derbyn addysg, ac yn awyddus i gysegru eu hunain i'r gwaith Cenadol, i anfon ceisiadau at y Cyfeisteddfod trwy Ysgrifenydd y Genadaeth."

Taer ddymunir ar i'n pregethwyr ieuainc a merched ieuainc sydd wedi derbyn graddau o addysg gymeryd yr achos hwn at eu hystyriaeth mwyaf difrifol. Dywedir fod rhai yn peidio cynnyg eu hunain rhag ofn cael eu gwrthod. Ond gellir gobeithio y bydd rhai sydd yn cywir awyddu bod yn ddefnyddiol gydag achos Crist yn barod i gyfarfod â'r posibilrwydd o beidio cael eu derbyn. Gall rhai fod yn gymhwys i ryw ran o wasanaeth yr Arglwydd yn y wlad hon, nad ydynt yn gymhwys i'w hanfon i wlad Baganaidd. Gresyn na byddai nifer y rhai fyddo yn ymgynnyg mor lïosog, fel y gallai y Cyfarwyddwyr ddewis y rhai a ymddangosant y mwyaf cymhwys o nifer mawr o ymgeiswyr. Mae y gwaith yn gyfryw, o ran urddas ac o ran anhawsderau, fel y mae yn teilyngu ac yn gofyn y talentau uchaf. Mae yr anghen yn dyfod yn fwy bob dydd am i'r Cenadon a anfonir allan fod wedi cael addysg dda fel ag i fod yn arweinwyr ac athrawon i'r rhai goreu o'r brodorion. Dylai y merched ieuainc a anfonir allan fod, nid yn unig yn wir grefyddol ac yn llawn o ysbryd Cenadol, ond yn gyfryw o ran addysg, a dyweyd y lleiaf, ag y gallent gymeryd gofal ysgol elfenol, neu gymeryd lle fel athrawesau mewn teuluoedd parchus yn y wlad hon.

COF-GOLOFN AR FEDD Y PARCH. T. JERMAN JONES.

Dymunir galw sylw at y penderfyniad canlynol a basïwyd yn y Gymanfa Gyffredinol:—"Wrth ystyried llafur maith a chymeradwy y Parch. T. Jerman Jones, fod cyfleusdra yn cael ei roddi i'r cyfeillion fyddont yn dewis, i gyfranu tuag at godi colofn goffadwriaethol ar ei fedd. Fod y rhoddion i'w hanfon i Drysorydd Cyffredinol y Genadaeth o hyn hyd ddiwedd mis Medi nesaf. Os bydd y cyfanswm a gyfrenir yn fwy na thua £120, fod y gweddill i'w ddefnyddio, yn ol doethineb y Cyfeisteddfod Gweithiol, tuag at sefydlu ysgoloriaeth yn Khasia, neu tuag at unrhyw amcan Cenadol y cymerai Mr. Jones ddyddordeb neilduol ynddo. Fod hysbysiad i'r perwyl hwn yn cael ei gyhoeddi yn Nghylchlythyr y Gymanfa Gyffredinol ac yn y Drysorfa."

Ni fwriedir gwneyd dim appêl at yr achos hwn pellach na chyhoeddi yn y dull uchod y bydd y Trysorydd Cyffredinol yn barod i dderbyn unrhyw roddion y dymunir eu hanfon. Diau y bydd llawer o gyfeillion ein hanwyl frawd ac o garedigion y Genadaeth yn anfoddlawn i'r cyfleusdra fyned heibio heb iddynt gael cyfranu tuag at yr achos. Dalier sylw y bwriedir i'r cyfrif hwn gael ei gau ar ddiwedd mis Medi nesaf.

DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

Dymuna y Trysorydd Cyffredinol gydnabod yn ddiolchgar dderbyniad y symiau canlynol er yr hysbysiad diweddaf:—

	£	s.	d.
Oddiwrth Mr. John Wheldon, Ty'nycelyn, Llanberis, er cof am ei briod, Mrs. Mary Jones Wheldon, tuag at addysgu pregethwyr brodorol yn India	100	0	0
[Rhoddwyd y swm uchod gan Mr. Wheldon gyda'r dealltwriaeth mai y llög yn unig sydd i'w ddefnyddio, a hyny tuag at addysg pregethwyr brodorol yn Khasia neu Sylhet, ac fod y defnydd o'r llög hwn a'r amcan at ba un y cymhwysir ef i'w ddwyn i sylw y Cyfeisteddfod bob blwyddyn mewn cysylltiad â'r amcan-gyfrif a gymerir o'r treuliadau am y flwyddyn.]			
O New Brighton (gweddill 1889) ...	0	6	0
O Chatham Street, Liverpool ...	25	0	0
O Stanley Road, Bootle, Liverpool	42	15	0
O Anfield Road, Liverpool ...	24	8	11½
O Holt Road, Liverpool	9	12	2
Waterloo, Liverpool	7	15	2
Casgliwyd yn y Cyfarfod Cenadol Seisonig a gynnaliwyd yn Everton Brow, Liverpool, mewn cysylltiad â'r Gymanfa Gyffredinol	5	15	8
Sir Frycheiniog, trwy law Mr. H. Davies	6	6	0
"Cymro"	1	0	0
Garston	6	4	8
Oddiwrth y Parch. W. Lewis a Mrs. Lewis, Wrexham, y llogau i'w defnyddio ar ol eu marwolaeth hwy tuag at gynnaliaeth pregethwyr brodorol yn Khasia ...	500	0	0
Mr. D. Hughes, Cwm, Llansamlet, trwy law Dr. Griffiths	0	5	0
Mr. J. Phillips, Llansamlet, trwy law Dr. Griffiths	0	10	0

Dymuna yr Ysgrifenydd hysbysu ei fod wedi derbyn ac wedi anfon i Mr. Edward Davies, U.H., Plas Llandinam, Trysorydd Casgliad y Jiwbili, y swm a ganlyn:—

"Ffrynd i'r Genadaeth,"—Cynnyrch ysgrif i'r *Cymro*, trwy law y Cyhoeddwr, Mr. Isaac Foulkes, tuag at Jiwbili y Genadaeth	1	1	0

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, David Hughes, Esq., J.P. 4, *William Moult Street, Liverpool.*

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank, to the credit of Mr. David Hughes, Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society.* Gofaler am i bob *cheque* neu *Postal Order* a anfonir fod yn "crossed."

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddd-on ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. Herbert Lewis, Esq., J.P., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* Josiah Thomas, M.A., 28, *Breckfield Road South, Liverpool.*

P. M. EVANS AND SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON.